



**Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Cofnod y Trafodion**

**The National Assembly for Wales
The Record of Proceedings**

**Dydd Mawrth, 7 Chwefror 2006
Tuesday, 7 February 2006**

Cynnwys Contents

Cwestiynau i'r Prif Weinidog Questions to the First Minister	3
Datganiad Busnes Business Statement.....	27
Datganiad ar Adeilad Newydd y Cynulliad Statement on the New Assembly Building.....	29
Datganiad ar Bensiynau Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad Statement on Assembly Sponsored Public Body Pensions	43
Cymeradwyo Gorchymyn Awdurdodau Lleol (Indemniadau ar gyfer Aelodau a Swyddogion) (Cymru) 2006 Approval of the Local Authorities (Indemnities for Members and Officers) (Wales) Order 2006	56
Dadl Plaid Leiafrifol (Y Democratiaid Rhyddfrydol): Cymeradwyo Cyffuriau Minority Party Debate (The Liberal Democrats): Drugs Approval.....	60

Yn y golofn chwith, cofnodwyd y trafodion yn yr iaith y llefarwyd hwy ynndi yn y Siambr.
Yn y golofn dde, cynhwyswyd cyfieithiad o'r areithiau hynny.

In the left-hand column, the proceedings are recorded in the language in which they were spoken in the Chamber. In the right-hand column, a translation of those speeches has been included.

*Cyfarfu'r Cynulliad am 2 p.m. gyda'r Llywydd yn y Gadair.
The Assembly met at 2 p.m. with the Presiding Officer in the Chair.*

Cwestiynau i'r Prif Weinidog Questions to the First Minister

Cymunedau yn Gyntaf Communities First

Q1 Lisa Francis: Will the First Minister make a statement on the work of Communities First in Ceredigion? OAQ1216(FM)

C1 Lisa Francis: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am waith Cymunedau yn Gyntaf yng Ngheredigion? OAQ1216(FM)

The First Minister (Rhodri Morgan): A sum of £921,360 has been awarded for preparatory and capacity-building activities in Penparcau and the Tregaron area. These areas have also benefited from £138,000 from the Communities First trust fund and £160,000 for play and recreational activities for children and young people, as well as transport and safety initiatives.

Y Prif Weinidog (Rhodri Morgan): Dyfarnwyd swm o £921,360 ar gyfer gweithgareddau paratoadol a meithrin gallu yn ardaloedd Penparcau a Thregaron. Mae'r ardaloedd hyn hefyd wedi elwa o £138,000 o gronfa ymddiriedolaeth Cymunedau yn Gyntaf a £160,000 ar gyfer gweithgareddau chwarae a hamdden i blant a phobl ifanc, yn ogystal â mentrau cludiant a diogelwch.

Lisa Francis: You will know that the 'Reaching Higher, Reaching Wider' strategy proposes that funding should be increased in Communities First areas and other deprived communities to encourage people into higher education. Even within Communities First areas, electoral divisions and classification within programmes has led to demarcation, penalising people who live in pockets of deprivation that are not included in Wales's 100 most deprived wards, such as the Penparcau ward that you mentioned. While wards such as these are left out of the 'Reaching Higher, Reaching Wider' targets, learners from the Mid and West Wales region will continue to be turned away from higher education schemes in their areas. Will you look into this inequality?

Lisa Francis: Gwyddoch fod y strategaeth 'Ymgynraedd yn Uwch, Ymgynraedd yn Ehangach' yn cynnig y dylid cynyddu'r cyllid mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf a chymunedau difreintiedig eraill i annog pobl i ddilyn trywydd addysg uwch. Hyd yn oed mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf, mae rhaniadau etholiadol a'r broses ddsbarthu o fewn rhaglenni wedi arwain at greu ffiniau, gan gosbi pobl sy'n byw mewn pocedi o amddifadedd sydd heb eu cynnwys yn y 100 ward fwyaf difreintiedig yng Nghymru, megis y ward y soniasoch amdani, sef Penparcau. Tra bo wardiau fel hyn yn cael eu hepgor o dargedau 'Ymgynraedd yn Uwch, Ymgynraedd yn Ehangach', bydd dysgwyr o ranbarth Canolbarth a Gorllewin Cymru'n parhau i gael eu gwrthod gan gynlluniau addysg uwch yn eu hardaloedd. A wnewch edrych ar yr annhegwch hwn?

The First Minister: I am glad that you have welcomed our flexibility in including Penparcau, which is a partial ward, and the upland villages around Tregaron under the special initiatives programme. On your wider point, you are right; we strongly commend that the highest priority under 'Reaching Higher, Reaching Wider' is to ensure that

Y Prif Weinidog: Yr wyf yn falch eich bod wedi croesawu ein hyblygrwydd o ran cynnwys Penparcau, sy'n ward rannol, a'r pentrefi ar dir uchel ar gyrion Tregaron dan y rhaglen mentrau arbennig. O ran eich pwynt ehangach, yr ydych yn llygad eich lle; yr ydym yn cymeradwyo'n gryf mai'r brif flaenoriaeth yn 'Ymgynraedd yn Uwch,

families and their children from those areas, with their ambitions and aspirations, regard themselves as having the same ability to go all the way in terms of career choices, education and qualifications as children from homes where it is traditional to access education to the full.

Elin Jones: Yr oedd pobl Ceredigion a oedd yn y gynulleidfa ar gyfer rhaglen *Question Time* nos Iau diwethaf yn awyddus i wybod eich barn am y rhyfel yn Irac. A ydych wedi cael y cyfle i ystyried y mater erbyn hyn?

Y Prif Weinidog: Credaf fod hyn yn mynd i galon y setliad datganoli yr ydym yn gweithio oddi tano. Nid wyf am ddweud bod gennyf syniadau gwell na Tony Blair ynglŷn â'i ddyletswyddau ef, ac nid yw ef, yn yr un modd, yn ceisio dyfalu beth yr wyf fi yn ei wneud yma mewn perthynas â fy nyletswyddau i—[*Torri ar draws.*]

Y Llywydd: Trefn. Nid wyf yn credu bod y rhyfel yn Irac yn codi o gwestiwn am Gymunedau yn Gyntaf yng Ngheredigion.

Ymgyrraedd yn Ehangach' yw sicrhau bod teuluoedd a phlant o'r ardaloedd hynny, gyda'u huchelgeisiau a'u dyheadau, yn teimlo bod ganddynt yr un gallu i fynd yr holl ffordd, gyda golwg ar ddewisiadau gyrfa, addysg a chymwysterau, â phlant o gartrefi lle y mae'n draddodiad eu bod yn cael addysg lawn.

Elin Jones: Those people from Ceredigion who were in the audience for the *Question Time* programme last Thursday were keen to hear your views on the war in Iraq. Have you now had an opportunity to consider the issue?

The First Minister: I believe that this goes to the heart of the devolution settlement under which we work. I am not going to say that I have better ideas than Tony Blair in relation to his duties, and, likewise, he does not try to second-guess what I do here in relation to my duties—[*Interruption.*]

The Presiding Officer: Order. I do not believe that the war in Iraq arises from a question on Communities First in Ceredigion.

Addysg Cyfrwng Cymraeg Welsh-medium Education

Q2 Janet Ryder: Will the First Minister make a statement on the provision of Welsh-medium education? OAQ1224(FM)

The First Minister: The proportion of primary school pupils in classes where Welsh is the main medium of instruction increased from just below 18 per cent in 2001 to 19.6 per cent in 2005. The percentage of pupils in secondary school taught Welsh as a first language also increased, from 14 per cent in 2001 to 14.8 per cent in 2005.

Janet Ryder: While we are perhaps seeing an increase in the ability of children to speak Welsh, we are seeing a slight decrease in those who would be classed as fluent Welsh speakers. We know that your Government has been in power since 1999, but we are still in a situation in which we have no statistics to tell us how many secondary school teachers have the ability to teach through the medium of Welsh. Could I have a straight answer for once as to when your Government

C2 Janet Ryder: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg? OAQ1224(FM)

Y Prif Weinidog: Cynyddodd cyfran y disgyblion cynradd mewn dosbarthiadau lle y mae'r Gymraeg yn brif gyfrwng addysgu o fymryn o dan 18 y cant yn 2001 i 19.6 y cant yn 2005. Yn ogystal, cynyddodd canran y disgyblion uwchradd sy'n astudio'r Gymraeg fel iaith gyntaf o 14 y cant yn 2001 i 14.8 y cant yn 2005.

Janet Ryder: Er ein bod, efallai, yn gweld cynnydd yng ngallu plant i siarad Cymraeg, yr ydym yn gweld lleihad bach yn y nifer a gaiff eu dosbarthu fel siaradwyr Cymraeg rhugl. Gwyddom fod eich Llywodraeth wedi bod mewn grym ers 1999, ond yr ydym yn dal i fod mewn sefyllfa lle nad oes gennym arlliw o ystadegau i ddweud wrthym faint o athrawon ysgolion uwchradd sy'n gallu dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. A gaf ateb plaen, am unwaith, pryd y bydd eich

will address that situation and bring forward statistics to show how many secondary school teachers have the ability to teach through the medium of Welsh?

The First Minister: We have always accepted that Welsh is a shortage area. For that reason, we encourage people who are thinking of careers in teaching to seriously consider taking Welsh as a specialist subject. Shortage subjects are not unknown—mathematics and the sciences are also shortage subjects. There are ways of encouraging people to take up those subjects. In the same way as we produce too many primary school teachers, by and large, we produce too few secondary school teachers, by and large. We try to incentivise and guide people considering teaching as a career to take account of those shortages, as they will find it so much easier to find jobs.

John Griffiths: Ysgol Gymraeg Casnewydd, in my constituency, provides good education through the medium of Welsh at primary level. However, do you agree that there are special difficulties in areas such as Newport that should be recognised and addressed, such as the low level of Welsh spoken in the home, in the extended family and in the community, and the difficulties in recruiting staff?

The First Minister: The revival of Welsh-medium education in Newport, and in Gwent more generally, has been remarkably good in the last couple of decades. It has taken a lot of commitment and a lot of energy from those involved to achieve this. There are, of course, special problems. For example, you will not hear a lot of Welsh on the terraces at Rodney Parade on a typical Saturday afternoon. However, I think that the important thing is that we encourage local education authorities to be more proactive in assessing demand through the new guidance in their single education plans. If people want their children to go to Welsh-medium schools and they do not speak Welsh themselves, they will have to make early preparation by getting their children into playgroups, otherwise they may be denying their children

Llywodraeth yn rhoi sylw i'r sefyllfa honno a chyflwyno ystadegau sy'n dangos faint o athrawon ysgolion uwchradd sy'n gallu dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg?

Y Prif Weinidog: Yr ydym wedi derbyn erioed fod athrawon Cymraeg yn brin. Dyna'r rheswm pam yr ydym yn annog y rhai sy'n bwriadu dilyn gyrfa mewn addysgu i ystyried o ddifrif dewis Cymraeg fel pwnc arbenigol. Nid yw'r pynciau lle y mae athrawon yn brin yn gyfrinach—mae athrawon mathemateg a gwyddoniaeth hefyd yn brin. Ceir dulliau o annog pobl i ddilyn y pynciau hyn. Gallwn ddweud yr un peth am y ffaith ein bod, yn gyffredinol, yn cynhyrchu gormod o athrawon ysgolion cynradd ond ar y llaw arall nad ydym yn cynhyrchu digon o athrawon ysgolion uwchradd. Yr ydym yn ceisio rhoi cymhellion a chynghor i bobl sy'n ystyried addysgu fel gyrfa i bwysu a mesur yn ofalus y prinder hwn, gan y bydd yn llawer haws iddynt ddod o hyd i swyddi yn y pen draw.

John Griffiths: Mae Ysgol Gymraeg Casnewydd, yn fy etholaeth, yn darparu addysg dda drwy gyfrwng y Gymraeg ar lefel gynradd. Serch hynny, a ydych yn cytuno bod anawsterau arbennig mewn ardaloedd fel Casnewydd y dylid rhoi sylw iddynt a mynd i'r afael â hwy, megis mai ychydig iawn o Gymraeg sy'n cael ei siarad ar yr aelwyd, ymysg y teulu estynedig ac yn y gymuned, a'r anawsterau wrth recriwtio staff?

Y Prif Weinidog: Mae adfywiad addysg cyfrwng Cymraeg yng Nghasnewydd, fel yng Ngwent yn gyffredinol, wedi bod yn gryf iawn dros y degawd neu ddau diwethaf. Mae hyn wedi golygu cryn ymrwymiad a llawer o egni o ran y rhai sydd wedi bod ynghlwm wrth y gwaith o gyflawni hyn. Oes, mae broblemau arbennig wrth gwrs. Er enghraifft, ychydig iawn o Gymraeg a glywch ar derasau Rodney Parade ar brynhawn Sadwrn arferol. Fodd bynnag, credaf mai'r peth pwysig yw ein bod yn annog awdurdodau addysg lleol i fod yn fwy rhagweithiol wrth asesu'r galw drwy gyfrwng y canllawiau newydd yn eu cynlluniau addysg unigol. Os yw pobl am i'w plant fynd i ysgolion cyfrwng Cymraeg ac nad ydynt yn siarad Cymraeg eu hunain, rhaid iddynt wneud paratodau yn gynnar drwy gofrestru eu plant mewn grwpiau

the opportunity that they want them to have two or three years later when they reach full-time-school age.

The Leader of the Welsh Conservatives (Nick Bourne): I am sure that the First Minister would agree that the Welsh language has cross-party support in the Assembly. Therefore, there was great concern, probably across parties, when the Welsh Language Board was attacked. The board has continuing functions in relation to the language. I refer to statements made seemingly on behalf of the Minister for Culture, Welsh Language and Sport, who has not distanced himself from these. The statements referred to the death throes of the Welsh Language Board and to the fact that turkeys that do not vote for Christmas and that no-one elected the language board. This is important, so will the First Minister take this opportunity to distance himself from that unwarranted and inflammatory attack?

The First Minister: I would rebut the charge that that was an attack on the board. As I interpreted it, the context was clear, in that it was about a document produced by the board. Therefore, I think that you need to look again at what was reported in the press. In the same way that it is up to the language board to put forward ideas, it is up to the Government to respond. There is no point in saying anything other than that we thought that it was very curious of the language board to produce an entirely new policy in the last four or five months of its existence. I think that we would all agree that the phrase that everyone had been using about this was 'demob happy', and I think that there is an element of truth in that. You must not deny Government the ability to express a view about a document, and there was no attack on the board itself.

Nick Bourne: I listened carefully to what the First Minister said, and he said that it was nothing other than 'curious'. It was not simply a statement that it was 'curious'; that would have been one thing, even though it would have been unfortunate phraseology. The statement said that the Welsh Language

chwarae, neu fel arall, efallai y byddant yn amddifadu eu plant o'r cyfleoedd y maent yn dymuno eu rhoi iddynt ddwy neu dair blynedd yn ddiweddarach pan fyddant yn cyrraedd oed mynd i'r ysgol yn llawnamser.

Arweinydd Ceidwadwyr Cymru (Nick Bourne): Yr wyf yn siŵr y byddai'r Prif Weinidog yn cytuno bod cefnogaeth drawsbleidiol i'r Gymraeg yn y Cynulliad. Felly, yr oedd pryder mawr, ymysg pob plaid yn ôl pob tebyg, pan ymosodwyd ar Fwrdd yr Iaith Gymraeg. Mae gan y bwrdd swyddogaethau o hyd mewn perthynas â'r iaith. Cyfeiriau at ddatganiadau a wnaethpwyd, mae'n ymddangos, ar ran y Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon—nid ydyw wedi gwadu hynny beth bynnag. Cyfeirient at ymdrech olaf Bwrdd yr Iaith Gymraeg ar ei wely angau a'r ffaith nad yw tyrcwn yn pleidleisio dros y Nadolig ac na wnaeth neb ethol bwrdd yr iaith. Mae hyn yn bwysig, felly a wnaiff y Gweinidog fanteisio ar y cyfle hwn i ymbellhau oddi wrth yr ymosodiad diangen ac ymfflamychol hwn?

Y Prif Weinidog: Yr wyf yn gwadu'r cyhuddiad mai ymosodiad ar y bwrdd oedd hwn. Yn ôl fy nehongliad i, yr oedd y cyddestun yn glir. Sôn yr oedd am ddogfen a luniwyd gan y bwrdd. Felly, credaf y dylech daro golwg arall dros yr hyn a adroddwyd yn y wasg. Mae gan fwrdd yr iaith hawl i gyflwyno syniadau, ac yn yr un modd mae gan y Llywodraeth hawl i ymateb iddynt. Nid oes diben osgoi dweud ein bod yn ei gweld yn rhyfedd iawn bod bwrdd yr iaith yn llunio polisi newydd sbon yn ystod pedwar neu bum mis olaf ei fodolaeth. Credaf y byddem i gyd yn cytuno mai'r farn gyffredinol oedd eu bod 'yn gweld y diwedd yn dod', ac yr wyf yn teimlo bod hynny'n wir i raddau helaeth. Ni ddylech wadu gallu'r Llywodraeth i fynegi barn am ddogfen, ac nid oedd yn ymosodiad ar y bwrdd ei hun.

Nick Bourne: Gwrandewais yn astud ar yr hyn a ddywedodd y Prif Weinidog, a'i union eiriau oedd 'rhyfedd'. Nid 'rhyfedd' oedd byrdwn neges y datganiad; byddai hynny'n un peth, er y byddai'r dewis o eiriau'n anffodus. Dywedodd y datganiad fod bwrdd yr iaith yn gwneud ei ymdrech olaf ar ei wely

Board was going through its death throes, that turkeys do not vote for Christmas and that no-one voted for the language board either. That is what was said. This was put to the Minister for Culture, Welsh Language and Sport last week, on whose behalf the statement was made, but he refused to condemn it. I wrote to the Permanent Secretary some two weeks ago about this matter, and I gather that he is discussing it with you. I have had no reply or explanation as to whether or not it is a breach of the code relating to special advisers. I put it to you again: do you distance yourself from that very specific, unwarranted attack on the Welsh Language Board? [ASSEMBLY MEMBERS: 'Answer.']

The First Minister: It was not an attack on the Welsh Language Board.

Y Llywydd: Tynnwyd cwestiwn 3, OAQ1220(FM), yn ôl.

angau ac na fydd tyrwyn yn pleidleisio dros y Nadolig ac na wnaeth neb bleidleisio dros fwrdd yr iaith chwaith. Hynny a ddywedwyd. Awgrymwyd hyn wrth y Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon yr wythnos diwethaf, oherwydd ar ei ran ef y gwnaethpwyd y datganiad, ond gwrthododd ei gondemnio. Ysgrifennais at yr Ysgrifennydd Parhaol tua phythefnos yn ôl am yr union fater hwn, ac yr wyf yn cael ar ddeall ei fod yn trafod hyn gyda chi. Nid wyf wedi cael ateb nac esboniad ynghylch a yw hyn yn torri'r cod sy'n berthnasol i ymgynghorwyr arbenigol ai peidio. Gofynnaf unwaith eto: a wnewch ymbellhau oddi wrth yr ymosodiad diangen, hollol benodol hwnnw ar fwrdd yr iaith? [AELODAU'R CYNULLIAD: 'Atebwch.']

Y Prif Weinidog: Nid oedd yn ymosodiad ar Fwrdd yr Iaith Gymraeg.

The Presiding Officer: Question 3, OAQ1220(FM), has been withdrawn.

Swyddfeydd Post Post Offices

Q4 Peter Black: Will the First Minister make a statement on the Welsh Assembly Government's support for post offices? OAQ1201(FM)

The First Minister: Our post office development fund has awarded grants totalling £4.1 million to 106 post offices across Wales serving deprived and isolated communities. It is now closed. The Minister for Social Justice and Regeneration, Edwina Hart, is currently reviewing the fund's impact, and will make a decision about its future in due course.

Peter Black: The post office card account has been useful to many post offices, but I understand that the Government has announced that it will be phased out by 2010. As many post offices, particularly in deprived areas, derive 50 per cent or more of their income from the card accounts, will you consider making representations to the UK Government about this issue in an effort to avert this action?

C4 Peter Black: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gefnogaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru i swyddfeydd post? OAQ1201(FM)

Y Prif Weinidog: Mae ein cronfa datblygu swyddfeydd post wedi dyfarnu grantiau gwerth £4.1 miliwn i gyd i 106 swyddfa bost ledled Cymru sy'n gwasanaethu cymunedau difreintiedig a diarffordd. Bellach mae'r gronfa wedi dod i ben. Mae'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio, Edwina Hart, wrthi ar hyn o bryd yn adolygu effaith y gronfa, a bydd yn penderfynu beth fydd ei dyfodol maes o law.

Peter Black: Mae cyfrif cerdyn swyddfa'r post wedi bod yn ddefnyddiol iawn i lawer o swyddfeydd post, ond yr wyf yn cael ar ddeall bod y Llywodraeth wedi cyhoeddi ei bod yn ei ddirwyn i ben erbyn 2010. Gan fod llawer o swyddfeydd post, yn enwedig mewn ardaloedd difreintiedig, yn cael 50 y cant neu fwy o'u hincwm oddi wrth y cyfrifon cerdyn, a wnewch ystyried cyflwyno'ch sylwadau am y mater hwn i Lywodraeth y DU er mwyn ceisio atal hyn rhag digwydd?

2.10 p.m.

Will you also consider reopening the post office development fund to assist those post offices that will be in trouble as a result of this action?

The First Minister: It is my understanding that we are going to be making representations about the closure of the post office card account system, but I do not think that your analysis is right. I do not think that the post offices themselves, whether in deprived areas or anywhere else, gained any additional income from it, but, undoubtedly, it was an additional convenience for the customers, and we need to bear that in mind at all times.

Leighton Andrews: Pensioners from Tonypany, in my constituency, have been in touch about plans by the post office to move the branch there. Do you agree that it is important that, when the post office considers such a move, it holds proper consultations with all those affected?

The First Minister: Indeed. That goes to the heart of the post office's function as a public service. However, it is a public service that is substantially subsidised and, clearly, the Government wants to review the degree of that subsidy while the post office is digesting the consequences of the loss of benefit income. In areas with high percentages of pensioners or people on income support, that could form as much as 80 per cent of the post office's income. Digesting the impact of a change of technology that covers 80 per cent of your total income is a pretty substantial task, and that is why the post office development fund that we have run, and the comparable one for rural areas run by the Department of Trade and Industry, have been important in helping post offices to convert. However, we cannot continue to fund that until we know what the pattern of post offices will be, because of the danger of funding post offices that would not stay open.

A wnewch hefyd ystyried ailagor y gronfa datblygu swyddfeydd post i gynorthwyo'r swyddfeydd post hynny a fydd mewn trybini o ganlyniad i hyn?

Y Prif Weinidog: Yr wyf yn cael ar ddeall ein bod am gyflwyno sylwadau ynghylch dod â'r system cyfrifon cerdyn swyddfa'r post i ben, ond nid wyf yn credu bod eich dadansoddiad yn gywir. Nid wyf yn credu bod y swyddfeydd post eu hunain, boed mewn ardaloedd difreintiedig neu yn rhywle arall, wedi cael dim incwm ychwanegol drwy hyn, ond yn sicr, yr oedd yn wasanaeth ychwanegol hwylus i'r cwsmeriaid a rhaid cadw hynny mewn cof drwy'r amser.

Leighton Andrews: Daeth pensïynwyr o Donypany, yn fy etholaeth, ataf i holi ynghylch cynlluniau swyddfa'r post i symud y gangen yn y fan honno. A ydych yn cytuno ei bod yn bwysig, pan fydd swyddfa'r post yn ystyried cam o'r fath, ei bod yn cynnal ymgynghoriadau ystyrllon gyda phawb y bydd hyn yn effeithio arnynt?

Y Prif Weinidog: Yn wir. Mae hynny wrth wraidd swyddogaeth swyddfa'r post fel gwasanaeth cyhoeddus. Serch hynny, mae'n wasanaeth cyhoeddus sy'n derbyn cryn dipyn o gymhorthdal, ac yn amlwg, mae'r Llywodraeth am adolygu swm y cymhorthdal hwnnw tra bo swyddfa'r post yn ceisio dygymod â chanlyniadau colli'r incwm o fudd-daliadau. Mewn ardaloedd gyda chanrannau uchel o bensiynwyr neu bobl sy'n derbyn cymhorthdal incwm, gallai hyn fod yn gyfystyr ag 80 y cant o incwm y swyddfa bost. Mae ceisio dygymod â newid mewn technoleg sy'n mynd ag 80 y cant o gyfanswm eich incwm yn dasg hynod anodd, a dyna pam mae'r gronfa datblygu swyddfeydd post yr ydym wedi bod yn ei rhedeg, a'r gronfa debyg ar gyfer ardaloedd gwledig dan law'r Adran Masnach a Diwydiant, wedi bod yn bwysig iawn i helpu swyddfeydd post i newid drosodd. Fodd bynnag, ni allwn barhau i gyllido'r gronfa hyd nes y gwyddom beth fydd patrwm y swyddfeydd post, rhag ofn inni ariannu swyddfeydd post na fyddent yn aros ar agor.

Alun Ffred Jones: Yr ydych wedi cyfeirio at y cynllun cymhorthdal sydd yng ngofal Llundain. Gwn ei bod hi'n beth peryglus i ofyn am bolisi a wneir yn San Steffan, ond gan y bydd y cynllun hwn yn dod i ben yn 2008, os deallaf yn iawn, a ydych chi neu un o'ch Gweinidogion wedi trafod dyfodol y cynllun gyda Llywodraeth Llundain?

Alun Ffred Jones: You have referred to the grant scheme emanating from London. I know that it is dangerous to ask about a policy that is made in Westminster, but as this scheme will come to an end in 2008, if I have understood that correctly, have you or any of your Ministers discussed the future of the scheme with the Government in London?

Y Prif Weinidog: Mae trafodaethau cyson rhwng Edwina a'i hadran a'r Adran Diwydiant a Masnach yn Llundain, a chyda'r Trysorlys. Y Trysorlys sy'n talu'r cymhorthdal, ac mae'n anhapus gyda'i lefel, ond mae pawb yn derbyn bod swyddfeydd post yn rhan hollol angenrheidiol o rwydwaith ein gwasanaethau cyhoeddus.

The First Minister: There are regular discussions between Edwina and her department, and the Department of Trade and Industry in London, as well as with the Treasury. The Treasury pays the subsidy and it is unhappy with the level of it, but everyone accepts that post offices are a vital part of our network of public services.

Trenau rhwng Caerdydd a'r Cymoedd Trains between Cardiff and the Valleys

C5 Owen John Thomas: Pa drafodaethau diweddar a fu rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru a Threnau Arriva Cymru ynglŷn â'u cynigion i gynyddu'r fflyd sy'n gwasanaethu'r llinellau rhwng Caerdydd a'r Cymoedd? OAQ1210(FM)

Q5 Owen John Thomas: What recent discussions has the Welsh Assembly Government had with Arriva Trains Wales regarding its proposals to boost the fleet serving the lines between Cardiff and the Valleys? OAQ1210(FM)

Y Prif Weinidog: Mae Arriva wedi cyflwyno cynigion i ni, ac yr ydym wedi gofyn am fwy o wybodaeth ganddo. Yr ydym wedi neilltuo arian ar gyfer darparu cerbydau ychwanegol er mwyn helpu i ddatrys y broblem o orlenwi yn y rhwydwaith rhwng Caerdydd a'r Cymoedd, ac i alluogi cynnydd o 20 y cant yn lefel y gwasanaethau ar y rhwydwaith rheilffyrdd.

The First Minister: Arriva has presented proposals to us, and we have asked for more information from it. We have allocated funding for the provision of additional stock to help to resolve the problem of overcrowding in the network between Cardiff and the Valleys, and to enable the 20 per cent increase in the level of services on the railway network.

Owen John Thomas: This morning, a woman collapsed on the train from Pontypridd to Cardiff, which had standing room only for the last six stops between Treforest and Queen Street. Commuters had to step over her slumped body to get off the train. For several years, I have been asking you questions about this sort of problem, with passengers treated almost like animals, with no respect at all. All I get is procrastination and a promise for tomorrow, which never comes. Can you give me a straight answer on this, First Minister? When will the Government provide the 50 additional trains requested by Arriva to address this matter? Could you give me a definite date? We always get the same

Owen John Thomas: Y bore yma, llewygodd menyw ar y trê'n o Bont-y-pridd i Gaerdydd, a oedd yn orlawn a dim ond lle i sefyll am y chwe stop olaf rhwng Treforest a Stryd y Frenhines. Bu'n rhaid i deithwyr oedd ar y ffordd i'r gwaith gamu dros ei chorff a oedd yn un swp er mwyn camu oddi ar y trê'n. Ers sawl blwyddyn, yr wyf wedi bod yn holi droeon am y math hwn o broblem, lle y bydd teithwyr yn cael eu trin fel anifeiliaid bron, heb ddim parch o gwbl. Y cyfan y byddaf yn ei gael yw esgusion dros yr oedi ac addewidion gwag am yfory na ddaw. A allwch roi ateb gonest imi, Brif Weinidog? Pryd y gwnaiff y Llywodraeth ddarparu'r 50 o drenau ychwanegol y gofynnwyd amdanynt gan Arriva er mwyn

response: *mañana, mañana*.

mynd i'r afael â'r mater hwn? A allwch roi dyddiad pendant imi? Yr un yw'r ateb bob tro: *mañana, mañana*.

The First Minister: It is not *mañana* at all. The franchise is a 14-year programme, and we do not take it over until 1 April, as you know. To that extent, these are matters over which we do not have direct control for another two months. However, we have committed ourselves to £50 million in investment. Half of that is revenue subsidy, half is for fleet acquisition or leasing. To give you one example of the progress that has already been made, it is my understanding that we now have four trains an hour from Cardiff to Bargoed. That has already happened. That is not *mañana*, but this week.

Y Prif Weinidog: Nid *mañana* o gwbl. Rhaglen 14 blynedd yw'r fasnachfaint, ac fel y gwyddoch, nid ydym yn cael yr awenau tan 1 Ebrill. I ryw raddau yn sgîl hynny, mae'r rhain yn faterion nad oes gennym reolaeth uniongyrchol drostynt am ddau fis arall. Fodd bynnag, yr ydym wedi ymrwymo i roi £50 miliwn o fuddsoddiad. Buddsoddiad refeniw fydd hanner y swm hwnnw, a'r hanner arall ar gyfer prynu neu brydlesu fflyd. Un enghraifft o'r cynnydd a wnaed eisoes, yn ôl yr hyn yr wyf yn ei ddeall, yw bod gennym bellach bedwar trên yr awr o Gaerdydd i Fargoed. Mae hyn eisoes wedi digwydd. Nid *mañana* yw hynny, ond yr wythnos hon.

David Melding: We are actually very fortunate in our capital city to have such an excellent suburban railway network, but we need to enhance it. I use the train between Cardiff and Barry regularly, and it surprises me to see that the trains are crowded even at off-peak times. We need trains of three or four carriages, really, to get maximum benefit from this wonderful resource.

David Melding: A dweud y gwir, yr ydym yn hynod ffodus bod gennym rwydwaith rheilffyrdd maestrefol mor ardderchog yn ein prifddinas, ond mae angen i ni ei wella. Byddaf yn defnyddio'r trên rhwng Caerdydd a'r Barri'n rheolaidd, a byddaf yn synnu bod y trenau'n orlawn, hyd yn oed ar adegau tawel. Mae angen trenau â thri neu bedwar cerbyd arnom, yn y bôn, er mwyn cael y budd mwyaf o'r adnodd gwych hwn.

The First Minister: Indeed, it is a wonderful resource. The finger-plan pattern of the geography of south-east Wales, where the Valleys drain into Bridgend, Cardiff and Newport, means that it is a natural for rail transport. The Beeching cuts devastated the rail network, but we are rebuilding and reopening lines. The contract has now been let to Amey Rail for the construction of the Ebbw Vale line. The Vale of Glamorgan line is, as you know, already open. Whereas Governments not dissociated with your party, David, used to close a lot of railway lines, we are opening them. I think that that is one of our proudest records.

Y Prif Weinidog: Mae'n adnodd gwych, yn wir. Mae'r patrwm bysedd sy'n nodweddu daearyddiaeth y dde-ddwyrain, lle y mae'r Cymoedd yn treiglo i Ben-y-bont ar Ogwr, Caerdydd a Chasnewydd, yn ddelfrydol ar gyfer trafndiaeth rheilffyrdd. Chwalwyd y rhwydwaith rheilffyrdd gan doriadau Beeching, ond yr ydym yn ailadeiladu ac yn ailagor llinellau. Rhoddwyd y contract i adeiladu llinell Glynebwy i gwmni Amey Rail yn awr. Mae llinell Bro Morgannwg, fel y gwyddoch, wedi agor yn barod. Pryd yr arferai Llywodraethau agos iawn at eich plaid chi, David, gau nifer o linellau rheilffyrdd, yr ydym ni'n eu hagor. Credaf fod hynny'n un o'r llwyddiannau sy'n destun mwyaf o falchder i ni.

Jenny Randerson: New trains need new platforms, which is certainly true of Cardiff's Queen Street station. At a recent meeting, Arriva Trains Wales made its concerns clear to me over the overcrowding and congestion

Jenny Randerson: Os ceir trenau newydd, rhaid cael platfformau newydd, ac mae hynny'n sicr yn wir yng ngorsaf Heol y Frenhines yng Nghaerdydd. Mewn cyfarfod diweddar, mynegodd Trenau Arriva Cymru ei

at that station. There were ambitious plans to open new platforms and greatly increase capacity there, but they seem to have been abandoned. When will something be done to make the situation at Queen Street station acceptable in the twenty-first century, in a civilised country?

The First Minister: You are right to say that it is one of the system's major handicaps. The problem lies partially with Queen Street station, and partially with the junction about 100 yards north of it, where you get the divide between the Taff and the Rumney valley railway. You are also right in that there has been a rethinking of the big proposal, which was costed at around £10 million some five years ago. I do not know the current position, and so will have to write to you, or get Andrew Davies to do so, on whether that is part of the £50 million-worth investment that we are talking about here.

On your point about having longer trains, in going from two to three or four cars, and longer platforms to accommodate them, you will know that a major programme of works of that kind is under way in the Cynon valley leading up to Aberdare. You will know that we have put a high priority on moving from an hourly service to a half-hourly service at Merthyr. However, the blockage north of Queen Street has always been seen as a priority, but I am not sure just how high a priority it is at the moment. I will ask Andrew to cover that also in his letter.

bryderon yn glir wrthyf ynglŷn â'r gorlenwi a'r tagfeydd yn yr orsaf honno. Yr oedd cynlluniau uchelgeisiol i agor platfformau newydd a chynyddu'r capasiti yno, ond ymddengys eu bod wedi cael eu rhoi heibio. Pryd y gwneir rhywbeth i wneud y sefyllfa yng ngorsaf Heol y Frenhines yn dderbyniol yn yr unfed ganrif ar hunain, mewn gwlad wâr?

Y Prif Weinidog: Yr ydych yn gywir wrth ddweud bod hynny'n un o anawsterau mawr y system. Mae'r broblem yn rhannol gyda gorsaf Heol y Frenhines ac yn rhannol gyda'r gyffordd tua 100 llath i'r gogledd ohoni, lle y ceir y rhaniad rhwng rheilffordd Taf a chwm Rhymni. Yr ydych hefyd yn gywir pan ddywedwch fod ailfeddwl wedi bod ynghylch y cynnig swmpus, a oedd tua £10 miliwn yn ôl y prisio ryw bum mlynedd yn ôl. Ni wn beth yw'r sefyllfa ar hyn o bryd, felly bydd rhaid i mi ysgrifennu atoch, neu ofyn i Andrew Davies wneud hynny, i ddweud a yw hynny'n rhan o'r buddsoddiad gwerth £50 miliwn yr ydym yn sôn amdano yma.

O ran y pwynt a godwch am drenau hwy, a symud o ddau i dri neu bedwar o gerbydau, a phlatfformau hwy i'w derbyn, gwyddoch fod rhaglen waith sylweddol o'r fath ar waith yng nghwm Cynon yn arwain at Aberdâr. Gwyddoch ein bod wedi gwneud symud o wasanaeth bob awr i wasanaeth bob hanner awr ym Merthyr yn flaenoriaeth uchel. Fodd bynnag, mae'r dagfa i'r gogledd o Heol y Frenhines bob amser wedi ei hystyried yn flaenoriaeth, ond nid wyf yn sicr faint o flaenoriaeth ydyw ar hyn o bryd. Gofynnaf i Andrew roi sylw i hynny hefyd yn ei lythyr.

Cronfeydd Strwythurol Ewrop European Structural Funds

Q6 Janet Davies: Will the First Minister make a statement on European structural funds? OAQ1205(FM)

The First Minister: Since 2000, these programmes have committed £1.47 billion to 2,675 projects, representing a total investment of £3.6 billion. We will continue the work that is already well under way to enable us to get off to a flying start on 1 January 2007 with the successor programme to Objectives 1, 2 and 3.

C6 Janet Davies: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gronfeydd strwythurol Ewrop? OAQ1205(FM)

Y Prif Weinidog: Ers 2000, mae'r rhaglenni hyn wedi dyrannu £1.47 biliwn i 2,675 o brosiectau, sy'n golygu bod cyfanswm y buddsoddiad yn £3.6 biliwn. Byddwn yn parhau â'r gwaith sydd ar y gweill eisoes er mwyn ein galluogi i ddechrau arni o ddifrif ar 1 Ionawr 2007 gyda'r rhaglen a fydd yn dilyn Amcan 1, Amcan 2 ac Amcan 3.

Janet Davies: In the next round, a more strategic line will be taken on funding. Could you give me a clear and understandable answer as to how you will deal with genuine concerns from local government about really needed long-term funding schemes that may be lost if a more strategic line is pursued?

The First Minister: There is a difference between a clear answer and one that you do not actually like, Janet, and you may wish to ponder that. What you will find is that every time you decide to take a strategic line, some small projects, in the main, will worry that the bottom-up approach that we used in the first six or seven years of Objective 1 may be lost. We want to keep that bottom-up spirit but, undoubtedly, 2,675 is an awful lot of projects, and that makes you wonder whether you would have had a more effective set of outcomes had you halved that number. Could we be more strategic? We believe that we can. Do we think that that would produce better outcomes? Yes, we do.

Karen Sinclair: Only yesterday, the Minister with responsibility for equal opportunities, Jane Hutt, helped to launch British Sign Language Futures. That scheme, which has benefited from £1.6 million of Objective 1 funding, as well as more than £1 million from the Labour Assembly Government, will help to tackle the shortage of qualified sign language interpreters in Wales by funding 36 more apprentice interpreter posts in Wales and a further nine trainee interpreters with grants to access courses. First Minister, do you agree that that is the kind of project that highlights the important way in which structural funding is being used to tackle social inclusion and to help to drive up economic activity in Wales?

2.20 p.m.

The First Minister: Yes, I do. It is an innovative project and I do not think that anything like this has been attempted before and we look forward to an exciting outcome

Janet Davies: Yn y rownd nesaf, cymerir agwedd fwy strategol tuag at gyllido. A allech roi ateb clir a hawdd ei ddeall ynglŷn â sut y byddwch yn delio â phryderon gwirioneddol o du llywodraeth leol ynghylch cynlluniau cyllido hirdymor y mae gwir angen eu cael, ac y gellid eu colli os dilynir trywydd mwy strategol?

Y Prif Weinidog: Mae gwahaniaeth rhwng ateb clir ac ateb nad yw wrth eich bodd, Janet, ac mae'n bosibl yr hoffech ystyried hynny. Yr hyn a welwch yw hyn—bob tro y byddwch yn penderfynu dilyn trywydd strategol, bydd rhai prosiectau bach, yn bennaf, yn poeni y gellid colli'r agwedd o'r gwaelod i fyny a ddefnyddiasom yn chwech neu saith mlynedd cyntaf Amcan 1. Yr ydym am gadw'r ysbryd o'r gwaelod i fyny hwnnw ond, yn ddi-os, mae 2,675 yn nifer aruthrol o brosiectau, ac mae hynny'n gwneud i chi feddwl tybed a fyddai gennych chi set fwy effeithiol o ganlyniadau pe baech wedi haneru'r rhif hwnnw. A allem fod yn fwy strategol? Credwn y gallwn. A ydym yn credu y byddai hynny'n esgor ar ganlyniadau gwell? Ydym, yr ydym.

Karen Sinclair: Ddoe ddiwethaf, yr oedd y Gweinidog sydd â chyfrifoldeb dros gyfle cyfartal, Jane Hutt, yn helpu i lansio Dyfodol Iaith Arwyddion Prydain. Bydd y cynllun hwnnw, a dderbyniodd £1.6 miliwn o gyllid Amcan 1, yn ogystal â thros £1 miliwn gan Lywodraeth Lafur y Cynulliad, yn helpu i fynd i'r afael â'r prinder dehonglwyr iaith arwyddion cymwysedig sydd yng Nghymru drwy gyllido 36 yn rhagor o swyddi prentis-ddehonglwyr yng Nghymru, a naw yn ychwanegol o ddehonglwyr dan hyfforddiant gyda grantiau i fynd ar gyrsiau. Brif Weinidog, a gytunwch mai hwnnw yw'r math o brosiect sy'n tynnu sylw at y ffordd bwysig y defnyddir cyllid strwythurol i fynd i'r afael â chynhwysiant cymdeithasol ac i helpu i gynyddu gweithgarwch economaidd yng Nghymru?

Y Prif Weinidog: Cytunaf. Mae'n brosiect arloesol, a chredaf na cheisiwyd cyflawni dim byd tebyg i hyn o'r blaen ac edrychwn ymlaen at ganlyniad cyffrous o ran

in terms of equality, reducing economic inactivity and the economic development front in general. It is an excellent project.

Kirsty Williams: Under the adjacency rules, the whole of east Wales could qualify for the successor Objective 2 and 3 programmes. This is one issue that you have been willing to have an opinion on. You have said that that money should be targeted at Newport, Wrexham and Flintshire, but the Minister for Economic Development and Transport says that it is his intention to get the money for as much of east Wales as possible. What is the policy of your administration, please?

The First Minister: If you look back at the Record, you will see that we have been trying to hammer this issue very hard, in the face of the united opposition of the opposition parties that have wanted to ignore the issue of funding for east Wales because they have been obsessing about match funding. I have said this for weeks. Our top priority is to prepare for the new Objective 1 programmes and to get the best deal for east Wales that we can achieve, while accepting that the money will not be anything like as much as we received under Objective 1.

cydraddoldeb, lleihau anweithgarwch economaidd, a'r maes datblygu economaidd yn gyffredinol. Mae'n brosiect ardderchog.

Kirsty Williams: O dan y rheolau cydffinio, gallai dwyrain Cymru, yn ei gyfanrwydd, fod yn gymwys ar gyfer y rhaglenni a fydd yn olynu Amcan 2 a 3. Mae hwn yn fater yr ydych wedi bod yn fodlon bod â barn yn ei gylch. Dywedasoch y dylid targedu arian tuag at Gasnewydd, Wrecsam a sir y Fflint, ond dywed y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth mai ei fwriad yw cael yr arian i gymaint o ddwyrain Cymru â phosibl. Beth yw polisi eich gweinyddiaeth, os gwelwch yn dda?

Y Prif Weinidog: Os edrychwch yn ôl dros y Cofnod, gwelwch ein bod wedi bod wrthi'n ddyfal iawn yn ceisio rhoi trefn ar y mater hwn, yn wyneb gwrthwynebiad unedig y gwrthbleidiau sydd wedi bod yn awyddus i anwybyddu cwestiwn cyllid i ddwyrain Cymru oherwydd yr obsesiwn sydd ganddynt ynghylch arian cyfatebol. Bûm yn dweud hyn ers wythnosau. Ein prif flaenoriaeth yw paratoi ar gyfer y rhaglenni Amcan 1 newydd a tharo'r fargen orau a allwn dros ddwyrain Cymru, er cydnabod na fyddwn yn derbyn cymaint o lawer â'r hyn a dderbyniasom dan Amcan 1.

Cronfeydd Strwythurol Ewrop European Structural Funds

C7 Arweinydd yr Wrthblaid (Ieuan Wyn Jones): Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi eu cynnal gyda Gweinidogion Llywodraeth y DU ynglŷn â'r angen i sicrhau arian cyfatebol digonol er mwyn manteisio i'r eithaf ar gronfeydd strwythurol Ewrop? OAQ1206(FM)

Y Prif Weinidog: Ddeg diwrnod yn ôl, pan oedd y Prif Weinidog yng Nghaerdydd, manteisiais ar y cyfle i ddiolch iddo am ei ymdrechion llwyddiannus i sicrhau arian newydd o'r cronfeydd strwythurol i Gymru, ar gyfer y saith mlynedd sy'n dechrau ym mis Ionawr 2007. Diolchais hefyd am y drefn newydd—nid oes yn rhaid i ni ddadlau a ydyw o fewn neu'r tu allan i'r bloc, oherwydd bydd yn uwch na bloc Barnett—ac am y camau ymlaen o ran dwyrain Cymru. Dywedais wrtho hefyd fod obsesiwn gan y

Q7 The Leader of the Opposition (Ieuan Wyn Jones): What discussions has the First Minister had with UK Government Ministers regarding the need to secure adequate match funding to optimise European structural funds? OAQ1206(FM)

The First Minister: Ten days ago, when the Prime Minister was in Cardiff, I took the opportunity to thank him for his success in securing new structural funding for Wales, for the seven years that are to start in January 2007. I also thanked him for the new system—we do not have to argue about whether it is inside or outside the block, because it will be higher than the Barnett block—and for the advances in terms of east Wales. I also told him that the opposition parties are obsessed with match funding.

gwrthbleidiau ynglŷn ag arian cyfatebol.

Ieuan Wyn Jones: Yr wyf yn synnu eich clywed yn dweud ei fod yn obsesiwn gan y gwrthbleidiau oherwydd yr oedd hefyd yn obsesiwn gennych chi a chan Alun Michael, pan oeddech yn Weinidog dros ddatblygu economaidd. Gwyddom, erbyn hyn, faint o arian sydd wedi ei dynnu o'r bloc yn saith mlynedd cyntaf y rhaglen ar gyfer arian cyfatebol, sef £443 miliwn. Pe baem wedi cael yr arian hwnnw o Lundain, gallem fod wedi ei ddefnyddio ar gyfer addysg, trafnidiaeth ac iechyd. A ydych am wneud cais i sicrhau y cawn arian cyfatebol, yn ychwanegol at y bloc, o'r Trysorlys ar gyfer 2007 hyd at 2013?

Y Prif Weinidog: Mae diffyg dealltwriaeth ynglŷn â'r symiau a wariwyd o'n hadnoddau ni fel arian cyfatebol. Os yw'r arian yn ein cyllidebau yn barod, ni allwn ei gymryd allan a gofyn i'r Trysorlys, 'A wnewch chi yn awr wneud i fyny am yr arian yr ydym wedi ei dynnu allan o'n llinellau cyllidebol?' Ni allwch wneud hynny oherwydd byddai'r Undeb Ewropeaidd yn dweud bod hynny'n torri'r rheol ychwanegedd. Fel y gwnaeth Alun Michael ryw chwe blynedd yn ôl, rhaid i ni edrych drwy'r llinellau cyllidebol a dod o hyd i'r swm o arian ym mhob un sy'n addas i'w ddefnyddio fel arian cyfatebol. Wedyn, fel yr wyf wedi dweud o'r blaen, ac fel y dywedodd Alun Michael, os ydym yn brin iawn o arian cyfatebol, efallai y gallwn ddychwelyd at y cwestiwn hwn, ond yr ydym yn bell o gyrraedd y cam hwnnw.

Ieuan Wyn Jones: Dewch ymlaen, Brif Weinidog. Mae hwn yn gwestiwn eithaf syml. Yr ydych chi a fi yn gwybod bod £63 miliwn wedi gorfod cael ei dynnu o'r bloc flwyddyn ar ôl blwyddyn, sef arian y gallech fod wedi ei wario ar iechyd, addysg neu drafnidiaeth, ond yr oedd yn rhaid ei ddefnyddio fel arian cyfatebol am fod y Trysorlys wedi gwrthod eich cais chi a chais Alun Michael. Gwyddom yn iawn y byddai'r arian wedi cael ei ddefnyddio ar gyfer pethau eraill pe baem wedi cael yr arian cyfatebol gan y Trysorlys. Onid ydych yn derbyn bod £63 miliwn y flwyddyn—arian y gellid ei wario ar gyflogi nyrsys neu wella'r ffyrdd rhwng y de a'r gogledd—yn swm sylweddol y dylech wneud cais i'r Trysorlys amdano?

Ieuan Wyn Jones: I am surprised to hear you say that it is an obsession on the part of the opposition parties because it was also an obsession of Alun Michael's and of yours, when you were the Minister for economic development. We know, by know, how much money has been taken from the block in the first seven years of the programme for match funding, namely £443 million. Had we had that money from London, we could have used it for education, transport and health. Are you going to request match funding from the Treasury, in addition to the block funding, for 2007 to 2013?

The First Minister: There is a great lack of understanding about the money from our resources that has been spent as match funding. If the money is already in our budgets, we cannot take it out and ask the Treasury, 'Will you now make up for the money that we have taken out of our budget lines?' You cannot do that because the European Union would say that that was breaking the additionality rule. As Alun Michael did some six years ago, we must look through the budget lines and find a sum of money in each one that is suitable for use as match funding. Then, as I have said before, and as Alun Michael said, if we are still very short of match funding, perhaps we will return to this question, but we are a long way from reaching that point.

Ieuan Wyn Jones: Come on, First Minister. This is quite a simple question. You and I both know that £63 million has had to be taken from the block each year—money that could have been spent on health, education or transport, but which had to be used as match funding because the Treasury refused your request and that of Alun Michael. We know perfectly well that that money would have been used for other things had we received match funding from the Treasury. Do you not accept that £63 million a year—money that could be spent on employing nurses or improving north-south links—is a substantial sum that you should request from the Treasury?

Y Prif Weinidog: Nac ydwyf. Ni wnaeth Alun Michael gais am yr arian cyfatebol yr ydych yn cyfeirio ato. Gan nad ydych wedi clywed neu ddeall yr hyn a ddywedais am reol ychwanegedd yr Undeb Ewropeaidd, dywedaf eto pe baem yn tynnu arian o linellau cyllideb sydd wedi'u clustnodi at bwrpasau y gallech eu diffinio fel arian cyfatebol er mwyn ei wario ar gyflogi nyrsys ychwanegol ac ati, fe ddywedai'r Undeb Ewropeaidd ein bod wedi torri'r rheol ar ychwanegedd, a dywedai na fyddai'r arian yn dod i Gymru.

Ieuan Wyn Jones: Look, First Minister, you and I know perfectly well that because match funding was not made available in the first round, we had to spend on match funding instead of on health and education and transport. It is not me or the opposition parties saying that: that was in the briefing that Alun Michael had for his meeting with the Chief Secretary to the Treasury. If you do not believe me, First Minister, I will circulate a copy of that briefing to every Assembly Member, so that there is no misunderstanding on this matter. You know it to be the case, I know it to be the case, and the people of Wales will know that that is the case. This is not about mental gymnastics, but standing up for Wales. It is about making it clear that you, as First Minister, will ask the Treasury for the money. Rhodri, are you up for this?

The First Minister: I am afraid that all that you have done, again, is to reveal your ignorance of how the match-funding system works. No money was taken out of health expenditure, and there was no money that could have been diverted from match funding into health or education expenditure. What Alun Michael said—and I am in exactly the same position as he was—was that when we know what the programmes will be, and what we will spend the money on, and when we know the intervention rates, we will know what the match-funding requirement is. There are no general match-funding requirements—there are match-funding requirements for each of these programmes, and they are the responsibility of the sponsors. When Alun Michael got the administration, including the ASPBs, to go

The First Minister: No. Alun Michael did not make the request for match funding that you referred to. I will say again, since you either did not hear or understand what I said about the European Union's additionality rule, that were we to draw down money from budget lines that have been earmarked for purposes that you could define as match funding in order to spend it on employing extra nurses and so on, the European Union would say that we had broken the additionality rule, and it would tell us that the funding would not be coming to Wales.

Ieuan Wyn Jones: Edrychwch, Brif Weinidog, gwyddoch cystal â mi, oherwydd na ryddhawyd arian cyfatebol yn y rownd gyntaf, ein bod wedi gorfod gwario ar arian cyfatebol yn lle ar iechyd ac addysg a thrafnidiaeth. Nid myfi na'r gwrthbleidiau sy'n dweud hynny: yr oedd hynny yn y wybodaeth a roddwyd i Alun Michael ar gyfer ei gyfarfod â Phrif Ysgrifennydd y Trysorlys. Oni chredwch fi, Brif Weinidog, anfonaf gopi o'r briff hwnnw at bob Aelod Cynulliad, i sicrhau nad oes dim camddealltwriaeth ynglŷn â'r mater hwn. Gwyddoch mai felly yr oedd hi, gwn innau mai felly yr oedd hi, a gŵyr pobl Cymru mai felly yr oedd hi. Nid gymnasteg feddyliol yw hyn, ond sefyll o blaid Cymru. Mater ydyw o'i gwneud yn glir y byddwch chi, fel Prif Weinidog, yn gofyn i'r Trysorlys am yr arian. Rhodri, a ydych yn ddigon o ddyd i hyn?

Y Prif Weinidog: Mae arnaf ofn mai'r cyfan a wnaethoch, unwaith yn rhagor, yw dangos eich anwybodaeth ynglŷn â sut y mae system yr arian cyfatebol yn gweithio. Nid aethpwyd â dim arian o'r gwariant ar iechyd, ac nid oedd dim arian y gellid bod wedi ei ailgyfeirio o arian cyfatebol i wariant ar iechyd neu addysg. Yr hyn a ddywedodd Alun Michael—ac yr wyf yn yr un sefyllfa yn union ag a oedd ef—oedd pan wyddom beth fydd y rhaglenni, ac ar beth y gwariwn yr arian, a phan fyddwn yn gwybod beth fydd y cyfraddau ymyrryd, y byddwn yn gwybod faint o arian cyfatebol y bydd ei angen. Nid oes dim gofynion cyffredinol o ran arian cyfatebol—ceir gofynion arian cyfatebol ar gyfer pob un o'r rhaglenni hyn, a chyfrifoldeb y noddwyr yw'r rheini. Pan lwyddodd Alun Michael i gael gan y

through all their budgets, they found that the budgets and allocations for match funding were broadly sufficient to cope with the match funding that we have spent. You cannot take money out of those budgets and then say to the Treasury, 'Oh, we've taken the money out of the budgets; can you then put it in?', because the EU would then rule that that had infringed the additionality criterion, and the whole thing would collapse like a house of cards—like your argument.

The Leader of the Welsh Liberal Democrat Group (Michael German): I do not know, First Minister, whether this is mental gymnastics or mathematical gymnastics, because you will recall, as will every Assembly Member, that you set up two financial pots: one was called the local regeneration fund, and the other was called Pathways to Prosperity, both of which were designed for the National Assembly to put in the match funding where no match funding occurred in the natural environment in Wales. You just used the words 'broadly sufficient', but it was not broadly sufficient. Those two funds accounted for something like £60 million to £70 million of expenditure, which we had to take out of our block grant. What you have to do is to stand up to London and stand up for Wales. It is perfectly clear that you would not stand up to them about Iraq—you would not even tell us what your view is on Iraq. You do not seem to have views on non-devolved issues. This is a devolved issue: are you prepared to stand up for Wales? Will you simply say 'yes' or 'no' to this question? Will you ask the Treasury for the additional match funding needed to secure the full funding for the whole of Wales?

The First Minister: I referred earlier to opposition parties obsessing about match funding. Never have I seen such confirmation of everything that I have said.

We have some good news. We have structural funds renewed for another seven years: £1.3 billion. That is great, is it not? It is a golden scenario. Wonderful. We then do

weinyddiaeth, gan gynnwys y cyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad, fynd drwy eu holl gyllidebau, canfuont fod y cyllidebau a'r dyraniadau ar gyfer arian cyfatebol yn ddigon at ei gilydd i ymdopi â'r arian cyfatebol a wariwyd gennym. Ni allwch fynd â'r arian allan o'r cyllidebau hynny ac yna dweud wrth y Trysorlys, 'O, yr ydym wedi mynd â'r arian allan o'r cyllidebau; a allwch chi wedyn ei roi i mewn?', oherwydd byddai'r UE wedyn yn barnu bod hynny wedi torri'r maen prawf ychwanegedd, a byddai popeth wedyn yn dymchwel fel tŷ ar y tywod—yn union fel eich dadl chi.

Arweinydd Grŵp Democratiaid Rhyddfrydol Cymru (Michael German): Ni wn, Brif Weinidog, ai gymnasteg feddyliol yw hyn neu gymnasteg fathemategol, oherwydd fe gofiwch, fel y cofia pob Aelod Cynulliad, ichi greu dau bwrs ariannol: un a elwid yn gronfa adfywio lleol a'r llall a elwid yn Ffordd i Ffyniant, a chynlluniwyd y ddau er mwyn i'r Cynulliad Cenedlaethol ddarparu'r arian cyfatebol pan nad oedd arian cyfatebol i'w gael yn yr amgylchedd naturiol yng Nghymru. Defnyddiasoch y geiriau 'yn ddigon at ei gilydd' ond nid oedd yn ddigon at ei gilydd. Yr oedd cyfanswm y ddwy gronfa hynny tua £60 miliwn i £70 miliwn o wariant, a bu'n rhaid i ni ei dynnu allan o'n grant bloc. Yr hyn y mae'n rhaid i chi ei wneud yw herio Llundain, a sefyll o blaid Cymru. Mae'n gwbl amlwg nad oeddech yn fodlon eu herio ynghylch Irac—nid oeddech hyd yn oed yn fodlon dweud wrthym beth yw eich barn am Irac. Ymddengys nad oes gennych farn am faterion nas datganolwyd. Mae hwn yn fater a ddatganolwyd: a ydych yn fodlon sefyll o blaid Cymru? A ydych yn fodlon rhoi ateb syml 'ydwyf' neu 'nac ydwyf' i'r cwestiwn hwn? A ydych yn fodlon gofyn i'r Trysorlys am yr arian cyfatebol ychwanegol sydd ei angen i sicrhau'r cyllid llawn i Gymru gyfan?

Y Prif Weinidog: Cyfeiriais yn gynharach at yr obsesiwn sydd gan y gwrthbleidiau ynghylch arian cyfatebol. Ni welais erioed gymaint o gadarnhad ynghylch popeth a ddywedais.

Mae gennym rywffaint o newyddion da. Mae gennym gronfeydd strwythurol sydd wedi eu hadnewyddu am saith mlynedd arall: £1.3 biliwn. Onid yw hynny'n gampus? Mae'n

not have to worry about Barnett plus—so none of that has to come out of the block. Wonderful. So what are you trying to do? You are all trying to say, ‘Yes, here’s this good news. We don’t like good news in Wales, do we? Let’s have some bad news, or let’s have a big argument about match funding’. Come on; grow up. We have done extremely well. Just be thankful that we have done extremely well. I do not rule out coming back to the match-funding issue if we find that we have a problem, but you cannot do it now when you do not know what the programmes are, what the intervention rates are, and how much money is already in budget ready to use for match funding. If you try to do your mathematical gymnastics, as you say, and you take that money out, and then we can argue with the Treasury, Europe would then say, ‘You are infringing the additionality rule. You can’t have the money. You’re now breaking the rules of Objective 1’.

Michael German: I think that the straight answer that I was looking for was that you have Pathways to Prosperity, the local regeneration fund, and millions of pounds taken out of our block at the present time because we need that money because it is not available among the generality of the sponsors.

2.30 p.m.

You accept that point, and you seem to accept that, if you found that you had to, you would again tap into those pockets. If that is the case, be honest and tell us—we just want a simple and straight answer from you. What do you think of these matters and what challenges will you take to the London Government? Is it the challenge that you do not want to ask them, or is it that you will ask them when you have looked at the figures and have worked them out? Let us get that point clear from the start.

The First Minister: Opposition parties use

sefyllfa wych. Golyga nad oes rhaid i ni boeni am Barnett a mwy—felly nid oes rhaid i ddim o hynny ddod allan o’r bloc. Ardderchog. Felly beth yr ydych yn ceisio’i wneud? Mae pob un ohonoch yn ceisio dweud, ‘Iawn, dyma inni newyddion da. Nid ydym yn hoffi newyddion da yng Nghymru, a ydym ni? Gadewch inni gael newyddion drwg, neu gadewch inni gael ffræe danbaid ynghylch arian cyfatebol.’ Dewch yn eich blaenau: tyfwch i fyny. Yr ydym wedi gwneud yn arbennig o dda. Diolchwch ein bod wedi gwneud yn arbennig o dda. Nid wyf yn anwybyddu’r posibilrwydd y gallem ddychwelyd at fater yr arian cyfatebol os gwelwn fod gennym broblem, ond ni allwch wneud hynny yn awr heb wybod beth yw’r rhaglenni, beth yw’r cyfraddau ymyrryd a faint o arian sydd eisoes yn y gyllideb i’w ddefnyddio ar gyfer arian cyfatebol. Os ydych yn ceisio gwneud eich gymnasteg fathemategol, fel y dywedwch, ac yr ydych yn tynnu’r arian hwnnw allan, ac yna gallwn ddadlau gyda’r Trysorlys, byddai Ewrop wedyn yn dweud, ‘Yr ydych yn torri’r rheol ychwanegedd. Ni chewch yr arian. Yr ydych yn awr yn torri rheolau Amcan 1’.

Michael German: Credaf mai’r ateb syml yr oeddwn yn chwilio amdano oedd bod y Ffordd i Ffyniant gennych, y gronfa adfywio lleol, a miliynau o bunnoedd sydd wedi eu tynnu o’n bloc ar hyn o bryd oherwydd bod angen yr arian hwnnw arnom gan nad yw ar gael ymhlith noddwyr cyffredinol.

Yr ydych yn derbyn y pwynt hwnnw, ac ymddengys eich bod yn derbyn y byddech unwaith eto yn defnyddio’r pocedi hynny, pe baech yn gorfod gwneud hynny. Os felly, byddwch yn onest a dywedwch wrthym—dim ond ateb syml a gonest sydd arnom ei eisiau gennych. Beth yw eich barn am y materion hyn a pha heriau a gyflwynwch gerbron Llywodraeth Llundain? Ai’r her yw nad ydych am ofyn iddynt, ynteu ai y byddwch yn gofyn iddynt ar ôl i chi daro golwg ar y ffigurau a’u gweithio allan? Gadewch inni fod yn glir ynghylch y pwynt hwnnw o’r dechrau.

Y Prif Weinidog: Mae’r gwrthbleidiau yn

the megaphone and finish up with nothing; we use the telephone and finish up with £1.3 billion of additional funding, as well as the Barnett plus issue being dead and buried, as Alun Michael asked for six years ago. You should welcome that, otherwise you disqualify yourself from any further comment on this issue. If match funding becomes a difficulty after we have looked at the programmes and see how much money there already is in the budget to cover it, what the programme money will be spent on, and the intervention rates, which are quite different in each of those areas of expenditure, we may come back to this issue. Do not obsess with it when we have such good news to celebrate.

Michael German: It is not obsession. If the money that is short in the system is between £60 million and £71 million, that is a lot of teachers, nurses and hospitals. We took that money out of the budget during the first six-year period because we had to, otherwise we would not have spent the European money. We now have money guaranteed from Europe, so will you ask for that money should you find that you need it? We know very well that there is a pot of Assembly money if you would simply accept it, First Minister. You have said that you will accept it if you need it. We have needed it in the past. Knowing that we will need it in the future, will you ask Mr Gordon Brown for it this time?

The First Minister: You are selling a false prospectus to the people of Wales by saying that this money could be removed from our budget to be used to employ nurses—that would be a breach of the EU's additionality rules. That is quite plain. You never say 'never' in politics, so we will come back to this issue if we need to do so. Six years ago, Alun Michael asked every division of the Assembly's administration, Assembly sponsored public bodies, Training and Enterprise Councils, and so forth, how much money they had that could reasonably be identified as match funding. There was very little left over at the end that would have made a case to the Treasury worth making.

defnyddio'r megaffon a heb ennill dim yn y diwedd; yr ydym ni'n defnyddio'r ffôn ac yn ennill £1.3 biliwn o gyllid ychwanegol, yn ogystal â bod mater cyllid Barnett a mwy wedi dod i ben, fel y gofynnodd Alun Michael amdano chwe blynedd yn ôl. Dylech fod yn croesawu hynny, fel arall yr ydych yn peri nad oes gennych hawl i gynnig dim sylwadau pellach am y mater hwn. Os bydd arian cyfatebol yn broblem ar ôl inni edrych ar y rhaglenni a gweld faint o arian sydd eisoes yn y gyllideb ar ei gyfer, yr hyn y gwerir yr arian arno, a'r cyfraddau ymyrryd, sy'n wahanol iawn ym mhob un o'r meysydd gwariant, efallai y down yn ôl at y mater hwn. Peidiwch â gadael i hyn fod yn obsesiwn ichi a ninnau'n dathlu newyddion mor dda.

Michael German: Nid obsesiwn ydyw. Os yw'r arian sy'n brin yn y system rhwng £60 miliwn a £71 miliwn, mae hynny'n golygu llawer o athrawon, nyrsys ac ysbytai. Tynasom yr arian hwnnw o'r gyllideb yn ystod y chwe blynedd cyntaf oherwydd bod rhaid inni. Fel arall, ni fyddem wedi gwario'r arian o Ewrop. Bellach mae arian sydd wedi'i warantu gan Ewrop gennym, felly a wnewch ofyn am yr arian hwnnw pe byddech yn gweld bod ei angen arnoch? Yr ydym yn gwybod yn iawn fod cronfa o arian y Cynulliad ar gael pe byddech yn derbyn hynny, Brif Weinidog. Yr ydych wedi dweud y byddwch yn ei dderbyn os bydd ei angen arnoch. Mae wedi bod yn ofynnol inni ei gael yn y gorffennol. O wybod y bydd ei angen arnom yn y dyfodol, a wnewch ofyn i Mr Gordon Brown amdano'r tro hwn?

Y Prif Weinidog: Yr ydych yn cyfleu darlun ffug i bobl Cymru drwy ddweud y gellid symud yr arian hwn o'r gyllideb i'w ddefnyddio i gyflogi nyrsys—byddai hynny'n torri amodau rheolau ychwanegedd yr UE. Mae hynny'n eithaf clir. Peth annoeth mewn gwleidyddiaeth yw dweud 'byth', felly down yn ôl at y mater hwn os bydd angen inni wneud hynny. Chwe blynedd yn ôl, gofynnodd Alun Michael i bob is-adran yng ngweinyddiaeth y Cynulliad, y cyrff cyhoeddus a noddur gan y Cynulliad, Cynghorau Hyfforddiant a Menter, ac yn y blaen, faint o arian a oedd ganddynt y gellid dweud, yn rhesymol, ei fod yn arian cyfatebol. Ychydig iawn a oedd ar ôl ar y

So, no case was made, despite misleading articles and claims made by the obsessives on the other side of the Chamber.

It is very important to say that we will carry out the same exercise, and, if need be, we will go back to the Treasury, but there is no case for doing so at the moment. I would have thought that you would follow-up the comments of your Liberal Democrat colleague or rival—or whatever Kirsty is these days—and refer to the east Wales issue. That is the number one priority—getting everything ready for a flying start on 1 January, and sorting out the amount of money that we can get into east Wales.

diwedd a fyddai wedi peri ei bod yn werth cyflwyno achos i'r Trysorlys. Felly, ni chyflwynwyd achos, er gwaethaf erthyglau a honiadau camarweiniol a wnaethpwyd gan bobl ag obsesiwn ar yr ochr arall i'r Siambr.

Mae'n bwysig iawn dweud y byddwn yn cynnal yr un ymarferiad, ac, os bydd angen, awn yn ôl at y Trysorlys, ond nid oes rheswm dros wneud hynny ar hyn o bryd. Byddwn wedi disgwyl i chi ddilyn sylwadau eich cyd-Aelod neu wrthwynebydd yn y Democratiaid Rhyddfrydol—neu beth bynnag yw Kirsty y dyddiau hyn—a chyfeirio at y cwestiwn ynghylch dwyrain Cymru. Dyna yw'r flaenoriaeth bennaf—cael popeth yn barod ar gyfer cael dechrau da ar 1 Ionawr, a rhoi trefn ar faint o arian y gallwn ei gael i ddwyrain Cymru.

Amcan 1 Objective 1

C8 Alun Ffred Jones: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am dargedau'r Llywodraeth ar gyfer rhaglen Amcan 1? OAQ1225(FM)

Y Prif Weinidog: Mae adroddiad gwerthuso annibynnol diweddar wedi dangos bod rhaglen Amcan 1 ar y ffordd i gyflawni bron bob un o'i thargedau ariannol a'i thargedau o ran canlyniadau. Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn monitro'r gwaith o geisio cyrraedd targedau rhaglen Amcan 1 nes bydd y rhaglen yn dod i ben ddiwedd 2009.

Alun Ffred Jones: Os yw ffigurau'r Llywodraeth i'w credu, mae ffigurau GVA cymharol Gwynedd wedi cynyddu o tua 6 y cant ers 1999. Bu pwyllgor economaidd Cyngor Gwynedd yn arbennig o lwyddiannus yn denu cynlluniau Amcan 1, fel y dywedodd Huw Lewis yr wythnos diwethaf. Un rheswm am hynny yw bod cymaint o fentrau cymunedol yn yr ardal wedi llwyddo i ddenu arian. A ymunwch â mi i longyfarch pwyllgor economaidd Cyngor Gwynedd a'r mentrau hynny ar eu llwyddiant yn ystod y rhaglen?

Y Prif Weinidog: Gwnaf, a llongyfarchaf bawb arall. Mae hyn yn codi'r cwestiwn a ofynnwyd yn gynharach ynghylch y

Q8 Alun Ffred Jones: Will the First Minister make a statement on the Welsh Assembly Government's targets for the Objective 1 programme? OAQ1225(FM)

The First Minister: A recent independent evaluation report has shown that the Objective 1 programme is on track to achieve nearly all of its financial and output targets. The Welsh Assembly Government will monitor progress towards the Objective 1 programme's targets until the programme comes to an end in 2009.

Alun Ffred Jones: If the Government's figures are to be believed, Gwynedd's comparative GVA figures have gone up by approximately 6 per cent since 1999. Gwynedd Council's economic committee has been particularly successful in attracting Objective 1 schemes, as Huw Lewis said last week. One reason for that is that many community initiatives have succeeded in attracting funding. Will you join me in congratulating the economic committee of Gwynedd Council and those initiatives on their success during the programme?

The First Minister: I will, and I congratulate everyone else. This raises the same question that was asked earlier regarding the balance

cydbwysedd rhwng rhaglenni cymunedol a rhaglenni mawr strategol. Cyfeiriais at hynny wrth ateb cwestiwn Janet Davies yn gynharach. Y peth pwysig yw sicrhau cydbwysedd rhwng y pethau sy'n deillio o'r cymunedau eu hunain, a'r pethau y gellir eu gwneud yn strategol ar draws gorllewin Cymru a'r Cymoedd. Bydd yn rhaid setlo'r cydbwysedd hwnnw yn ystod yr 11 mis nesaf cyn dechrau'r ail raglen Amcan 1 yn y flwyddyn newydd.

Jeff Cuthbert: Despite all these calls for straight answers, at least we know that you do not support the right of the British National Party to peddle its propaganda.

Do you agree with me, as chair of the Objective 1 programme, that, once again, Labour has delivered for the people of Wales and that it has achieved well over £1.3 billion of new convergence funding? Do you agree that key targets for the next round of funding must include ensuring a balance between locally delivered projects through partnerships and strategic planning for such things as the skills agenda, ensuring that we invest in badly rundown Valleys town centres to ensure that we attract businesses and retain jobs?

The First Minister: To take the last issue first, which is important, as I said to the scrutiny committee in Colwyn Bay on Thursday, I was initially sceptical about developing town-centres out of Objective 1 money on the grounds that you should get economic growth first and then the town centres would follow. However, I have been convinced that there are occasions when you have to do that in reverse order because it can be depressing in Valleys towns, and in towns in other areas, when there are lots of boarded-up shops. Therefore, I agree that that is important. I still think, however, that we must try to ensure that we get the right balance between the Valleys and west Wales. If some areas have not done so well out of the first wave of Objective 1, we have to find out why that is. Is it because some areas seem to have shown more go, was it that they had greater access to the other funding that you need or was it the community leadership? We do not

between community programmes and major strategic programmes. I referred to that in my answer to Janet Davies earlier today. The important thing is to ensure that there is balance between the elements which emerge from the communities themselves and the things which can be done strategically across west Wales and the Valleys. That balance must be settled during the next 11 months before the commencement of the second Objective 1 programme in the new year.

Jeff Cuthbert: Er gwaethaf y galwadau hyn am atebion gonest, o leiaf fe wyddom nad ydych yn cefnogi hawl y British National Party i bedlera ei bropaganda.

A ydych yn cytuno â mi, a chithau'n Gadeirydd rhaglen Amcan 1, fod Llafur, unwaith eto, wedi cyflawni er lles pobl Cymru ac wedi llwyddo i gael ymhell dros £1.3 biliwn o arian y gronfa gydyfeirio newydd? A ydych yn cytuno bod rhaid i'r prif dargedau ar gyfer y cylch ariannu nesaf sicrhau cydbwysedd rhwng prosiectau a gyflawnir yn lleol drwy bartneriaethau a chynllunio strategol ar gyfer pethau megis yr agenda sgiliau, gan sicrhau ein bod yn buddsoddi yng nghanol trefi'r Cymoedd sydd wedi dirywio'n sylweddol er mwyn sicrhau ein bod yn denu busnesau ac yn cadw swyddi?

Y Prif Weinidog: A rhoi sylw i'r mater olaf yn gyntaf, sy'n bwysig, fel y dywedais wrth y pwyllgor craffu ym Mae Colwyn ddydd Iau, yr oeddwn yn amheus ar y dechrau ynghylch datblygu canol trefi gan ddefnyddio arian Amcan 1 ar y sail y dylech sicrhau twf economaidd yn gyntaf ac yna y byddai canol y trefi'n dilyn. Fodd bynnag, yr wyf wedi cael fy argyhoeddi bod rhaid gwneud hynny o chwith ar rai adegau oherwydd gall fod yn ddigalon yn nhrefi'r Cymoedd, ac mewn trefi mewn ardaloedd eraill, pan welir llawer o siopau wedi cau. Felly, cytunaf fod hyn yn bwysig. Yr wyf yn dal i feddwl, fodd bynnag, fod rhaid inni geisio sicrhau ein bod yn cael y cydbwysedd cywir rhwng y Cymoedd a gorllewin Cymru. Os nad yw rhai ardaloedd wedi elwa cymaint o'r don gyntaf o arian Amcan 1, rhaid inni ganfod pam. Ai am fod rhai ardaloedd, i bob golwg, wedi dangos mwy o dân yn eu boliau, ai am eu bod wedi gallu cael gwell mynediad at yr arian arall

know, but we have to find out in order to put that right in the second wave of Objective 1, which has been renamed the convergence fund since 1 January.

sydd ei angen arnoch neu ai'r arweiniad cymunedol ydoedd? Nid ydym yn gwybod, ond mae'n rhaid inni gael wybod er mwyn inni unioni hynny yn yr ail don o arian Amcan 1, a ailenwyd yn gronfa gyddyfeirio ers 1 Ionawr.

Trychinebau Rhyngwladol International Disasters

Q9 Carl Sargeant: Will the First Minister make a statement on how Wales can better respond to international disasters?
O AQ1212(FM)

C9 Carl Sargeant: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am sut y gall Cymru ymateb yn well i drychinebau rhyngwladol?
O AQ1212(FM)

The First Minister: In December, I launched a consultation on the draft Welsh international sustainable development framework. We are consulting on the role that we could play in responding to international disasters, including the promotion of volunteering, support for fundraising and helping to co-ordinate the Welsh response.

Y Prif Weinidog: Ym mis Rhagfyr, lansiais ymgynghoriad ar y fframwaith drafft ynghylch datblygu cynaliadwy rhyngwladol yng Nghymru. Yr ydym yn ymgynghori ynghylch y rôl y gallem ei chwarae wrth ymateb i drychinebau rhyngwladol, gan gynnwys hybu gwaith gwirfoddol, cynorthwyo'r gwaith o godi arian a helpu i gydlynu'r ymateb yng Nghymru.

Carl Sargeant: In times of disaster, many people come forward to help. These are volunteers with groups such as the British International Rescue Dogs, based in north Wales, and Wagtail UK Ltd, which trains dogs in Deeside. They have established processes and contacts but, for many others who want to help, there is no clear route for doing that. Will the Assembly Government consider, perhaps with the assistance of relevant non-governmental organisations, supporting training schemes on the realities of humanitarian relief work and providing the public sector with guidance relating to releasing professionals for disaster work in the future?

Carl Sargeant: Pan ddigwydd trychinebau, mae llawer o bobl yn cynnig eu cymorth. Mae'r rhain yn wirfoddolwyr gyda grwpiau megis Cŵn Achub Rhyngwladol Prydain, a leolir yng Ngogledd Cymru, a Wagtail UK Ltd, sy'n hyfforddi cŵn yng Nglannau Dyfrdwy. Mae ganddynt brosesau a chysylltiadau sydd wedi eu sefydlu ond, i lawer o bobl eraill sydd am helpu, nid oes llwybr clir ar gael ar gyfer gwneud hynny. A wnaiff Llywodraeth y Cynulliad, efallai gyda chymorth mudiadau anllywodraethol perthnasol, ystyried cefnogi cynlluniau hyfforddi ar realiti gwaith cymorth dyngarol a rhoi i'r sector cyhoeddus ganllawiau yn ymwneud â rhyddhau gweithwyr proffesiynol ar gyfer gwaith adeg trychinebau yn y dyfodol?

The First Minister: The sustainable development framework covers trying to get a Welsh effort to achieve the international millennium goals, which are mostly about sustainable development and fair trade, and also the response to disasters. That, in a way, is a response to the fact that there have been so many international disasters, such as the tsunami and the Kashmiri earthquake, during the last 12 months. Therefore, it is important that we cover both angles. Working with

Y Prif Weinidog: Yn y fframwaith datblygu cynaliadwy, ymdrinnir â cheisio sicrhau bod Cymru'n ymdrechu i gyflawni'r nodau mileniwm rhyngwladol, sy'n cynnwys datblygu cynaliadwy a masnach deg yn bennaf, a hefyd yr ymateb i drychinebau. Mae hynny, mewn ffordd, yn ymateb i'r ffaith bod cymaint o drychinebau rhyngwladol wedi digwydd, megis y tswnami a'r daeargryn yn Kashmir, yn ystod y 12 mis diwethaf. Felly, mae'n bwysig ein bod yn

NGOs is critical. I have met many groups of NGOs over the past few weeks, since we published the draft document in December, and they are anxious to work with us.

This is not a devolved function. We can put a devolved effort into it because it is good for the volunteers involved and it is good for career building. We can co-ordinate the effort for that reason. That is how we get around the fact that this is not a devolved issue. We also get a lot of encouragement from the Department for International Development, which has the prime responsibility in this area, and which says that there is plenty of room for everybody in this field. We have to ensure that we are covered legally for what we do.

I commend once again, as I have done on several occasions in the past, the brilliant efforts of BIRD in Llanfairfechan, which is one of the key front-line services that has to arrive in the first week following an earthquake and which did brilliantly well following the Kashmiri earthquake.

Leanne Wood: I will not ask you the obvious international disaster question; you had enough of a disaster with that one last week in Aberystwyth. Welsh members of the disasters emergency committee are currently discussing the setting up of a disasters emergency committee Cymru which, I understand, your Government has supported. What practical measures can you take to support those people in Wales and their families who are affected by international disasters and what can you do to ensure that skilled professional workers are freed-up to work in those countries where disasters take place?

The First Minister: I notice that you did not respond to the point that John Griffiths made earlier about your views on free speech and the British National Party. Perhaps you would like to tell him what your views are and whether you still hold the views that you expressed last week.

The Presiding Officer: Order. It is not for

ymdrin â'r ddwy agwedd. Mae gweithio gyda chyrrff anllywodraethol yn hanfodol. Yr wyf wedi cwrdd â sawl grŵp o gyrrff anllywodraethol yn ystod yr wythnosau diwethaf, ers inni gyhoeddi'r ddogfen ddrafft ym mis Rhagfyr, ac maent yn awyddus i weithio gyda ni.

Nid yw hyn yn swyddogaeth ddatganoledig. Gallwn sicrhau ymdrech ddatganoledig gan ei fod yn beth da i'r gwirfoddolwyr sy'n cymryd rhan ac mae'n beth da er mwyn datblygu gyrfa. Gallwn gydlynw'r ymdrech am y rheswm hwnnw. Dyna sut y gwnawn ddygymod â'r ffaith nad yw hyn yn fater datganoledig. Yr ydym hefyd yn cael llawer o anogaeth gan yr Adran dros Ddatblygu Rhyngwladol, sydd â'r prif gyfrifoldeb dros y maes hwn, ac sy'n dweud bod digon o le i bawb yn y maes hwn. Mae'n rhaid inni sicrhau ein bod yn ddiogel yn ôl y gyfraith o ran yr hyn a wnawn.

Cymeradwyaf unwaith eto, fel yr wyf wedi gwneud sawl tro yn y gorffennol, ymdrechion gwych BIRD yn Llanfairfechan, sy'n un o'r prif wasanaethau rheng flaen sy'n gorfod cyrraedd yn ystod yr wythnos gyntaf ar ôl daeargryn ac a wnaeth yn wych wedi'r daeargryn yn Kashmir.

Leanne Wood: Ni ofynnaf y cwestiwn amlwg ynghylch trychinebau rhyngwladol; fe gawsoch ddigon o drychineb gyda hwnnw yr wythnos diwethaf yn Aberystwyth. Mae aelodau Cymru ar y pwyllgor argyfwng wrthi'n trafod sefydlu pwyllgor argyfwng Cymru sydd, yn ôl yr hyn a ddeallaf, wedi derbyn cefnogaeth eich Llywodraeth. Pa fesurau ymarferol y gallwch eu cymryd i gefnogi'r bobl hynny yng Nghymru a'u teuluoedd yr effeithiwyd arnynt gan drychinebau rhyngwladol a beth y gallwch ei wneud i sicrhau bod gweithwyr proffesiynol sydd â sgiliau yn cael eu rhyddhau er mwyn iddynt weithio yn y gwledydd hynny lle y mae trychinebau'n digwydd?

Y Prif Weinidog: Sylwaf na wnaethoch ymateb i'r pwynt a wnaethpwyd gan John Griffiths yn gynharach am eich barn am ryddid i lefaru a'r British National Party. Efallai yr hoffech ddweud wrtho beth yw eich barn ac a ydych yn dal i fod o'r un farn ag a fynegwyd gennych yr wythnos diwethaf.

Y Llywydd: Trefn. Nid lle'r Prif Weinidog

the First Minister to ask questions of Members; it is for the First Minister to respond to Members' questions.

2.40 p.m.

The First Minister: Occasionally it is a case of what is sauce for the goose is sauce for the gander, Leanne, as I am sure that you would agree. The important thing is that we all agree that NGOs being better trained and more ready is part of what we can do, because that is good for the NGOs and the people involved. They become better citizens in Wales, and for them to become citizens with an international outlook on life is much better for Wales than the kind of ingrowing brain-cell policy that is adopted by some people connected with your party.

yw gofyn cwestiynau i Aelodau; lle'r Prif Weinidog yw ymateb i gwestiynau Aelodau.

Y Prif Weinidog: O bryd i'w gilydd, iawn i'r wŷydd, iawn i'r ceiliagwydd yw hi, Leanne, fel yr wyf yn sicr y byddech yn cytuno. Yr hyn sy'n bwysig yw ein bod i gyd yn cytuno bod cyrff anllywodraethol sydd wedi eu hyfforddi'n well ac yn fwy parod yn rhan o'r hyn y gallwn ni ei wneud, oherwydd bod hynny'n beth da i'r cyrff anllywodraethol a'r bobl sy'n gysylltiedig. Byddant yn dod yn ddinasyddion gwell yng Nghymru, ac mae'n llawer gwell i Gymru eu bod yn dod yn ddinasyddion sydd â golwg ryngwladol ar fywyd na'r math o bolisiau mewnbylg a fabwysiedir gan rai pobl sy'n gysylltiedig â'ch plaid.

Amddifadedd yn Sir Ddinbych Deprivation in Denbighshire

Q10 Ann Jones: Will the First Minister make a statement on measures to tackle deprivation in Denbighshire? OAQ1209(FM)

C10 Ann Jones: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am fesurau i fynd i'r afael ag amddifadedd yn sir Ddinbych? OAQ1209(FM)

The First Minister: Tackling deprivation in our most disadvantaged communities lies at the heart of the Assembly Government's agenda. Programmes such as Communities First, Objective 1, the local regeneration funds and others are being rolled out in Denbighshire, particularly in the Rhyl area.

Y Prif Weinidog: Mae mynd i'r afael ag amddifadedd yn ein cymunedau mwyaf difreintiedig wrth wraidd agenda Llywodraeth y Cynulliad. Mae rhaglenni megis Cymunedau yn Gyntaf, Amcan 1, y cronfeydd adfywio lleol ac eraill yn cael eu rhoi ar waith yn sir Ddinbych, yn enwedig yn ardal y Rhyl.

Ann Jones: On tackling deprivation, do you agree that we have to ensure that the base funding formulae are correct? Will you assure me that the Welsh Assembly Government will do everything that it can to ensure that the formulae that we use for funding respond to the needs of areas of deprivation? Do you also agree that we need to talk to the people in these areas about how they can best help themselves? One of the ways in which we should be doing this is to tell older people within our poorer communities that a massive amount of benefits go unclaimed every year. What progress have you made in putting forward our programme of rolling out benefit take-up

Ann Jones: Wrth fynd i'r afael ag amddifadedd, a ydych yn cytuno bod rhaid inni sicrhau bod y fformiwlâu cyllido sylfaenol yn gywir? A wnewch roi sicrwydd i mi y bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gwneud popeth o fewn ei gallu er mwyn sicrhau bod y fformiwlâu a ddefnyddiwn ar gyfer cyllido yn ymateb i anghenion yr ardaloedd sy'n dioddef amddifadedd? A ydych yn cytuno hefyd fod yn rhaid inni siarad gyda phobl yn yr ardaloedd hyn ynghylch y ffyrdd gorau iddynt eu helpu eu hunain? Un o'r ffyrdd y dylem wneud hyn yw dweud wrth bobl hŷn yn ein cymunedau tlotaf fod swm anferthol o fudd-daliadau heb ei hawlio bob blwyddyn. Pa gynnydd yr

by older people?

The First Minister: That is one of the programmes that was announced in the budget, for the tail end of this year and for next year. I will have to update you on the details of that. On the question of how we progress a policy in an area where there is a high degree of deprivation, as is the case in west Rhyl, the essence of it is that it is the people themselves who must come forward with the ideas. It is very much about saying, 'You lift yourselves up by your own bootstraps', but we can facilitate this through half a dozen different programmes. We also have to ensure that they know what those programmes are, otherwise they will miss out and we will end up with unclaimed funds available for programmes. We have to facilitate areas where a high concentration of less articulate and less-educated people live so that they can access the funds that are available, otherwise they just sit there. They can then define the direction that they wish to take in terms of solving their own deprivation problems.

Brynle Williams: In Denbighshire, as in north Wales as a whole, deprivation that affects voluntary carers is a particular concern. The complexity of the benefits system means that between 40 and 60 per cent of disability benefits go unclaimed, as Ann was saying. What plans does the Welsh Assembly Government have to improve the support offered to volunteer carers so that fewer in deprived areas miss out on the financial support to which they are entitled?

The First Minister: You will be aware of the programme that we have of having health-related benefits advisers sitting in general practitioner surgeries to ensure that those benefits are accessible. If a GP indicates that a patient should think about getting a certain type of invalidity benefit, there is an adviser in the surgery waiting room who can assist with that. We have been running that programme for some time now, even though the benefits concerned come

ydych wedi'i wneud er mwyn cyflwyno ein rhaglen i geisio annog pobl hŷn i hawlio budd-daliadau?

Y Prif Weinidog: Dyna un o'r rhaglenni a gyhoeddwyd yn y gyllideb, ar gyfer diwedd y flwyddyn hon ac ar gyfer y flwyddyn nesaf. Bydd yn rhaid imi anfon y manylion diweddaraf am hynny atoch. Ynghylch sut yr ydym yn mynd ati i ddatblygu polisi mewn ardal ble y gwelir lefel uchel o amddifadedd, fel sydd yng ngorllewin y Rhyl, yr hanfod yw mai'r bobl eu hunain a ddylai gyflwyno'r syniadau. Mae a wnelo lawer iawn â dweud 'Adferwch eich hunain drwy eich ymdrechion eich hunain', ond gallwn hwyluso hyn drwy gyfrwng hanner dwsin o wahanol raglenni. Mae'n rhaid inni sicrhau hefyd eu bod yn gwybod beth yw'r rhaglenni hynny. Fel arall byddant ar eu colled a bydd gennym arian heb ei hawlio yn y diwedd sydd ar gael ar gyfer rhaglenni. Mae'n rhaid inni helpu ardaloedd y mae llawer o bobl lai huawdl a llai hyddysg yn byw ynddynt er mwyn iddynt allu manteisio ar yr arian sydd ar gael, neu fel arall bydd yr arian yn segur. Gallant wedyn ddiffinio'r cyfeiriad yr hoffent fynd iddo o ran datrys eu problemau amddifadedd eu hunain.

Brynle Williams: Yn sir Ddinbych, fel yn y gogledd i gyd, mae amddifadedd sy'n effeithio ar ofalwyr gwirfoddol yn bryder penodol. Mae natur gymhleth y system fudd-daliadau'n golygu bod rhwng 40 a 60 y cant o fudd-daliadau anabledd heb ei hawlio, fel y dywedodd Ann. Pa gynlluniau sydd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i wella'r cymorth a gynigir i ofalwyr gwirfoddol er mwyn sicrhau bod llai mewn ardaloedd difreintiedig yn colli cyfle i fanteisio ar y cymorth ariannol y mae ganddynt hawl i'w gael?

Y Prif Weinidog: Byddwch yn ymwybodol o'r rhaglen sydd gennym ble y mae ymgynghorwyr budd-daliadau sy'n ymwneud ag iechyd yn eistedd ym meddygfeydd meddygon teulu er mwyn sicrhau bod y budd-daliadau hynny ar gael yn rhwydd i bawb. Os bydd meddyg teulu'n nodi y dylai claf feddwl am gael math arbennig o fudd-dal analluedd, ceir ymgynghorydd yn ystafell aros y feddygfa a all ei helpu i'r perwyl hwnnw. Yr ydym wedi bod yn rhedeg y

from the Department for Work and Pensions.

rhaglen honno ers peth amser bellach, er bod y budd-daliadau dan sylw yn dod o'r Adran Gwaith a Phensiynau.

You asked about volunteer carers and whether they, in all parts of Wales, have the ability to access all the different forms of assistance that are available. I am a carer, and I declare an interest. I wish to be certain that we are talking about the same thing. If you are talking about carers within families, there are ways in which to cover that with the assistance, usually, of the local social services and other agencies. If you are talking about people who volunteer to care for other people, I must ensure that we have all the issues covered, including the issue of criminal records checks and so on. Therefore, I will ensure that I, or another Minister, will write to you on that.

Holasoch ynghylch gofawrwr gwirfoddol ac a allant, ym mhob rhan o Gymru, gael gafael ar y gwahanol fathau o gymorth sydd ar gael. Yr wyf fi'n ofalwr, ac yr wyf yn datgan buddiant. Hoffwn fod yn sicr ein bod yn sôn am yr un peth. Os ydych yn siarad am ofalwr mewn teuluoedd, ceir ffyrdd o ymdrin â hynny gyda chymorth y gwasanaethau cymdeithasol lleol ac asiantaethau eraill, fel arfer. Os ydych yn sôn am bobl sy'n gwirfoddoli i ofalu am bobl eraill, mae'n rhaid imi sicrhau ein bod wedi ymdrin â phob mater, gan gynnwys mater archwiliadau cofnodion troseddol ac yn y blaen. Felly, byddaf yn sicrhau fy mod i, neu Weinidog arall, yn ysgrifennu atoch ynghylch hynny.

Pwysedd Ariannol Financial Pressures

C11 Rhodri Glyn Thomas: Pa drafodaethau diweddar y mae'r Prif Weinidog wedi eu cael gyda'r gwasanaeth iechyd gwladol parthed pwysedd ariannol? OAQ1222(FM)

Q11 Rhodri Glyn Thomas: What recent discussions has the First Minister had with the national health service regarding financial pressures? OAQ1222(FM)

Y Prif Weinidog: Cyfarfûm â Chyddfederasiwn y GIG ym mis Medi 2005 ac un o'r pynciau trafod oedd cyllid. Mae Brian Gibbons, fel y Gweinidog perthnasol, a'i swyddogion yn cwrdd yn rheolaidd â chadeiryddion a phrif weithredwyr ymddiriedolaethau'r GIG a'r byrddau iechyd lleol i drafod amryw faterion, gan gynnwys eu sefyllfa gyllidebol.

The First Minister: I met with the NHS Confederation in September 2005 and our discussions included financial matters. Brian Gibbons, as the relevant Minister, and his officials regularly meet chairs and chief executives of NHS trusts and local health boards to discuss issues, including their financial situation.

Rhodri Glyn Thomas: I have raised the issue of capital charges with you in the past. Do you now accept that the capital charge will be a major burden on the NHS in Wales and could well mean that it will be difficult for them to invest in capital improvements as they have to pay up to 10 or 12 per cent interest on those because of your capital charges policy? Will you review that, particularly in light of 'Designed for Life' and the intention to make a substantial capital investment in the NHS in Wales?

Rhodri Glyn Thomas: Yr wyf wedi codi mater taliadau cyfalaf gyda chi yn y gorffennol. A dderbyniwch yn awr y bydd y taliadau cyfalaf yn faich mawr ar y GIG yng Nghymru ac y gallent yn wir olygu y bydd yn anodd iddynt fuddsoddi mewn gwelliannau cyfalaf gan fod yn rhaid iddynt dalu hyd at 10 neu 12 y cant o log ar y rheini oherwydd eich polisi taliadau cyfalaf? A wnewch adolygu hynny, yn enwedig yng ngoleuni'r 'Cynllun Oes' a'r bwriad i wneud buddsoddiad cyfalaf sylweddol yn y GIG yng Nghymru?

The First Minister: I compliment you on your question, apart from one detail, which is

Y Prif Weinidog: Fe'ch cymeradwyaf ar eich cwestiwn, ac eithrio un manylyn, sef nad

that it is not our policy on capital charges. We have no ability to change that policy at the moment, as it is a Treasury policy. However, you raise an important issue, namely whether such charges provide a positive incentive to modernise the NHS estate or whether they can have a perverse incentive to slow down the process of modernising and the necessary investment that goes with that. For example, closing two hospitals and building one in their place can make a lot of sense, but it can be inhibited by the capital charges issue. We are taking that up with the Treasury because we are concerned about the possibility of there being perverse incentives in the system.

Jonathan Morgan: One of the financial pressures faced by local health boards often relates to the cost of drugs. The debate over the course of the past week regarding Herceptin has acutely demonstrated one of the issues relating to prescribing drugs, namely that they are becoming more expensive. Do you think that local health boards should be allowing drugs to be prescribed on the basis of cost or clinical need?

The First Minister: Undoubtedly it is clinical need and not cost. I was not aware that there was a relationship between cost and unhappiness or reluctance to prescribe Herceptin. I may be wrong, but I have not heard that directly from any local health board. I understand that the latest position in Wales is that two of the three geographical NHS areas in Wales, namely north and south-east Wales, have agreed that Herceptin, under certain restrictive circumstances, can be provided if the clinician, or the GP and the patient, given that it has not yet been approved for certain types of cancer, agree to that. Mid and west Wales have not yet agreed to do that, but they are looking at it. As far as I am aware, cost does not come into it; it is just a question of licensing and whether, if it were not licensed, we could be sufficiently satisfied about its safety to move ahead, even if the clinician said that it was worth the risk.

ein polisi ni yw'r taliadau cyfalaf. Ni allwn newid y polisi hwnnw ar hyn o bryd, gan mai polisi'r Trysorlys ydyw. Fodd bynnag, yr ydych yn codi cwestiwn pwysig, sef a yw taliadau o'r fath yn rhoi cymhelliad cadarnhaol i foderneiddio ystad y GIG ynteu a allant roi cymhelliad gwrthnysig i arafu proses moderneiddio a'r buddsoddi angenrheidiol sydd yn cyd-fynd â hynny. Er enghraifft, gall cau dau ysbyty ac adeiladu un yn eu lle wneud llawer o synnwyr, ond gall cwestiwn taliadau cyfalaf lesteirio hynny. Yr ydym yn codi'r mater hwn gyda'r Trysorlys oherwydd yr ydym yn bryderus ynghylch y posibilrwydd o gael cymhellion gwrthnysig yn y system.

Jonathan Morgan: Un o'r pwysau ariannol sydd yn wynebu byrddau iechyd lleol yw cost cyffuriau. Mae'r ddadl yn ystod yr wythnos diwethaf ynghylch Herceptin wedi dangos yn glir un o'r problemau cysylltiedig â rhagnodi cyffuriau, sef eu bod yn mynd yn ddrutach. A ydych yn credu y dylai byrddau iechyd lleol fod yn caniatáu rhagnodi cyffuriau ar sail cost ynteu ar sail angen clinigol?

Y Prif Weinidog: Yn ddi-os, yr angen clinigol ac nid y gost sydd yn cyfrif. Nid oeddwn yn ymwybodol bod perthynas rhwng cost ac anfodlonrwydd neu amharoddrwydd i ragnodi Herceptin. Efallai fy mod yn cyfeiliorni, ond nid wyf wedi clywed hynny'n uniongyrchol gan ddim un bwrdd iechyd lleol. Deallaf mai'r sefyllfa ddiweddaraf yng Nghymru yw bod dwy o dair ardal ddaearyddol y GIG yng Nghymru, sef y gogledd a'r de-ddwyrain, wedi cytuno y gellir darparu Herceptin, dan rai amgylchiadau caeth, os cytuna'r clinigwr, neu'r meddyg teulu a'r claf, gan gofio nad yw wedi'i gymeradwyo eto ar gyfer rhai mathau o ganser. Nid yw'r canolbarth a'r gorllewin wedi cytuno i wneud hynny eto, ond maent yn edrych ar y mater. Hyd y gwn i, nid oes a wnelo'r gost â'r peth; cwestiwn ydyw o drwyddedu ac a allem, pe na bai wedi'i drwyddedu, fod yn ddigon sicr ynghylch ei ddiogelwch i fwrw ymlaen, hyd yn oed pe dywedai'r clinigwr ei bod yn werth mentro.

Datganiad Busnes Business Statement

The Business Minister (Jane Hutt): I have several changes to report to this week's business. Today, the planned oral statement on British Sign Language has been deferred until later in the term. The motions relating to the Public Services Ombudsman for Wales legislation have been deferred until 14 February. The First Minister will, however, make an oral statement this afternoon on the pension issues relating to the merger of the ASPBs.

Y Trefnydd (Jane Hutt): Mae gennyf sawl newid i'w hadrodd i fusnes yr wythnos hon. Heddiw, gohiriwyd y datganiad llafar a fwriadwyd ar Iaith Arwyddion Brydeinig tan yn ddiweddarach yn y tymor. Mae'r cynigion sy'n ymwneud â'r ddeddfwriaeth ynghylch Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru wedi'u gohirio tan 14 Chwefror. Bydd y Prif Weinidog, serch hynny, yn gwneud datganiad llafar y prynhawn yma am y cwestiynau'n ymwneud â phensiwn sy'n gysylltiedig ag uno'r cyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad.

Tomorrow, the Minister for Social Justice and Regeneration will make a statement on police reform. As tomorrow's agenda was already full, and in order to accommodate this important statement, I have moved the debate on the use of bed-and-breakfast accommodation for homeless families to Tuesday, 7 March.

Yfory, bydd y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio yn gwneud datganiad am ddiwygio'r heddlu. Gan fod agenda yfory eisoes yn llawn, ac er mwyn gwneud lle i'r datganiad pwysig hwnnw, yr wyf wedi symud y ddadl am ddefnyddio llety gwely a brecwast i deuluoedd digartref i ddydd Mawrth, 7 Mawrth.

Business for the next three weeks is as set out in the draft business statement, which can be found on the Chamberweb under supporting documents.

Mae busnes y tair wythnos nesaf fel y mae wedi'i nodi yn y datganiad busnes drafft, a welir ar we'r Siambr dan ddogfennau ategol.

Following this morning's meeting of the Business Committee, it was determined that the following items of subordinate legislation need not be referred to a subject committee for extended consideration: the National Health Service (Personal Dental Services Agreements) (Wales) Regulations 2006; the National Health Service (General Dental Services Contracts) (Wales) Regulations 2006; the National Health Service (Dental Charges) (Wales) Regulations 2006; the Government of Further Education Corporations (Revocation) (Wales) Regulations 2006; the Official Feed and Food Controls (Wales) Regulations 2006; the Revenue Support Grant (Specified Bodies) (Wales) (Amendment) Regulations 2006; the Clean Neighbourhoods and Environment Act 2005 (Commencement No.1 and Savings) (Wales) Order 2006; and the Dairy Produce Quotas (Wales) (Amendment) Regulations 2006.

Yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor Busnes y bore yma, penderfynwyd nad oedd angen cyfeirio'r eitemau canlynol o is-ddeddfwriaeth at bwyllgor pwnc i'w hystyried ymhellach: Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cytundebau Gwasanaethau Deintyddol Personol) (Cymru) 2006; Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol) (Cymru) 2006; Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Taliadau Deintyddol) (Cymru) 2006; Rheoliadau Llywodraethu Corfforaethau Addysg Bellach (Dirymu) (Cymru) 2006; Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2006; Rheoliadau Grant Cynnal Refeniw (Cyrff Penodedig) (Cymru) (Diwygio) 2006; Gorchymyn Deddf Cymdogaethau ac Amgylchedd Glân 2005 (Cychwyn Rhif 1 ac Arbedion) 2006; a Rheoliadau Cwotâu Cynnyrch Llaeth (Cymru) (Diwygio) 2006.

Y Llywydd: A oes gwrthwynebiadau i'r datganiad busnes? Gwelaf nad oes. A oes sylwadau?

Alun Ffred Jones: Diolchaf i'r Trefnydd ac i'r Prif Weinidog am fod yn barod i wneud datganiad am sefyllfa pensiynau gweithwyr Awdurdod Datblygu Cymru sy'n trosglwyddo i'r gwasanaeth sifil. Mae'n amlwg bod y sefyllfa yn achosi cryn bryder, ac mae hwn yn gyfle i'r Prif Weinidog wneud datganiad clir a diamwys am y sefyllfa. Mae cryn ddryswch wedi codi yn dilyn geiriau'r Prif Weinidog ddydd Iau diwethaf yng nghyfarfod y Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog, ac yn dilyn datganiad y Llywodraeth ddoe. Yn wir, mae datganiad ddoe yn cymhlethu'r sefyllfa yn fwy byth. Gobeithio y bydd popeth yn gliriach ar ôl gwranddo ar eiriau'r Prif Weinidog y prynhawn yma.

2.50 p.m.

Lisa Francis: Thank you for the business statement, Minister. We are grateful for the oral statement on the situation with the WDA pensions and for your fitting in this important item this afternoon. We are also grateful that written statements will be issued next week on the situation at Wylfa power station and how the loss of 1,000 jobs might affect the north Wales economy, and on the number of suicides among children and young people in Wales as compared to England.

Peter Black: I welcome the Minister's agreeing to the statement on the WDA pensions. It is important that we have some clarification on the issue. I am disappointed, although I understand the time pressures, that the bed-and-breakfast accommodation debate has been moved to 7 March. The hope was that the debate tomorrow would inform the legislation and enable the Minister to take on board any issues arising from the debate in drafting the legislation. Members would have been able to put forward last minute amendments to that. It clearly makes sense to have the debate at the same time as the legislation is being drafted, but it would have been useful to have an early discussion. Therefore, although I understand the time

The Presiding Officer: Are there any objections to the business statement? I see that there are none. Are there any comments?

Alun Ffred Jones: I thank the Business Minister and the First Minister for being prepared to make a statement on the pension situation of the Welsh Development Agency staff transferring to the civil service. It is clear that this situation is causing significant concern, and this is an opportunity for the First Minister to make a clear and unambiguous statement about the situation. There has been some confusion following the First Minister's words at last Thursday's meeting of the Committee for the Scrutiny of the First Minister, and following the Government's statement yesterday. Indeed, yesterday's statement has further complicated the matter. I hope that we will be clearer in our minds after listening to the First Minister this afternoon.

Lisa Francis: Diolch am y datganiad busnes, Weinidog. Yr ydym yn ddiolchgar am y datganiad llafar am y sefyllfa gyda phensiynau Awdurdod Datblygu Cymru ac am i chi gynnwys yr eitem bwysig hon y prynhawn yma. Yr ydym yn ddiolchgar hefyd y cyhoeddir datganiadau ysgrifenedig yr wythnos nesaf am y sefyllfa yn atomfa'r Wylfa a sut y gall colli 1,000 o swyddi effeithio ar economi'r gogledd, ac am nifer yr hunanladdiadau ymhlith plant a phobl ifanc yng Nghymru o gymharu â Lloegr.

Peter Black: Croesawaf y ffaith bod y Gweinidog yn cytuno i gael y datganiad am bensiynau'r awdurdod datblygu. Mae'n bwysig inni gael rhywfaint o eglurhad ar y mater. Yr wyf yn siomedig, er fy mod yn deall bod pwysau o ran amser, fod y ddadl am lety gwely a brecwast wedi'i symud i 7 Mawrth. Y gobaith oedd y byddai'r ddadl yfory'n dylanwadu ar y ddeddfwriaeth ac yn galluogi'r Gweinidog i dderbyn unrhyw faterion a godai o'r ddadl wrth ddrafftio'r ddeddfwriaeth. Byddai Aelodau wedi gallu cynnig gwelliannau munud olaf i hynny. Yn amlwg mae'n gwneud synnwyr cynnal y ddadl ar yr un pryd ag y caiff y ddeddfwriaeth ei drafftio, ond byddai wedi bod yn fuddiol cael trafodaeth gynnar. Felly,

pressures that led to the decision, I am disappointed.

The Business Minister (Jane Hutt): I am pleased that the business statement has been supported on this auspicious day in the new Assembly building. To Alun Ffred, Lisa and Peter, the First Minister will be able to answer your points in his oral statement this afternoon.

Lisa, as we have said, the Minister for Economic Development and Transport will be issuing a written statement next week on the future of Wylfa power station.

Peter, I am a bit surprised by your disappointment. I would have thought that you would think it was a good idea to bring together the debate on bed-and-breakfast accommodation with the drafting of the legislation. It is clearly a key issue for homeless families and all those in Wales engaged in addressing this important matter, as the Minister for Social Justice and Regeneration is doing and will be doing alongside the regulations that will be debated on 7 March.

*Derbyniwyd y datganiad busnes.
Business statement adopted.*

Datganiad ar Adeilad Newydd y Cynulliad Statement on the New Assembly Building

Y Gweinidog Cyllid (Sue Essex): Gobeithiaf eich bod, fel fi, yn falch o fod yma heddiw.

I am proud and delighted to be here today, because today is the culmination of several years of hard work. There have been ups and downs along the road to its delivery; indeed there have been times when it might have been felt that today would never become a reality. However, we are here now, and I believe that this is a fitting home for the National Assembly. It will be seen as the home for Wales. There is no doubt that what has been delivered meets the aspiration for an iconic building of exceptional quality.

er fy mod yn deall y pwysau o ran amser a arweiniodd at y penderfyniad, yr wyf yn siomedig.

Y Trefnydd (Jane Hutt): Yr wyf yn falch bod y datganiad busnes wedi'i gefnogi ar y diwrnod pwysig hwn yn adeilad newydd y Cynulliad. Alun Ffred, Lisa a Peter, bydd y Prif Weinidog yn gallu ateb eich pwyntiau yn ei ddatganiad llafar y prynhawn yma.

Lisa, fel yr ydym wedi dweud, bydd y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth yn cyhoeddi datganiad ysgrifenedig yr wythnos nesaf am ddyfodol atomfa'r Wylfa.

Peter, yr wyf yn synnu braidd at eich siomedigaeth. Byddwn wedi tybio y byddech yn meddwl mai syniad da fyddai cyfuno'r ddadl ar lety gwely a brecwast â phroses ddrafftio'r ddeddfwriaeth. Yn amlwg mae'n bwnc allweddol i deuluoedd digartref ac i bawb yng Nghymru sydd wrthi'n mynd i'r afael â'r mater pwysig hwn, fel y mae'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio yn gwneud ac y bydd yn gwneud ochr yn ochr â'r rheoliadau a fydd yn destun dadl ar 7 Mawrth.

The Finance Minister (Sue Essex): I hope that, like me, you are happy to be here today.

Yr wyf yn falch ac wrth fy modd o fod yma heddiw, oherwydd y mae heddiw'n uchafbwynt blynyddoedd lawer o waith caled. Bu'r ffordd i'w wireddu yn hir a throellog; yn wir, bu adegau pan oedd rhywun yn teimlo efallai na wireddid y diwrnod hwn byth. Fodd bynnag, yr ydym yma bellach, a chredaf fod hwn yn gartref priodol i'r Cynulliad Cenedlaethol. Fe'i gwelir fel cartref Cymru. Nid oes dwywaith nad yw'r hyn sydd wedi'i gyflawni'n ateb y dyhead am adeilad eiconaidd o ansawdd eithriadol.

We are all aware of the constraints of the old Chamber and the facilities in the other Assembly building, not only as a working environment, but in terms of the facilities for members of public. Our new home provides an open and welcoming environment for the public to visit and to experience and observe the Assembly at work. I hope that members of the public are enjoying it today. At least two thirds of the building comprises public space, and, indeed, Lord Rogers has been heard to call it 'the living room of Wales'. I hope that the people of Wales will come to feel that they are at home here.

Not only is the building a triumph architecturally, it is a feat of design and engineering that is a showcase for the Assembly's commitment to sustainability. The design maximises the use of natural daylight, natural ventilation to cool the building, earth heat exchangers, waste timber to heat the building and rain water to flush the toilets. Nothing has been forgotten.

Over £14 million of the contract sum has been spent on Welsh materials and labour, including slate from north Wales and fixed furniture manufactured by a firm in Bridgend using Welsh-grown oak. I was absolutely delighted when the building was recently awarded a BREEAM rating of 'excellent', which is the highest rating possible for sustainable design.

The state-of-the-art ICT systems that we are using today are integral to the accessible and progressive design of the building, and put the Assembly at the cutting edge of the use of technology in parliamentary buildings. Siemens and its subcontractors, as part of the Merlin alliance, have worked closely with users to establish requirements and to deliver a solution to meet our needs. I also want to pay tribute to Taylor Woodrow, which has shown considerable commitment and energy in taking this challenging project through to a successful conclusion.

I believe that this building makes a real contribution to the regeneration of Cardiff. Nearly £5 million has been spent on external landscaping works and the completion of the

Yr ydym i gyd yn ymwybodol o gyfyngiadau'r hen Siambr a'r cyfleusterau yn adeilad arall y Cynulliad, nid yn unig fel amgylchedd gweithio, ond o ran y cyfleusterau i aelodau'r cyhoedd. Mae ein cartref newydd yn darparu amgylchedd agored a chroesawgar i'r cyhoedd ymweld a phrofi a gweld y Cynulliad wrth ei waith. Gobeithiaf fod aelodau'r cyhoedd yn mwynhau hyn heddiw. Gofod cyhoeddus yw o leiaf ddwy ran o dair o'r adeilad, ac, yn wir, clywyd yr Arglwydd Rogers yn ei alw'n 'ystafell fyw Cymru'. Gobeithiaf y daw pobl Cymru i deimlo'n gartrefol yma.

Mae'r adeilad nid yn unig yn orchestwaith pensaernïol, mae hefyd yn gampwaith o ran cynllunio a pheirianeg sydd yn arddangosiad o ymroddiad y Cynulliad i gynaliadwyedd. Mae'r cynllun yn gwneud y defnydd mwyaf posibl o olau dydd naturiol, awyru naturiol i oeri'r adeilad, cyfnewidwyr gwres daear, coed gwastraff i wresogi'r adeilad a dŵr glaw i olchi'r toiledau. Nid oes dim wedi'i anghofio.

Gwariwyd dros £14 miliwn o swm y contract ar ddefnyddiau a llafur Cymreig, gan gynnwys llechi o'r gogledd a dodrefn sefydlog wedi'i wneud gan gwmni ym Mhen-y-bont ar Ogwr gan ddefnyddio derw a dyfwyd yng Nghymru. Yr oeddwn ar ben fy nigon yn ddiweddar pan gafodd yr adeilad ddyfarniad 'rhagorol' gan BREEAM, sef y marc uchaf posibl am gynllunio cynaliadwy.

Mae'r systemau TGCh diweddaraf un yr ydym yn eu defnyddio heddiw yn ganolog i gynllun agored a blaengar yr adeilad, ac yn peri bod y Cynulliad ar y blaen o ran defnyddio technoleg mewn adeiladau seneddol. Mae Siemens a'i isgcontractwyr, fel rhan o gynghrair Merlin, wedi gweithio'n agos gyda defnyddwyr i gael gwybod beth yw'r gofynion ac i ddarparu ateb i'n hanghenion. Mae arnaf eisiau talu teyrnged hefyd i Taylor Woodrow, a ddangosodd gryn ymroddiad ac egni wrth fynd â'r maen i'r wal yn llwyddiannus o ran y prosiect heriol hwn.

Credaf fod yr adeilad hwn yn gwneud cyfraniad go iawn i adfywiad Caerdydd. Gwariwyd bron £5 miliwn ar waith tirlunio allanol a chwblhau'r promenâd i sicrhau bod

boardwalk to ensure that this building sits within a quality environment.

In terms of the total cost, I reported in November that the estimated outturn was £67 million. I am pleased to be able to report that the current estimated outturn is in line with that. It may end up just over or just under that figure; we will know in a few weeks' time. The total cost includes the capital costs of ICT to date, loose furniture, preliminary costs, professional fees, contingency and VAT, and, obviously, the construction.

It was a difficult and brave decision for my predecessor, Edwina Hart, to put this project on hold and to review the procurement route, but it was the right one, and we should remember that. The end result is a building which we can all be proud of, as well as a successful outcome that demonstrates that the public sector can deliver a high-profile project. The quality of this building has already been recognised internationally. It is a unique building that I hope will become a model not only in terms of design and construction, but in terms of the partnership approach that has been adopted, the spirit of co-operation in which everyone has worked, and the method of procurement. It is an exemplar building, and we should seek to share our lessons with others.

Finally, I would like to take this opportunity to thank all those who have played a part in delivering the building, including my colleagues on the policy steering group, including Elin Jones, yourself, Llywydd, and Mike German. Thank you for your unwavering support. I would like to extend my thanks to the new build team for its commitment and determination; the official project board, which has steered the project; to the Assembly Parliamentary Service for its contribution; to Taylor Woodrow and its construction and design team for making it possible; to Siemens and its subcontractors for delivering a state-of-the-art IT system; to the members of the access advisory group and the arts advisory group for their advice and guidance, which was important in delivering this building; to TPS and Northcroft, our project managers and cost

yr adeilad hwn mewn amgylchedd o safon.

O ran cyfanswm y gost, adroddais ym mis Tachwedd mai £67 miliwn oedd yr amcangyfrif o'r gost derfynol. Mae'n dda gennyf allu dweud bod yr amcangyfrif cyfredol o'r gost derfynol yn cyd-fynd â hynny. Gallai fod fymryn yn uwch neu fymryn yn is na'r ffigur hwnnw yn y diwedd; cawn wybod ymhen ychydig wythnosau. Mae cyfanswm y gost yn cynnwys costau cyfalaf TGCh hyd yma, dodrefn rhydd, costau rhagarweiniol, ffioedd proffesiynol, darpariaeth wrth gefn a TAW, ac, wrth reswm, y gwaith adeiladu.

Yr oedd yn benderfyniad anodd a dewr gan fy rhagflaenydd, Edwina Hart, atal y prosiect hwn dros dro ac adolygu'r llwybr caffael, ond hynny oedd y penderfyniad iawn, a dylem gofio hynny. Y canlyniad yn y diwedd yw adeilad y gallwn i gyd ymfalchïo ynddo, yn ogystal â chanlyniad llwyddiannus sydd yn dangos y gall y sector cyhoeddus gyflawni prosiect sy'n cael sylw mawr. Mae ansawdd yr adeilad hwn eisoes wedi'i gydnabod yn rhyngwladol. Mae'n adeilad unigryw a ddaw, gobeithio, yn esiampl nid yn unig o ran cynllun ac adeiladwaith, ond o ran y dull o weithio mewn partneriaeth a ddilynwyd, yr ysbryd o gydweithredu y gweithiodd pawb ynddo, a'r dull o gaffael. Mae'n esiampl o adeilad, a dylem geisio rhannu ein gwersi gydag eraill.

Yn olaf, hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i bawb sydd wedi chwarae rhan wrth sicrhau'r adeilad, gan gynnwys fy nghyd-Aelodau ar y grŵp llywio polisi, sy'n cynnwys Elin Jones, chi'ch hun, Lywydd, a Mike German. Diolch am eich cefnogaeth ddiwyro. Hoffwn estyn fy niolch i'r tîm adeiladu o'r newydd am ei ymroddiad a'i benderfyniad; i'r bwrdd prosiect swyddogol, a lywiodd y prosiect; i Wasanaeth Seneddol y Cynulliad am ei gyfraniad; i Taylor Woodrow a'i dîm adeiladu a chynllunio am wneud y peth yn bosibl; i Siemens a'i isgontractwyr am sefydlu system TG o'r radd flaenaf; i aelodau'r grŵp cynghori ar fynediad a'r grŵp cynghori ar y celfyddydau am eu cyngor a'u harweiniad, a oedd yn bwysig wrth gyflawni'r adeilad hwn; i TPS and Northcroft, ein rheolwyr prosiect a'n hymgynghorwyr costau, am helpu i'n cadw

consultants, for helping to keep us on track; and to everyone else who has played a part for their help and co-operation. This has been a team effort. However, I would like to mention one person in particular, namely Richard Wilson, who has done a superb job in delivering this. I thank him very much.

We now have a home befitting of a seat of Government that will become instantly recognisable around the world. I hope that it will engender high-quality debate and leadership from us, and that it will encourage and enthuse the public to be involved. When the Assembly voted for this building contract to go ahead—and I remember that debate well—I said that this was a difficult decision and that I believed that it was the right one. I believe that future generations will judge that we made the right decision. I believe that most people, having seen this special building, now believe that this was the right decision, and it will engender a genuine pride in Wales and confidence for the future. *[Applause.]*

The Presiding Officer: Thank you for your kind remarks, Minister.

Ieuan Wyn Jones: Hoffwn ddiolch i'r Gweinidog yn gynnes iawn am ei datganiad. Cytunaf yn llwyr â hi ein bod heddiw mewn adeilad y gallwn fod yn falch iawn ohono. Fel y dywedais yr wythnos diwethaf, nid dim ond Aelodau o'r Cynulliad a phobl Caerdydd fydd yn falch ohono, ond pobl drwy Gymru benbaladr. Yr wyf yn mawr obeithio y bydd pobl o bob rhan o Gymru yn cael y cyfle i ddod yma i rannu ein llawenydd o weld adeilad cwbl addas a phriodol ar gyfer y Cynulliad Cenedlaethol. Fel y bu ichi ddweud, Weinidog, mae hwn yn adeilad unigryw o ran ei bensaerniaeth ac sy'n dangos y math o wleidyddiaeth a democratiaeth agored yr ydym am ei weld yng Nghymru. Yr ydym oll yn ymlwybro tuag at y nod hwnnw, a gobeithiaf y bydd yr adeilad hwn yn rhoi hwb sylweddol i hynny.

3.00 p.m.

Yr wyf yn falch bod yr adeilad wedi ennill marciau uchel yn y maes amgylcheddol. Credaf fod hwnnw'n fater y gallwn fod yn

ar y llwybr iawn; ac i bawb arall a chwaraeodd ran am eu cymorth a'u cydweithrediad. Ymdrech tîm fu hyn. Fodd bynnag, hoffwn grybwyll un unigolyn yn arbennig, sef Richard Wilson, sydd wedi gwneud gwaith gwyach wrth sicrhau bod hyn yn digwydd. Diolch yn fawr iawn iddo ef.

Bellach mae gennym gartref teilwng o ganolfan i Lywodraeth a ddaw'n hawdd ei adnabod ar unwaith drwy'r byd i gyd. Gobeithiaf y gwnaiff ysbrydoli dadlau ac arweiniad o safon uchel gennym ni, ac annog ac ennyn brwdfrydedd y cyhoedd i gymryd rhan. Pan bleidleisiodd y Cynulliad o blaid bwrw ymlaen â'r contract adeiladu hwn—a chofiaf y ddadl honno'n dda—dywedais fod hyn yn benderfyniad anodd ac fy mod yn credu mai hwn oedd y penderfyniad cywir. Credaf y bydd cenedlaethau'r dyfodol yn barnu inni wneud y penderfyniad iawn. Credaf fod y rhan fwyaf o bobl, wedi iddynt weld yr adeilad arbennig hwn, yn credu erbyn hyn mai hwn oedd y penderfyniad cywir, ac y bydd yn ennyn gwir falchder yng Nghymru a hyder ar gyfer y dyfodol. *[Cymeradwyaeth.]*

Y Llywydd: Diolch am eich sylwadau caredig, Weinidog.

Ieuan Wyn Jones: I would like to thank the Minister very much for her statement. I agree with her entirely that we are now in a building that we can all be very proud of. As I said last week, it will not only be Assembly Members and the people of Cardiff who will feel that pride, but people throughout Wales. I very much hope that people from all parts of Wales will have an opportunity to visit this building to share with us our joy in seeing a fitting and appropriate building for the National Assembly. As you said, Minister, this is a unique building in terms of its architecture and it shows the type of open politics and democracy that we want to see in Wales. We are all working towards that end, and I hope that this building will give us a boost in achieving that.

I am proud that the building has achieved an excellent environmental rating. I think that that is something of which we can be proud.

falch ohono. Bydd pobl o rannau eraill o'r wlad a'r byd yn gweld ein bod wedi bod yn arloesol wrth symud ymlaen gyda'r adeilad hwn.

Yr wyf yn ymwybodol, Weinidog, eich bod wedi cyfeirio at gost yr adeilad, ond yn y cyd-destun, pan ystyriwch gost adeiladau'r Senedd yn Llundain a chost Senedd yr Alban, credaf ein bod wedi cael bargaen o ystyried y £67 miliwn a neilltuwyd yma, felly rhaid rhoi hynny yn ei gyd-destun. Yr ydym yn falch o gael bod yn yr adeilad hwn heddiw.

Cyfeiriasoch, Weinidog, yn berffaith iawn, at y deunyddiau sydd yn yr adeilad newydd hwn—llawer ohonynt o Gymru. Pan gerddais ar hyd y lloriau llechi, meddyliais am y cenedlaethau o'm teulu sydd wedi gweithio yn y diwydiant llechi er, yn anffodus, nad oes yr un ohonynt yn gallu bod gyda ni ar y ddaear hon i gydlawenhau. Gwn y gallaf ymfalchïo yn y traddodiad hwnnw yr wyf wedi dod ohono, oherwydd y mae gennym draddodiad cyfoethog yn ein hardaloedd llechi yng ngogledd-orllewin Cymru ac mae hwnnw'n cael ei adlewyrchu yn ein Senedd newydd.

This is an extremely impressive building of which we are all proud. It is an iconic building in which we look forward to holding our debates. We have already had our first First Minister's exchanges, and I am sure that they portend well for the future. It is now important that the people of Wales buy-in to this new building, that we make it as accessible as possible to them, and that they can feel proud of it. This building is a tremendous achievement for the people of Wales.

Sue Essex: I will not respond to all of your points, Ieuan, but I think that they were all warmly received. I will just pick up on a few issues. First, your comments encouraging people to visit the building wherever they are in Wales were so important, because, once people see the exterior and the interior of the building—even those people who were against it for their own reasons, and I understand that there have been concerns and I understand people's views—I believe that they will be converted. They can see that is

People from other parts of the country and the world will see that we have been innovative in taking this building project forward.

I am aware, Minister, that you referred to the cost of the building, but if you look at it in context, when you consider the cost of parliament buildings in London and the cost of the Scottish Parliament, I think that we have had quite a bargain considering the £67 million that was earmarked, so that must be placed in context. We are proud to be in this building today.

You quite correctly made reference, Minister, to the materials used in constructing this new building—many of them sourced from Wales. As I walked along the slate floors, I thought of the generations of my own family that had worked in the slate industry, none of whom, unfortunately, can now be with us on this earth to rejoice in the opening of this building. I know that I can be proud of the tradition into which I was born, because we have a rich heritage in our slate-producing areas in north-west Wales, and that is something that is reflected in our new Senedd building.

Mae hwn yn adeilad trawiadol iawn yr ydym oll yn ymfalchïo ynddo. Mae'n adeilad eiconig yr ydym yn edrych ymlaen at gynnal ein dadleuon ynddo. Yr ydym eisoes wedi cael croesi cleddyfau â'r Prif Weinidog am y tro cyntaf, ac yr wyf yn siŵr bod hynny'n argoeli'n dda ar gyfer y dyfodol. Mae'n bwysig yn awr i bobl Cymru arddel yr adeilad newydd hwn, inni beri iddo fod mor hygyrch ag y bo modd ar eu cyfer, ac iddynt allu ymfalchïo ynddo. Mae'r adeilad hwn yn gaffaeliad aruthrol i bobl Cymru.

Sue Essex: Nid ymatebaf i bob un o'r pwyntiau a wnaethoch, Ieuan, ond yr wyf yn credu bod pob un wedi ei dderbyn yn wresog. Ni wnaaf ond cyfeirio at rai materion. Yn gyntaf, yr oedd eich sylwadau ynghylch annog pobl o bob rhan o Gymru i ymweld â'r adeilad yn bwysig dros ben, oherwydd, wedi i bobl weld y tu allan a'r tu mewn i'r adeilad—hyd yn oed y rhai a oedd yn ei wrthwynebu am eu rhesymau eu hunain, ac yr wyf yn deall bod rhai pryderon ac yr wyf yn deall barn pobl—yr wyf yn credu y

special; it is what is called in architectural terms a 'landmark' building, and I think that that will change people's minds.

Secondly, your genuine point about the use of the slate was interesting, because it made that link with history. Although this is a modern building looking to the future, we can still make the connections with our history and geography by the use of those materials. That is why we were so keen to do that, and I hope that it is a showcase for the reigning, active parts of the slate industry.

To pick up on your last point that it is a public building, over the course of the development of this building, more emphasis has been placed on the public areas. It is one of the interesting features. People come in and are surprised by the amount of public access and open areas for them to use and enjoy. I sincerely hope that people will feel that this is a public building. It will be a place for many people to come to hold exhibitions and events, as we had in the milling area of the old building. There is a much bigger and better space here, and I hope that it will feel like home to them.

Nick Bourne: Today is a time to look forwards rather than look back. However, the Minister was generous enough to recognise that people had concerns about this building—she has just said so about the cost. I happen to think that, if it had not been for us, this building would probably have cost more than it has. [ASSEMBLY MEMBERS: 'Oh.']

Let us be clear. The people of Wales will not judge us on the quality of this building, but on whether the game is upped as a consequence of our being here. We look to the Welsh Assembly Government, and to us all, to raise our game, otherwise this will all have been in vain. As we all know, in the next Assembly elections, people will not vote on the quality of this building, but on the quality of the health service, education, and the transport system, and on jobs and rural

byddant yn ailfeddwl. Gallant weld ei fod yn arbennig; mae'n adeilad o bwys o ran ei bensaerniaeth, ac yr wyf yn credu y bydd hynny'n peri i bobl ailfeddwl.

Yn ail, yr oedd y pwynt diffuant a wnaethoch ynghylch defnyddio llechfaen yn ddiddorol, gan ei fod yn creu cysylltiad â hanes. Er mai adeilad modern yw hwn sydd yn edrych tua'r dyfodol, yr ydym yn gallu dangos y cysylltiadau â'n hanes a'n daearyddiaeth drwy ddefnyddio'r deunyddiau hynny. Dyna pam yr oeddem mor awyddus i wneud hynny, ac yr wyf yn gobeithio ei fod yn ffenestr siop ar gyfer y rhannau o'r diwydiant llechi sydd yn fyw ac yn ffynnu.

Gan gyfeirio at y pwynt olaf a wnaethoch i'r perwyl mai adeilad cyhoeddus ydyw, yn ystod y gwaith o ddatblygu'r adeilad hwn, rhoddwyd mwy o bwyslais ar y manau cyhoeddus. Dyna un o'r nodweddion diddorol. Mae pobl yn dod i mewn ac yn synnu bod cymaint o fynediad i'r cyhoedd ac o fannau agored sydd ar gael i'w defnyddio a'u mwynhau ganddynt. Yr wyf yn gwir obeithio y bydd pobl yn teimlo mai adeilad cyhoeddus yw hwn. Bydd yn rhywle i lawer o bobl gael dod i gynnal arddangosfeydd a digwyddiadau, fel y rhai a gaem yn y neuadd yn yr hen adeilad. Mae lle mwy a gwell o lawer yn y fan hon, ac yr wyf yn gobeithio y byddant yn teimlo'n gartrefol yma.

Nick Bourne: Mae heddiw'n adeg i edrych ymlaen yn hytrach nag edrych yn ôl. Er hynny, bu'r Gweinidog yn ddigon hael i gydnabod bod pryderon gan bobl ynghylch yr adeilad hwn—mae newydd ddweud hynny ynghylch y gost. Yr wyf yn digwydd meddwl y byddai'r adeilad hwn wedi costio mwy nag a wnaeth, yn ôl pob tebyg, oni bai amdanom ni. [AELODAU'R CYNULLIAD: 'O.']

Gadewch inni ddeall hyn. Ni fydd pobl Cymru'n ein barnu yn ôl ansawdd yr adeilad hwn, ond yn hytrach ar sail a geir unrhyw welliant o ganlyniad i'r ffaith ein bod yma. Disgwyliwn i Lywodraeth Cynulliad Cymru, ac i bawb ohonom, wella ein perfformiad neu, fel arall, bydd hyn oll wedi bod yn ofer. Fel yr ydym oll yn gwybod, yn etholiadau nesaf y Cynulliad, nid yn ôl ansawdd yr adeilad hwn y bydd pobl yn pleidleisio, ond yn ôl ansawdd y gwasanaeth iechyd, addysg,

affairs. These are the issues on which people decide how to vote.

To be positive, we must look forwards. This is a fine building—there is no doubt of that—and I am proud of the Welsh materials that are part of this building. However, I sound a word of caution about public access. The Minister rightly said that there are many public areas here, but it is still possible for Assembly Members to come into the Siambr without walking through the Cwrt, which was not the case with the Chamber in the old building; we had to walk through the Neuadd to get to it. I hope that we are conscious of that, because it takes us away from the public somewhat, and I hope that that can be addressed.

On behalf of my group, I thank all those who have made the transition here so much easier, including those who have helped us with the information technology, and who have helped us into the new building. It has been a pretty seamless transition so far, although perhaps someone needs to get a can of oil to one of the cameras behind us. When it moves, it sounds rather like someone gargling with Listerine. However, if that is the only thing that goes wrong, then let us say ‘thank you’ for that.

Today is a day on which we should look forward, not back. However, it is important that we deliver on the issues, as I am sure the Minister would agree. It is not this building that is most important to the people of Wales; it is the issues that I have just outlined.

Sue Essex: The Tories would be well advised not to look back, as they have a pretty gloomy past. However, I take your comments in the spirit in which they were made, Nick.

On the cost, I remind everyone that this is a unique, individual building. This is not an off-the-peg job. Top architects have designed it, and top materials have been used, so it is an individual project, which, inevitably, costs more. As Ieuan said, we withstand

a’r system drafndiaeth, ac ar sail swyddi a materion gwledig. Ar sail y materion hynny y mae pobl yn pleidleisio.

Er mwyn bod yn gadarnhaol, rhaid inni edrych ymlaen. Mae hwn yn adeilad gwych—nid oes dim amheuaeth am hynny—ac yr wyf yn falch o weld y deunyddiau o Gymru sydd yn rhan o’r adeilad hwn. Er hynny, mae gennyf air o rybudd ynghylch mynediad i’r cyhoedd. Yr oedd y Gweinidog yn iawn wrth ddweud bod llawer o fannau cyhoeddus yma, ond mae’n bosibl, er hynny, i Aelodau’r Cynulliad ddod i mewn i’r Siambr heb gerdded drwy’r Cwrt, ac nid felly yr oedd o ran y Siambr yn yr hen adeilad; yr oedd yn rhaid inni gerdded drwy’r Neuadd i’w chyrraedd. Yr wyf yn gobeithio ein bod yn ymwybodol o hynny, gan ei fod yn ein tynnu oddi wrth y cyhoedd i ryw raddau, ac yr wyf yn gobeithio y gellir rhoi sylw i hynny.

Ar ran fy ngrŵp, yr wyf yn diolch i bawb a hwylusodd y symud i’r fan hon i’r fath raddau, gan gynnwys y rhai a’n helpodd gyda’r dechnoleg gwybodaeth, a’r rhai a’n helpodd i symud i’r adeilad newydd. Bu’n newid eithaf llyfn hyd yma, er bod angen efallai i rywun roi rhywfaint o olew ar un o’r camerâu sydd y tu cefn inni. Pan yw’n symud, mae’n swnio braidd yn debyg i rywun yn golchi ei geg â Listerine. Fodd bynnag, os mai hynny yw’r unig beth a aiff o’i le, gadewch inni ddweud ‘diolch’ am hynny.

Mae heddiw’n ddiwrnod pan ddylem edrych ymlaen, ac nid yn ôl. Fodd bynnag, mae’n bwysig inni fynd â’r maen i’r wal wrth drafod y pethau pwysig, fel y cytunai’r Gweinidog, yr wyf yn siŵr. Nid yr adeilad hwn yw’r peth pwysicaf i bobl Cymru ond, yn hytrach, y materion yr wyf newydd eu disgrifio.

Sue Essex: Byddai’n ddoeth i’r Torïaid beidio ag edrych yn ôl, gan fod eu gorffennol yn eithaf digalon. Fodd bynnag, derbyniaf eich sylwadau fel y’u bwriadwyd, Nick.

Ynghylch y gost, yr wyf yn atgoffa pawb fod hwn yn adeilad unigryw. Nid gwaith a wnaed ar sail cynllun parod ydyw. Mae penseiri o’r radd flaenaf wedi ei gynllunio, ac mae’r deunyddiau gorau wedi eu defnyddio, felly mae’n brosiect arbennig, sydd yn sicr o

comparisons with other government buildings. The building's construction costs—the contract with Taylor Woodrow—came in on line, and I pay tribute to my colleagues on that project steering group for that. We considered and scrutinised every single variation that came forth with great care. Things did not slip through the net here. We have spent a long time over the past few years, as Edwina did before that, looking at that and trying to keep the costs down, bearing in mind that we were using public money.

I would not argue that a building is a substitute for delivering on the ground, and I am glad to say that we are delivering on the ground. However, people sometimes need symbols and icons to identify with. That is a human condition and a reaction to life. I think that people can identify with this building and can be proud of it. That includes those who just come and sit on the steps and look out across the water, as well as those who come in through the doors and listen to us.

On public access, you will know that I have said many times—and I say it again—that it is our duty as Members not to stay just within our area, and not to stay enclosed. Many people are here today for the first time, and we need to show them, and those who are watching on television, that this is a public building, and that we feel that we should be part of the public area with them. Therefore, I encourage all my colleagues to interact with the public, which is very important. This building is open and accessible, and I look forward to many organisations, particularly charities and others, using this space, so that we may join them in their events and promotions.

3.10 p.m.

Michael German: I am proud to be in this new Chamber today. I was involved in the steering group from the beginning—right from the first day, as you were, Llywydd—and so know the trials and tribulations that

gostio mwy. Fel y dywedodd Ieuan, gellir ei gymharu ag adeiladau llywodraeth eraill. Bu costau adeiladu'r adeilad—y contract gyda Taylor Woodrow—yn unol â'r gyllideb, ac yr wyf yn talu teyrnged i'm cyd-Aelodau ar y grŵp llywio prosiect hwnnw am hynny. Bu inni ystyried a chraffu ar bob un amrywiad a ddaeth ger ein bron yn ofalus iawn. Ni lithrodd dim drwy'r rhwyd yn hynny o beth. Treuliasom lawer o amser dros y blynyddoedd diwethaf, fel y gwnaeth Edwina cyn hynny, yn ystyried hynny ac yn ceisio cadw'r costau'n isel, gan gofio ein bod yn defnyddio arian cyhoeddus.

Ni fyddwn yn dadlau bod adeilad yn rhywbeth a wnaiff y tro yn lle cyflawni gwelliannau ar lawr gwlad, ac yr wyf yn falch o ddweud ein bod yn gwneud hynny. Fodd bynnag, weithiau mae ar bobl angen symbolau ac eiconau i uniaethu â hwy. Mae hynny'n rhan o'r natur ddynol ac yn fodd i ymateb i fywyd. Yr wyf yn credu y gall pobl uniaethu â'r adeilad hwn ac ymfalchio ynddo. Mae hynny'n cynnwys y rhai nad ydynt ond yn dod i eistedd ar y grisiau ac edrych draw dros y dŵr, yn ogystal â'r rhai sydd yn dod drwy'r drysau ac yn gwrandao arnom.

Ynghylch mynediad i'r cyhoedd, gwyddoch fy mod wedi dweud lawer gwaith—a dywedaf hyn eto—ei bod yn ddyletswydd arnom fel Aelodau beidio ag aros yn ein lle ein hunain yn unig, a pheidio ag aros o'r neilltu. Mae llawer o bobl wedi dod yma heddiw am y tro cyntaf, a rhaid inni ddangos iddynt hwy, ac i'r rhai sydd yn gwyllo ar y teledu, fod hwn yn adeilad cyhoeddus, a'n bod yn teimlo y dylem fod yn rhan o'r lle cyhoeddus gyda hwy. Felly, yr wyf yn annog fy holl gyd-Aelodau i ymwneud â'r cyhoedd, gan fod hynny'n bwysig iawn. Mae'r adeilad hwn yn un agored a hygyrch, ac yr wyf yn edrych ymlaen at weld llawer o gyrff, yn enwedig elusennau ac eraill, yn defnyddio'r lle hwn, fel y gallwn ymuno â hwy yn eu digwyddiadau a'u hyrwyddiadau.

Michael German: Yr wyf yn falch o fod yn y Siambr newydd hon heddiw. Bûm yn ymwneud â'r grŵp llywio o'r dechrau—o'r diwrnod cyntaf un, fel y buoch chithau, Lywydd—ac felly yr wyf yn gwybod am yr

we have been through to get to this magnificent building today. I also place on record my thanks to Edwina Hart and Sue Essex, both of whom have shown great valour in taking this project through to its conclusion. As I reminded the Assembly back at the beginning, no-one likes a building before it is built or when it is in the process of being built, but, suddenly, once it is built and people see it, everyone is in awe of it and likes it. Exactly the same was true of the Scottish Parliament. People were full of scepticism at the beginning and, despite our views on its cost, it is now the case that people go to see that building, in the same way as I saw people pouring in here today.

This building takes its place in Wales's history today. It is not true that it is just a building; it is a point of which the people of Wales can be proud, and a place for them to see as their point of deliberation. It is a place for them to see the heart of their country, and what makes it tick. I hope that it is not just the building, but what goes on within it, that will inspire people in the years and generations to come. This is not a building that has been designed for 10, 20, 30, or 40 years; it has been designed for centuries. It has been designed so that those who follow us feel that the right decision was taken.

For those who were worried about the cost, as I said right at the beginning when people were gloomy about it, and when all that stood here was a sign that read 'site of the National Assembly for Wales'—that big poster sign that stood on that empty piece of ground—the cost will repay itself. It will repay itself, because this is a building of which the people of Wales can be proud, as can our visitors. In their coming here, those people from outside Wales will invest their time, money and effort in our country and that will be by more than simply coming to this building. There is an economic benefit as well as a benefit in terms of tourism to us, and we can be proud of a new building that lets the daylight in—I do not know many Chambers around the world that do that. We need not be worried about being proud of this building for the people of Wales and our visitors. It is a great

holl dreialon a thrafferthion yr ydym wedi eu profi er mwyn cael yr adeilad gwych hwn heddiw. Yr wyf hefyd yn datgan fy niolchiadau i Edwina Hart ac i Sue Essex, sydd ill dwy wedi amlygu dewrder mawr wrth sicrhau bod y prosiect hwn yn cael ei gwblhau. Fel y gwneuthum atgoffa'r Cynulliad ar y dechrau, nid oes neb yn hoffi adeilad cyn ei godi neu wrth ei godi, ond, yn sydyn, ar ôl ei godi ac wedi i bobl ei weld, mae pawb yn rhyfeddu ato ac yn ei hoffi. Felly'n union y bu yn achos Senedd yr Alban. Yr oedd pobl yn llawn amheuan ar y dechrau ac, er gwaethaf ein barn am ei gost, mae pobl yn edrych ar yr adeilad hwnnw'n awr yn yr un modd â'r rhai a welais yn tyrru i mewn i'r fan hon heddiw.

Mae'r adeilad hwn yn cymryd ei le yn hanes Cymru heddiw. Nid yw'n wir mai adeilad yn unig ydyw; mae'n lle y gall pobl Cymru ymfalchïo ynddo, ac yn lle y gallant ei ystyried yn fan trafod iddynt hwy. Mae'n fan lle y cânt weld calon eu gwlad, a'r hyn sydd yn peri iddi guro. Yr wyf yn gobeithio nad yr adeilad yn unig, ond yr hyn a aiff ymlaen oddi mewn iddo, a fydd yn ysbrydoli pobl yn y blynyddoedd a'r cenedlaethau sydd i ddod. Nid adeilad a gynlluniwyd ar gyfer 10, 20, 30, neu 40 mlynedd yw hwn; fe'i cynlluniwyd ar gyfer canrifoedd. Fe'i cynlluniwyd fel y bydd y rhai a fydd yn ein dilyn yn teimlo bod y penderfyniad wedi bod yn un cywir.

Dywedaf wrth y rhai a oedd yn poeni am y gost, fel y dywedais ar y dechrau un pan oedd rhai'n ddigalon ynghylch hynny, a'r cwbl a oedd yma oedd arwydd ac arno'r geiriau 'safle Cynulliad Cenedlaethol Cymru'—yr arwydd mawr ar ffurf poster a oedd ar y darn tir gwag hwnnw—bydd y gost yn ei had-dalu ei hun. Bydd yn ei had-dalu ei hun, gan fod hwn yn adeilad y gall pobl Cymru ymfalchïo ynddo, fel y gall ein hymwelwyr. Wrth ddod yma, bydd y rhai o'r tu allan i Gymru'n buddsoddi eu hamser, eu harian a'u hymdrechion yn ein gwlad a hynny drwy wneud mwy na dim ond dod i'r adeilad hwn. Cawn fudd economaidd yn ogystal â budd o ran twristiaeth, a gallwn ymfalchïo mewn adeilad newydd sydd yn gadael i olau dydd ddod i mewn—nid wyf yn gwybod am lawer o Siambrau o gwmpas y byd sydd yn gwneud hynny. Nid oes rhaid inni boeni ynghylch bod

tribute to the Assembly and to all those who have helped to put it in place.

I join the Minister in thanking Richard Wilson, the project manager. Richard has been the pivot upon which all this has worked. He has ensured that this project was delivered to us, as it has been today. I know the rumour that if you thank a civil servant, eventually, something impossible will happen to them; I hope that is not the case today because, in recognising a civil servant, we are also recognising the team of people working with him. I place on record my thanks to him and his team, who have helped the Minister and this project through to today's delivery. It is a building of which we can all be proud. It is the seat of our new democracy, and I hope that people, for generations to come, will thank us for taking that brave decision back in 1999.

Sue Essex: I thank Mike for keeping the faith over the years. As I said earlier, your support has been very important. There are times when politicians have to show leadership and make, as I described it at the time, a very difficult decision. It was certainly that, but it was also the right decision, because there is a duty upon us to look forward and to provide for future generations. You will recall that, when I was making that speech, I remembered previous generations of politicians, certainly in places such as Cardiff, having to make very difficult decisions on what would have been enormously expensive public projects at the time. However, the value of those decisions has been enjoyed and appreciated by so many people in subsequent years, and this building felt very much like that to me. It was a difficult decision to make, but the right one, because we all have a duty to make that contribution to future generations.

I also agree that many buildings are not just about constructing the buildings themselves; they are about more than that, namely the life

yn falch o'r adeilad hwn er mwyn pobl Cymru a'n hymwelwyr. Mae'n deyrnged fawr i'r Cynulliad ac i bawb a helpodd i'w sicrhau.

Ymunaf â'r Gweinidog wrth ddiolch i Richard Wilson, rheolwr y prosiect. Ar Richard y bu'r cwbl yn dibynnu. Mae wedi sicrhau bod y prosiect hwn yn cael ei drosglwyddo i ni, fel y gwnaed heddiw. Yr wyf yn gwybod am y goel y bydd rhywbeth amhosibl yn digwydd i was sifil, yn y pen draw, os diolchwch iddo; yr wyf yn gobeithio nad felly y bydd heddiw oherwydd, wrth ddiolch i was sifil, yr ydym hefyd yn diolch i'r tîm o bobl sydd yn gweithio gydag ef. Yr wyf yn datgan fy niolchiadau iddo ef a'i dîm, sydd wedi helpu'r Gweinidog ac wedi hyrwyddo'r prosiect hwn hyd at ei drosglwyddo heddiw. Mae'n adeilad y gallwn oll ymfalchïo ynddo. Ef yw cartref ein democratiaeth newydd, ac yr wyf yn gobeithio y bydd pobl, am genedlaethau i ddod, yn diolch i ni am wneud y penderfyniad eofn hwnnw yn 1999.

Sue Essex: Yr wyf yn diolch i Mike am ddal yn ffyddlon dros y blynyddoedd. Fel y dywedais yn gynharach, mae eich cefnogaeth wedi bod yn bwysig iawn. Ceir adegau pan fo'n rhaid i wleidyddion ddangos arweiniad a gwneud penderfyniad anodd, fel y'i disgrifiais ar y pryd. Yr oedd yn sicr yn un anodd, ond yr oedd hefyd yn un cywir, gan fod dyletswydd arnom edrych ymlaen a darparu ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Byddwch yn cofio fy mod, wrth wneud yr araith honno, wedi dwyn i gof wleidyddion y cenedlaethau o'r blaen, yn sicr mewn lleoedd fel Caerdydd, a oedd wedi gorfod gwneud penderfyniadau anodd ynghylch prosiectau cyhoeddus a fuasai'n ddrud dros ben ar y pryd. Fodd bynnag, mae gwerth y penderfyniadau hynny wedi ei fwynhau a'i werthfawrogi gan lawer iawn o bobl yn y blynyddoedd wedi hynny, ac yr oeddwn yn gweld yr adeilad hwn yn debyg iawn i hynny. Yr oedd yn benderfyniad anodd, ond hwnnw oedd yr un cywir, am fod dyletswydd arnom i gyd gyfrannu yn y modd hwnnw i genedlaethau'r dyfodol.

Yr wyf hefyd yn cytuno, o ran llawer o adeiladau, nad mater o'u hadeiladu'n unig ydyw; maent yn ymwneud â mwy na hynny,

that goes on within them. I suppose that we would all feel like that about our own homes. They are not just bricks and mortar; they are the places where life happens, and I believe that that will be the case here. The building is spectacular, there is no doubt that there will be life within it and that that life will make the building.

On your point about the cost and looking at the value, we have got much better at understanding and delineating costs. We have moved a little down the line of understanding and delineating value, and that is one of the interesting things about this project, because I believe that the value of this will be huge and over many years. That value, as you say, is in terms of its economic development, and also in terms of its status as a cultural icon and in its cultural development. You just cannot put those things in terms of pounds and pence, but, if we could add them up, they would be overwhelmingly greater than the cost. As a society, that is what we have to do—we have to understand the costs, not ignore them, but keep track of them, but we also clearly have to understand what value is.

Lastly, on your thanks to Richard and the team, people may not know that the team of people behind Richard has been absolutely splendid, particularly in these last few months and weeks. We could not have wished for any team to work harder, or to keep its spirit higher. Those people have been an enormous support to me and I am immensely grateful to them.

The Presiding Officer: I call Lorraine Barrett.

Lorraine Barrett: Thank you, Presiding Officer. It is wonderful to say that to you in this wonderful Chamber at last. The Minister has said it all, as have the leaders of the opposition parties, but I will welcome everyone to this wonderful building in the heart of my constituency. I have never been gloomy about the project, as you will know, Presiding Officer. From the early days, when Jim Callaghan first endorsed this design, to

sef y bywyd sydd yn mynd ymlaen oddi mewn iddynt. Mae'n debyg gennyf fod pawb ohonom yn teimlo felly am ein cartrefi ein hunain. Nid dim ond briciau a mortar ydynt; dyma'r manau lle y mae bywyd yn digwydd, a chredaf y bydd hyn yn wir yma. Mae'r adeilad yn ysblennydd, nid oes dim amheuaeth na fydd bywyd ynddo ac na fydd y bywyd hwnnw'n dod â bri i'r adeilad.

Ynghylch eich pwynt ynglŷn â'r gost ac edrych ar y gwerth, yr ydym wedi dod yn llawer gwell am ddeall costau a'u nodi'n fanwl. Yr ydym wedi dod ychydig yn well am ddeall a nodi gwerth, a dyna un o'r pethau diddorol am y prosiect hwn, oherwydd credaf y bydd gwerth hyn yn aruthrol ac y bydd yn para am flynyddoedd lawer. Mae'r gwerth hwnnw, fel y dywedasoeh, yn ymwneud â'i ddatblygiad economaidd, a hefyd ei statws fel eicon diwylliannol a'i ddatblygiad diwylliannol. Mae'n amhosibl rhoi'r pethau hyn yn nhermau punnoedd a cheiniogau, ond, pe gallem eu dwyn ynghyd, byddent yn llawer iawn mwy na'r gost. Fel cymdeithas, dyna'r hyn y mae'n rhaid inni ei wneud—rhaid inni ddeall y costau, nid eu hanwybyddu, ond cadw golwg arnynt, ond mae'n amlwg bod rhaid inni hefyd ddeall beth yw gwerth.

Yn olaf, o ran eich bod wedi diolch i Richard a'r tîm, mae'n bosibl na fydd pobl yn gwybod bod y tîm o bobl sydd y tu ôl i Richard wedi bod yn wirioneddol wych, yn enwedig yn ystod y misoedd a'r wythnosau diwethaf hyn. Ni allem fod wedi dymuno i ddim un tîm weithio'n galetach, na bod yn fwy calonnog. Mae'r bobl hyn wedi bod yn gefn mawr i mi ac yr wyf yn ddiolchgar iawn iddynt.

Y Llywydd: Galwaf ar Lorraine Barrett.

Lorraine Barrett: Diolch, Lywydd. Mae'n braf iawn gallu dweud hyn wrthyf yn y Siambr ragorol hon o'r diwedd. Mae'r Gweinidog wedi dweud y cyfan, ac arweinwyr y gwrthbleidiau hefyd, ond hoffwn groesawu pawb i'r adeilad rhagorol hwn yng nghanol fy etholaeth. Ni fûm i erioed yn benisel ynglŷn â'r prosiect, fel y gwyddoch, Lywydd. O'r dyddiau cynnar, pan gymeradwywyd y cynllun hwn am y tro

today, when we are sitting in it for the first time, I have had faith in this building.

I also thank everyone; Richard Wilson has been mentioned—I see him nearly every day in this building with a slightly worried look, but the worry has become less and less as we have approached today. I am particularly thinking about those who have literally built it. I suppose, in other days, we would have said those who have built it with bricks and mortar, but today we are here in the glass, slate and wood—it is really wonderful. However, I want to thank those behind the scenes who have really grafted and worked so hard in all weathers and against the clock.

It was heartening to come in today and to see real people coming into the building, and Nick Bourne is right, we must make the effort to ensure that we do not just slope into our Chamber and then back into the tea room. We must make the effort to welcome people to this wonderful building. I can say no more except to say to those who may not have been convinced that this is a triumph for Wales and a building for the people of Wales, and outside Wales, wherever they may come from across the world. I know that they will love the building and that it will become an iconic building of and for Wales.

Sue Essex: I am glad that you mentioned all those other people who are not here today who have played their part in this. There have been hundreds of people who have worked on this site; the Presiding Officer and I, and, perhaps Mike German through his window, have seen them. They have all been here to play their part, and many of them have said that it is not often that they get a chance to be part of a building project that is as important as this one, and I guess that they will always be able to think back on how they made a contribution to something that, as Mike said, will stand the test of time.

Glyn Davies: I fiercely opposed the decision to build this Senedd, but, today, it would be churlish to raise questions about cost, value

cyntaf gan Jim Callaghan, hyd heddiw, a ninnau'n eistedd ynddo am y tro cyntaf, bu gennyf ffydd yn yr adeilad hwn.

Hoffwn innau ddiolch i bawb; cyfeiriwyd at Richard Wilson—gwelaf ef bron bob diwrnod yn yr adeilad hwn yn edrych braidd yn bryderus, ond mae'r pryder wedi mynd yn llai ac yn llai wrth i heddiw agosáu. Yr wyf yn meddwl yn benodol am y rhai sydd yn llythrennol wedi codi'r adeilad. Mae'n debyg, yn yr hen ddyddiau, y byddem wedi dweud y rhai a'i hadeiladodd â brics a mortar, ond heddiw yr ydym yma mewn gwydr, llechi a phren—mae'n wirioneddol wych. Fodd bynnag, hoffwn ddiolch i'r rhai y tu ôl i'r llenni sydd wedi ymdrechu o ddifrif ac wedi gweithio mor galed ym mhob tywydd ac yn erbyn y cloc.

Yr oedd yn braf iawn dod i mewn heddiw a gweld pobl go iawn yn dod i mewn i'r adeilad, ac mae Nick Bourne yn iawn, rhaid inni fynd ati o ddifrif i wneud yn siŵr ein bod yn gwneud mwy na dim ond ymlwybro i'n Siambr ac yna'n ôl i'r ystafell de. Rhaid inni fynd ati o ddifrif i groesawu pobl i'r adeilad rhagorol hwn. Nid oes dim arall y gallaf ei ddweud ar wahân i ddweud wrth y rhai nad ydynt o bosibl wedi eu hargyhoeddi bod hwn yn rhywbeth i Gymru ymfalchïo ynddo, a'i fod yn adeilad i bobl Cymru, a'r tu hwnt i Gymru, ni waeth o ba ran o'r byd y maent yn dod. Gwn y byddant wrth eu bodd â'r adeilad ac y daw'r adeilad yn eicon o Gymru ac yn eicon dros Gymru.

Sue Essex: Yr wyf yn falch eich bod wedi cyfeirio at yr holl bobl eraill hynny nad ydynt yma heddiw sydd wedi bod yn rhan o'r gwaith hwn. Mae cannoedd o bobl wedi gweithio ar y safle hwn; mae'r Llywydd a minnau, a Mike German efallai drwy ei ffenestr ef, wedi eu gweld. Maent i gyd wedi bod yma i chwarae eu rhan, ac mae llawer ohonynt wedi dweud nad yn aml y cânt gyfle i fod yn rhan o brosiect adeiladu cyn bwysiced â hwn, a thybiaf y byddant yn cofio bob amser sut y maent wedi cyfrannu tuag at rywbeth a fydd, fel y dywedodd Mike, yn dal prawf amser.

Glyn Davies: Gwrthwynebais yn chwym y penderfyniad i adeiladu'r Senedd hon, ond peth anfoesgar, heddiw, fyddai codi

for money or, indeed, the timing of the decision; I just want to look forward. Do you agree with the comparison that I have made previously between this architecturally exciting building and a lovely old painting that we have at home? It might have cost us too much, perhaps we could not afford it, perhaps we should not have bought it, but it remains a lovely old painting that has given us huge pleasure every day since we bought it. I hope that this architectural masterpiece—and great credit must go to the architect Lord Rogers—will also bring huge pleasure to the people—

Y Llywydd: Trefn.

As much as I am enjoying this, it must not become a speech.

Sue Essex: Thank you, Glyn; I am glad to see that conversion, and I know that it is genuine in your case. I do not think that this building cost too much. I cannot compare it to your lovely old painting at home, because I have not yet been invited to your home, but I look forward to making that comparison myself.

3.20 p.m.

I do not think that this building cost too much. Your painting may have cost you too much, but we would not have bought the building, as it were, if we could not afford it, because we do not mismanage public affairs. However, I take the spirit of what you are saying, that some things are valuable for their beauty alone and for the years of pleasure that they will give. That goes back to the point about valuing things in life—sometimes we live in a very consumerist society and do not always value the right things. There are times when we should value the cultural things that are around us, because they give us permanent pleasure as a part of our lives.

John Griffiths: Do you agree that this

cwestiynau ynglŷn â chost, gwerth am arian neu, yn wir, amseriad y penderfyniad; yr wyf yn hytrach am edrych ymlaen. A ydych yn cytuno â'r gymhariaeth yr wyf wedi ei gwneud o'r blaen rhwng yr adeilad hwn â'i bensaerniaeth gyffrous a hen beintiad hyfryd sydd gennym gartref? Mae'n bosibl ei fod wedi costio gormod inni, efallai na allem ei fforddio, efallai na ddylem fod wedi ei brynu, ond mae'n dal i fod yn hen lun hyfryd sydd wedi rhoi llawer iawn o bleser inni bob diwrnod ers inni ei brynu. Yr wyf yn gobeithio y bydd y campwaith pensaernïol hwn—a rhaid rhoi llawer o glod i'r pensaer, yr Arglwydd Rogers—hefyd yn dod â llawer iawn o bleser i bobl—

The Presiding Officer: Order.

Er cymaint yr wyf yn mwynhau hyn, ni ddylai fynd yn araith.

Sue Essex: Diolch, Glyn; yr wyf yn falch o weld y dröedigaeth hon, a gwn ei bod yn ddiffuant yn eich achos chi. Nid wyf yn meddwl bod yr adeilad hwn wedi costio gormod. Ni allaf ei gymharu â'r hen beintiad hyfryd sydd gennych yn eich cartref, gan nad wyf wedi cael gwahoddiad i'ch cartref eto, ond edrychaf ymlaen at wneud y gymhariaeth honno drosod fy hun.

Ni chredaf fod yr adeilad hwn wedi costio gormod. Efallai fod eich llun chi wedi costio gormod i chi, ond ni fyddem wedi prynu'r adeilad, fel petai, pe na baem yn gallu ei fforddio, oherwydd nid ydym yn camreoli materion cyhoeddus. Fodd bynnag, derbynias naws yr hyn yr ydych yn ei ddweud, sef bod rhai pethau'n werthfawr oherwydd eu prydferthwch yn unig ac oherwydd y blynyddoedd o bleser y byddant yn ei roi. Mae hynny'n mynd â ni'n ôl at y pwynt ynglŷn â gwerthfawrogi pethau mewn bywyd—weithiau yr ydym yn byw mewn cymdeithas brynwriaethol iawn ac nid ydym bob amser yn gwerthfawrogi'r pethau iawn. Mae adegau pan ddylem werthfawrogi'r pethau diwylliannol sydd o'n cwmpas, oherwydd eu bod yn rhoi pleser parhaol inni fel rhan o'n bywydau.

John Griffiths: A ydych yn cytuno bod yr

building is extremely important on a number of levels? We know about the practicalities and the inadequacies of the old debating Chamber in terms of its pillars, public access and so on, however, on a symbolic level, as has been mentioned, it is important for Wales to have this landmark building. As you said, it is genuinely iconic—although I am sure that that word is much overused—and it makes an important statement about the new, post-devolution, self-confident Wales going forward. This environmentally significant building says an awful lot about that new Wales. Do you agree that the international publicity that we have received in the run-up to today, which I am sure will also be a feature of today and the run-up to the official opening on 1 March, is priceless in terms of conveying those clear messages about the new, post-devolution Wales moving forward?

Sue Essex: I agree with everything that you said. The building is a symbol of confidence, as I have said. It was worthwhile your pointing out that it has already received international recognition. I know of one leading architectural commentator who is going to include this building among the best modern buildings in the world. Those kinds of accolades are important, because although we may think that it is good, there is nothing more reassuring than hearing an external expert making such comments. That is part of the real value of the building: it will put Wales on the map. Wales should be on the global map for all sorts of other reasons, we know that, but there is nothing like an iconic building to do that for us. It is an easy symbol for people to use and I hope that that will equate with people in Wales feeling confident about their future.

Jocelyn Davies: We have all emphasised the importance of the public's being able to use and love this building. Minister, I am sure that you are aware that there are concerns that visitors to the building will not feel welcome and will, in fact, feel disorientated. How will you put those concerns to rest and ensure that everyone who visits this building gets as warm a welcome as possible?

adeilad hwn yn bwysig iawn ar sawl lefel? Gwyddom am ddiffygion a phroblemau ymarferol yr hen Siambr drafod o ran ei phileri, mynediad i'r cyhoedd ac yn y blaen, fodd bynnag, ar lefel symbolaidd, fel y nodwyd, mae'n bwysig i Gymru gael yr adeilad nodedig hwn. Fel y dywedasoeh, mae'n wirioneddol eiconig—er fy mod yn siŵr bod llawer gormod o ddefnydd yn cael ei wneud o'r gair hwn—ac mae'n gwneud datganiad pwysig am y Gymru newydd, lawn hunanhyder yn y cyfnod ar ôl datganoli sy'n symud yn ei blaen. Mae'r adeilad hwn sy'n adeilad o bwys o safbwynt amgylcheddol yn dweud llawer iawn am y Gymru newydd honno. A ydych yn cytuno bod y cyhoeddusrwydd rhyngwladol yr ydym wedi ei gael wrth i heddiw agosáu, ac a gawn heddiw hefyd ac wrth i'r agoriad swyddogol ar 1 Mawrth ddynesu mae'n siŵr, yn amhrisiadwy o ran cyfleu'r negeseuon clir hynny am y Gymru newydd yn y cyfnod ar ôl datganoli sy'n symud yn ei blaen?

Sue Essex: Yr wyf yn cytuno â phopeth yr ydych wedi ei ddweud. Mae'r adeilad yn arwydd o hyder, fel y dywedais. Yr wyf yn falch eich bod wedi nodi ei fod eisoes wedi cael cydnabyddiaeth ryngwladol. Gwn am un sylwebydd pensaernïol blaenllaw sy'n mynd i gynnwys yr adeilad hwn ymhlith adeiladau modern gorau'r byd. Mae anrhydedd o'r fath yn bwysig, oherwydd efallai ein bod ni'n meddwl ei fod yn dda, ond mae clywed arbenigwr allanol yn gwneud sylwadau o'r fath yn rhoi cryn foddhad. Mae hyn yn rhan o wir werth yr adeilad: bydd yn rhoi Cymru ar y map. Dylai Cymru fod ar fap y byd am resymau eraill o bob math, gwyddom hynny, ond nid oes dim byd tebyg i adeilad eiconig i wneud hynny drosom. Mae'n symbol hawdd i bobl ei ddefnyddio a hyderaf y bydd hynny'n gwneud i bobl Cymru deimlo'n hyderus ynglŷn â'u dyfodol.

Jocelyn Davies: Yr ydym i gyd wedi dweud pa mor bwysig ydyw fod y cyhoedd yn gallu defnyddio'r adeilad hwn a'u bod yn ei hoffi. Weinidog, yr wyf yn siŵr eich bod yn ymwybodol bod pryderu na fydd pobl sy'n ymweld â'r adeilad yn teimlo eu bod yn cael eu croesawu ac y byddant, mewn gwirionedd, yn teimlo ar goll. Sut y byddwch yn tawelu'r ofnau hyn ac yn sicrhau bod pob un sy'n ymweld â'r adeilad hwn yn cael croeso mor

dwymgalon ag sy'n bosibl?

Sue Essex: I am not aware of people feeling disorientated. I have not spoken to the members of the public who have come in today, but I went around with the access advisory group, yesterday or the day before, and that group was positive about the building. There are small things that it would like to see added, but such is life, and it was very enthusiastic about the building. The running of the building is the responsibility of the Assembly Parliamentary Service and I know that it wants the public to use this building as much as we do. I am sure that members of the House Committee, in time, will look at what changes and improvements can be made. We all have to be aware, when we come in on the first day, that changes will take place. We will all learn and get experience. No building ever stays as it was when you first walked through the door and there will be adaptations over time.

The nature of the building, in terms of its glass, openness and accessibility, minimises that disorientation. This is not like a normal Government building where you go in and immediately start thinking, 'Where do I go here, who am I going to speak to?', and have to wander off down one corridor after another. This building is not like that. People can just sit, take their time and look around. They can go upstairs for a cup of coffee and, hopefully, they will come along to the public gallery. There are monitors everywhere. I believe that, compared to many Government or parliamentary buildings across the world, it is much easier to orientate yourself in this building. If nothing else, you can just sit and look out across Cardiff bay—what a wonderful vista that is—and feel that you are part of an important effort.

Sue Essex: Nid wyf yn ymwybodol bod pobl yn teimlo eu bod ar goll. Nid wyf wedi siarad gydag aelodau o'r cyhoedd sydd wedi dod i mewn heddiw, ond euthum o amgylch gyda'r grŵp cynghori ar fynediad, ddoe neu echdoe, ac yr oedd sylwadau'r grŵp hwnnw ynglŷn â'r adeilad yn gadarnhaol. Mae mân bethau y byddai'n hoffi eu gweld yn cael eu hychwanegu, ond fel yna y mae hi, ac yr oedd yn frwdfrydig iawn ynglŷn â'r adeilad. Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad sy'n gyfrifol am reoli'r adeilad a gwn ei fod yr un mor awyddus â ni i weld y cyhoedd yn defnyddio'r adeilad. Yr wyf yn siŵr y bydd aelodau o Bwyllgor y Tŷ, ymhen amser, yn ystyried pa newidiadau a gwelliannau y gellir eu gwneud. Rhaid i bob un ohonom fod yn ymwybodol, wrth inni ddod i mewn ar y diwrnod cyntaf, y bydd newidiadau'n cael eu gwneud. Byddwn i gyd yn dysgu ac yn ennill profiad. Nid oes dim un adeilad yn aros yn union yr un fath ag yr oedd y tro cyntaf ichi gerdded drwy'r drws a bydd addasiadau'n cael eu gwneud o dipyn i beth.

Mae natur yr adeilad, o ran y gwydr, ei naws agored a'i hygyrchedd, yn lleihau'r teimlad o fod ar goll. Mae hwn yn wahanol i adeilad Llywodraeth arferol lle y mae rhywun yn mynd i mewn ac yn dechrau meddwl ar unwaith, 'Pa ffordd y dylwn i fynd yma, gyda phwy y dylwn i siarad?', ac yn gorfod crwydro i lawr y naill goridor ar ôl y llall. Mae'r adeilad hwn yn wahanol. Gall pobl eistedd, cymryd eu hamser ac edrych o gwmpas. Gallant fynd i fyny'r grisiau am baned o goffi a byddant, gobeithio, yn dod i'r oriel gyhoeddus. Mae monitorau ym mhobman. Credaf, o'i gymharu â llawer o adeiladau Llywodraethol neu seneddol ledled y byd, ei bod yn llawer haws ichi beidio â mynd ar goll yn yr adeilad hwn. Os nad ydych yn gwneud dim byd arall, mae modd ichi eistedd yma ac edrych draw dros fae Caerdydd—am olygfa braf yw hi—a theimlo eich bod yn rhan o ymdrech bwysig.

Datganiad ar Bensiynau Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad Statement on Assembly Sponsored Public Body Pensions

The First Minister: I am grateful for your permission, Llywydd, to make a statement on

Y Prif Weinidog: Yr wyf yn ddiolchgar am eich caniatâd, Lywydd, i wneud datganiad am

the pension arrangements for the Assembly sponsored public bodies being merged.

I appreciate more than most that this is an anxious time for staff affected by the mergers that will take place on 1 April. No-one should be seeking to create any uncertainty for them. Sadly, some are not showing them the same consideration, and are stirring up a pointless furore in the media.

The key points are as follows. How can individuals make sure that they will not lose out on their pensions as a result of the merger? On transfer, it is intended that staff will simply continue as members of their current schemes, with no detriment. They will, as soon as it is administratively possible, be provided with pension statements and independent financial advice and sufficient time in which to consider their individual situations and make informed choices about their pension future. Any decisions taken will be backdated to 1 April, and any necessary adjustments made.

Is it likely that many staff will join the civil service pension scheme? As regards the WDA, whose pension scheme, administered by the Rhondda Cynon Taf pension fund, shows a considerable deficit, we envisage that the majority of staff will remain in their existing pension scheme, because cash-equivalent terms would not be particularly favourable. In the majority of cases, a cash-equivalent transfer would secure less than year-for-year service. However, some staff, most likely those with short service in their existing ASPB pension scheme, may wish to transfer into the civil service scheme. We are therefore providing staff with a set of choices for them to make to suit their personal circumstances, and we will support them in making an informed decision through the provision of independent financial advice.

Would these 'bulk transfer' terms suit everyone? Experience has shown that most staff prefer to maintain the status quo and stay in their existing scheme. Our plans are

y trefniadau pensiwn ar gyfer y cyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad sy'n cael eu huno.

Yr wyf yn sylweddoli yn fwy na'r rhan fwyaf o bobl fod hwn yn gyfnod pryderus i'r staff y mae'r uno a fydd yn digwydd ar 1 Ebrill yn effeithio arnynt. Ni ddylai neb fod yn ceisio achosi dim ansicrwydd iddynt. Yn anffodus, mae rhai nad ydynt mor ystyriol ohonynt, ac sy'n creu cynnwrf dibwrpas yn y cyfryngau.

Mae'r prif bwyntiau fel a ganlyn. Sut y gall unigolion wneud yn siŵr na fyddant ar eu colled â'u pensiynau o ganlyniad i'r uno? Ar ôl trosglwyddo, y bwriad yw y bydd y staff yn dal i fod yn aelodau o'u cynlluniau presennol, heb ddim newid. Cyn gynted ag y bo hynny'n bosibl o safbwynt gweinyddol, byddant yn cael datganiadau pensiwn a chyngor ariannol annibynnol a digon o amser i ystyried eu sefyllfaoedd unigol a gwneud penderfyniad gwybodus ynglŷn â'r hyn y maent am ei wneud â'u pensiwn yn y dyfodol. Bydd unrhyw benderfyniadau a wneir yn cael eu dyddio yn ôl i 1 Ebrill, a gwneir unrhyw newidiadau angenrheidiol.

A yw'n debygol y bydd llawer o staff yn ymuno â chynllun pensiwn y gwasanaeth sifil? O ran yr awdurdod datblygu, gweinyddir ei gynllun pensiwn gan gronfa pensiwn Rhondda Cynon Taf, ac mae'n dangos diffyg sylweddol. Rhagwelwn y bydd y rhan fwyaf o'r staff yn aros gyda'u cynllun pensiwn presennol, gan na fyddai telerau arian parod cyfatebol yn ffafriol iawn. Yn y rhan fwyaf o achosion, byddai trosglwyddo arian parod cyfatebol yn sicrhau llai na gwasanaeth blwyddyn-am-flwyddyn. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd rhai aelodau o'r staff, y rhai sydd â gwasanaeth byr yn eu cynllun pensiwn CCNC presennol mae'n debyg, yn dymuno trosglwyddo i gynllun y gwasanaeth sifil. Yr ydym felly'n cynnig gwahanol ddewisiadau ar gyfer y staff gan ddibynnu ar eu hamgylchiadau personol, a byddwn yn eu cynorthwyo i wneud penderfyniad gwybodus drwy ddarparu cyngor ariannol annibynnol.

A fyddai'r telerau hyn ar gyfer 'swmp-drosglwyddo' yn addas i bawb? Gwelwyd o brofiad fod yn well gan y rhan fwyaf o'r staff gadw pethau fel y maent ac aros gyda'u

therefore for staff to be able to do that, but also to provide them with the right to transfer into the civil service scheme as an alternative if it suits their individual circumstances. What about previous transfers? It is necessary to look at each transfer individually and to manage it in the best possible way for the staff and the employer. The Assembly Government is a diverse employer and already has some staff who are members of pension schemes other than the civil service pension main pension scheme. On this basis, the intended arrangements for the Welsh Development Agency and Wales Tourist Board staff pensions do not set a precedent. The alternative would be unaffordable, namely to take £38 million from front-line budgets to make up the cost of the transfer from the Rhondda Cynon Taf pension scheme. That way, all staff from WDA could transfer in with all their years of service reckoned in full as previous years of service, but it is unaffordable. Like many pension schemes in the public and private sectors, the WDA component of the RCT pension scheme requires action over a number of years to maintain its financial security.

The Wales Tourist Board has a small problem in that it is a member of the British Tourist Authority scheme, which has almost a notional deficit of just over £100,000. In addition, we have agreed that WDA and WTB staff will have the option to be eligible to join the civil service pension scheme for their future service in the merged organisation. We informed staff of this eligibility in a joint message from unions and management dated 31 January, which has been e-mailed to all staff, and we are currently in discussions with the relevant pension scheme administrators on how the previous service of WDA and WTB staff would be affected should staff wish to come in to the civil service pension scheme. To this effect, we will provide staff with the opportunity to take independent financial advice on the implications of either freezing their previous service in their existing pension scheme or transferring their previous service into the civil service pension scheme

cynllun presennol. Ein bwriad ni felly yw galluogi'r staff i wneud hynny, ond rhoi'r hawl hefyd iddynt drosglwyddo i gynllun y gwasanaeth sifil fel dewis arall os yw'n addas i'w hamgylchiadau unigol hwy. Beth am drosglwyddiadau blaenorol? Mae angen edrych ar bob trosglwyddiad yn unigol a'i reoli yn y ffordd orau posibl ar gyfer y staff a'r cyflogwr. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn gyflogwr amrywiol ac mae ganddi eisoes rai staff sy'n aelodau o gynlluniau pensiwn ar wahân i brif gynllun pensiwn y gwasanaeth sifil. Ar sail hynny, nid yw'r trefniadau arfaethedig ar gyfer pensiynau staff yr awdurdod datblygu a'r bwrdd croeso yn gosod cynsail. Byddai'r dewis arall, sef tynnu £38 miliwn o gyllidebau rheng flaen i dalu'r gost o drosglwyddo o gynllun pensiwn Rhondda Cynon Taf, yn un na ellid ei fforddio. Byddai hynny'n golygu y gallai holl staff yr awdurdod datblygu drosglwyddo i gynllun y gwasanaeth sifil â'u holl flynyddoedd o wasanaeth yn cael eu cyfrif yn llawn fel blynyddoedd blaenorol o wasanaeth, ond mae'n ddewis na ellir ei fforddio. Fel llawer o gynlluniau pensiwn yn y sectorau cyhoeddus a phreifat, mae elfen yr awdurdod datblygu o gynllun pensiwn RhCT yn golygu bod angen cymryd camau dros nifer o flynyddoedd er mwyn cynnal ei sicrydd ariannol.

Mae gan Fwrdd Croeso Cymru broblem fach gan ei fod yn aelod o gynllun Awdurdod Twristiaeth Prydain, sydd bron iawn â diffyg tybiannol o ychydig dros £100,000. Yn ychwanegol at hyn, yr ydym wedi cytuno y bydd staff yr awdurdod datblygu a'r bwrdd croeso'n cael y dewis i fod yn gymwys i ymuno â chynllun pensiwn y gwasanaeth sifil ar gyfer eu gwasanaeth yn y dyfodol yn y sefydliad unedig. Hysbyswyd y staff ynglŷn â'r cymhwyster hwn mewn neges e-bost ar y cyd gan yr undebau a'r rheolwyr, dyddiedig 31 Ionawr, a anfonwyd at bob aelod o'r staff, ac yr ydym yn cynnal trafodaethau ar hyn o bryd gyda gweinyddwyr y cynllun pensiwn perthnasol ynglŷn â pha effaith a geid ar wasanaeth blaenorol staff yr awdurdod datblygu a'r bwrdd croeso pe bai aelodau o'r staff yn dymuno ymuno â chynllun pensiwn y gwasanaeth sifil. I'r perwyl hwn, byddwn yn rhoi cyfle i'r staff gael cyngor ariannol annibynnol ynglŷn â goblygiadau rhewi eu gwasanaeth blaenorol yn eu cynllun pensiwn

under terms to be agreed with the relevant pension scheme administrators, and taking cognisance of the deficit. I will ensure that a copy of the 31 January staff notice is made available to all Assembly Members. I emphasise that Education and Learning Wales and the Qualifications, Curriculum and Assessment Authority for Wales staff, who will be merged on 1 April, are already members of the civil service pension scheme and are, essentially, unaffected.

This outcome is entirely consistent with our previously stated position. In one of our first staff notices, dated 30 July 2004, we confirmed that staff would be able to remain in their current pension scheme or move to the civil service scheme.

3.30 p.m.

We also confirmed that we would enter into negotiations about the opportunity for staff to transfer previous service into the civil service pension scheme, but taking recognition of the WDA deficit problem. This is what we have done—there has been no u-turn and I deprecate attempts by anyone to try to stir-up confusion among those staff at a difficult time for all concerned.

Alun Ffred Jones: This matter has engendered a great deal of worry and concern, and it is not my intention to add to those worries. There was a suggestion after the exchanges last Thursday that WDA workers transferring over might become semi-detached or second-class civil servants. If there had been a proper consultation period these types of problems could have been worked through, to use the phrase that you used last Thursday.

The Assembly Government's response yesterday talked about workers joining the civil service pension scheme, but with previous service recognition having to take account of the deficit in the WDA pension scheme. Presumably, that means that, for those transferring their benefits, the benefits accrued would be smaller than originally promised—I presume that that is the

presennol neu drosglwyddo eu gwasanaeth blaenorol i gynllun pensiwn y gwasanaeth sifil dan delerau y bydd angen cytuno arnynt â gweinyddwyr y cynllun pensiwn perthnasol, a chan gymryd sylw o'r diffyg. Sicrhaf fod copi o'r hysbysiad i'r staff, dyddiedig 31 Ionawr, ar gael i bob Aelod Cynulliad. Pwysleisiaf fod staff Dysgu ac Addysgu Cymru ac Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru, a fydd yn cael eu huno ar 1 Ebrill, eisoes yn aelodau o gynllun pensiwn y gwasanaeth sifil ac na fydd dim effaith, yn y bôn, arnynt hwy.

Mae'r canlyniad hwn yn gwbl gyson â'r safbwynt yr ydym wedi ei ddatgan o'r blaen. Yn un o'n hysbysiadau staff cyntaf, dyddiedig 30 Gorffennaf 2004, cadarnhawyd gennym y byddai'r staff yn gallu aros gyda'u cynllun pensiwn presennol neu symud i gynllun y gwasanaeth sifil.

Bu inni gadarnhau hefyd y byddem yn trafod y cyfle i'r staff gael trosglwyddo gwasanaeth blaenorol i gynllun pensiwn y gwasanaeth sifil, ond gan gydnabod problem diffyg yr awdurdod datblygu. Dyna'r hyn yr ydym wedi'i wneud—ni chafwyd dim tro pedol ac yr wyf yn dirmygu ymgais gan unrhyw un i geisio creu dryswch ymhlith y staff hynny ar adeg anodd i bawb.

Alun Ffred Jones: Mae hwn yn fater sydd wedi achosi llawer iawn o boeni a phryderu yn ei gylch, ac nid wyf am ychwanegu at hynny. Yr oedd awgrym ar ôl y drafodaeth ddydd Iau diwethaf y gallai gweithwyr yr awdurdod datblygu a oedd yn trosglwyddo ddod yn weision sifil eilradd neu anghyflawn. Pe bai cyfnod priodol o ymgynghori wedi ei gynnal, gellid bod wedi ceisio datrys problemau fel hyn, ac ailadrodd yr hyn a ddywedasoeh ddydd Iau diwethaf.

Yr oedd ymateb Llywodraeth y Cynulliad ddoe yn sôn am weithwyr yn ymuno â chynllun pensiwn y gwasanaeth sifil, ond gyda chydnabyddiaeth o wasanaeth blaenorol yn gorfod ystyried y diffyg yng nghynllun pensiwn yr awdurdod datblygu. Cymeraf fod hynny'n golygu, i rai a fyddai'n trosglwyddo eu buddion, y byddai'r buddion cronedig yn llai na'r hyn a addawyd yn wreiddiol—tybiaf

problem. Presumably, those who choose to remain within the Rhondda Cynon Taf scheme will remain as they are. The picture becomes slightly more complex if they freeze their previous service in their existing pension scheme and decide to join the civil scheme anew. Is that possible? Will they be penalised, in any way, for having effectively two or three pension schemes, as many people have as they move from one job to another? How will they be penalised, or will they be penalised, if they choose to freeze their pension scheme within the RCT scheme and join the civil service scheme?

The First Minister: I accept that you are exempt from the charge that I made about stirring up unnecessary furore. I do not know where the phrase semi-detached members of the civil service, or any implication that there are first-class and second-class civil servants, comes from. I can reveal as much from my experience—I have been a member of the contributory and non-contributory civil service pension schemes from my time as a civil servant. There are some people who currently work for the Assembly who are not members of the main civil service non-contributory pension scheme. That has always been the case with the civil service—there are civil servants who are in and civil servants who are not in the main non-contributory pension scheme, which has been true in my case.

On the question of the interpretation of the paragraph to which I referred about the options available, it will vary according to everyone's individual circumstances. As an example, if you are a member of the WDA pension scheme but only joined it last year, because you only joined the WDA last year, it would pay for you to move as quickly as possible into the civil service pension scheme. The loss or diminution of reckonable service—if it is only a year or two—is not likely to affect you if you have most of your working life ahead of you in the civil service. However, if you are coming to the end of your working life and you have many entitlements in the RCT pension scheme, you would have to take very careful financial advice before deciding whether or not to transfer. If you were to transfer, your

mai hynny yw'r broblem. Mae'n debyg y bydd rhai sy'n dewis aros gyda chynllun Rhondda Cynon Taf yn aros fel y maent. Mae'r darlun yn mynd ychydig yn fwy cymhleth os byddant yn dewis rhewi eu gwasanaeth yn eu cynllun pensiwn presennol ac yn penderfynu ymuno o'r newydd â'r cynllun sifil. A ydyw hynny'n bosibl? A fyddant yn cael eu cosbi, rywsut, am gael dau neu dri chynllun pensiwn efallai, fel sydd gan lawer o bobl wrth symud o un swydd i'r llall? Sut y cosbir hwy, neu a gosbir hwy, os byddant yn dewis rhewi eu cynllun pensiwn o fewn cynllun Rhondda Cynon Taf ac ymuno â chynllun y gwasanaeth sifil?

Y Prif Weinidog: Derbyniaf eich bod wedi eich eithrio o'r cyhuddiad a wneuthum ynghylch achosi stŵr diangen. Ni wn o ba le y daeth y disgrifiad o weision sifil fel rhai anghyflawn, nac ychwaith yr awgrym bod gweision sifil o'r radd flaenaf a rhai eilradd. Gallaf ddweud hynny o brofiad—yr wyf wedi bod yn aelod o gynlluniau pensiwn cyfrannol ac anghyfrannol y gwasanaeth sifil pan oeddwn yn was sifil. Mae rhai pobl sy'n gweithio ar hyn o bryd i'r Cynulliad nad ydynt yn aelodau o brif gynllun pensiwn anghyfrannol y gwasanaeth sifil. Dyna fel y bu pethau erioed yn y gwasanaeth sifil—ceir gweision sifil sydd wedi ymuno, a gweision sifil nad ydynt wedi ymuno â'r prif gynllun pensiwn anghyfrannol, a dyna fu'r sefyllfa yn fy achos i.

O ran dehongli'r paragraff y cyfeiriais ato ynglŷn â'r opsiynau sydd ar gael, bydd yn amrywio yn ôl amgylchiadau unigol pawb. Er enghraifft, os ydych yn aelod o gynllun pensiwn yr awdurdod datblygu ond na wnaethoch ymuno tan y llynedd, oherwydd nad ymunasoch â'r awdurdod datblygu tan y llynedd, byddai'n talu ichi drosglwyddo cyn gynted â phosibl i gynllun pensiwn y gwasanaeth sifil. Nid yw colli neu leihau blynyddoedd gwasanaeth—os nad yw ond blwyddyn neu ddwy—yn debygol o effeithio arnoch os yw'r rhan fwyaf o'ch oes o ran gwaith yn y gwasanaeth sifil yn dal i fod o'ch blaen. Fodd bynnag, os ydych yn dod at ddiwedd eich oes gwaith a llawer o hawliau gennyich yng nghynllun pensiwn Rhondda Cynon Taf, byddai'n rhaid ichi dderbyn cyngor ariannol pur ofalus cyn penderfynu

reckonable years would be reduced to take account of the deficit or you would choose to freeze them and simply draw the salary which might only be two or three years away if you had 30 or 40 years' service. So, everyone will have slightly different circumstances.

The broad thrust is that most WDA staff members will stay within the RCT pension scheme, but that they will have the option—and we will provide them with the independent financial advice to ensure that they do not lose out—of ensuring that by freezing their provision, transferring it here or staying in the present pension scheme they will do so in the best interest of their personal circumstances.

Alun Cairns: The First Minister's inconsistency on this is breathtaking. He clearly said during the Scrutiny of the First Minister Committee meeting last week, with many 'ums' and 'ahs', that this is a difficult issue because we cannot find £40 million to have WDA staff come in in the way that they probably would have expected to come in, which is the normal way, if it became part of the civil service through some sort of transfer of functions.

Irrespective of that, the chief executive of the Welsh Development Agency said on 8 December that there are three options, which are now more similar to the statement that the First Minister has just given. The First Minister said quite clearly last Thursday that WDA staff would not have the opportunity to transfer, but now he is seeking to get out of a major u-turn in the error that he made. He said something different then to what he is saying now. He is now seeking to support what Gareth Hall had previously said.

Furthermore, what he expects to happen is extremely unlikely because the vast majority of staff would be better off in the civil service pension scheme. That is a fact. That being the case, with the staff all withdrawing their transfer value from the WDA pension scheme, the debt would crystallise and the question of how the Assembly Government will ensure that the WDA pensioners' fund

trosglwyddo neu beidio. Pe baech yn trosglwyddo, byddai eich blynyddoedd gwasanaeth yn cael eu lleihau i ystyried y diffyg neu gallech ddewis eu rhewi a chodi'r cyflog na fyddai efallai ond dwy neu dair blynedd i ffwrdd pe bai gennych 30 neu 40 mlynedd o wasanaeth. Felly, bydd amgylchiadau pawb ychydig yn wahanol.

Hanfod hyn yn fras yw y bydd y rhan fwyaf o staff yr awdurdod datblygu yn aros gyda chynllun pensiwn Rhondda Cynon Taf, ond bydd ganddynt yr opsiwn—a byddwn yn cynnig cyngor ariannol annibynnol iddynt i sicrhau nad ydynt ar eu colled—o sicrhau, drwy rewi eu darpariaeth, ei throsglwyddo yma neu aros gyda'r cynllun pensiwn presennol, eu bod yn gwneud hynny yn y modd mwyaf manteisiol i'w hamgylchiadau personol.

Alun Cairns: Mae anghysondeb y Prif Weinidog ar hyn yn anhygoel. Dywedodd yn glir yn ystod y Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog yr wythnos diwethaf, gyda sawl 'ym' ac 'a', fod hwn yn fater anodd am na allwn ddod o hyd i £40 miliwn i alluogi staff yr awdurdod datblygu i drosglwyddo fel y byddent wedi dymuno mae'n siŵr, fel sy'n digwydd fel arfer, pe bai'n dod yn rhan o'r gwasanaeth sifil o ganlyniad i drosglwyddo swyddogaethau o ryw fath.

Er gwaethaf hynny, dywedodd prif weithredwr Awdurdod Datblygu Cymru ar 8 Rhagfyr fod tri opsiwn, sydd bellach yn debycach i'r datganiad y mae'r Prif Weinidog newydd ei wneud. Dywedodd y Prif Weinidog yn gwbl glir ddydd Iau diwethaf na fyddai gan staff yr awdurdod datblygu gyfle i drosglwyddo, ond mae yn awr yn ceisio dianc rhag tro pedol mawr gyda'r camgymeriad a wnaeth. Dywedodd rywbeth tra gwahanol bryd hynny i'r hyn y mae'n ei ddweud yn awr. Mae bellach yn ceisio cefnogi'r hyn a ddywedodd Gareth Hall yn flaenorol.

Yn ogystal, mae'r hyn y mae'n disgwyl iddo ddigwydd yn annhebygol iawn o ddigwydd oherwydd byddai'n llawer mwy manteisiol i'r rhan fwyaf o ddigon o'r staff fod yng nghynllun pensiwn y gwasanaeth sifil. Mae hynny'n ffaith. O'r herwydd, pe bai'r staff i gyd yn codi gwerth trosglwyddo eu pensiynau o gynllun pensiwn yr awdurdod datblygu, byddai'r ddyled yn crisialu ac

remains liquid has still not been answered. That is the challenge. If the vast majority of staff leave the WDA pension scheme and transfer into the civil service scheme, there will be serious question marks over the benefits that pensioners will receive from the WDA scheme.

If the First Minister only answers one question today in the Chamber, I would be grateful if he answered that. However, given the response that he has given to other questions and the statement that he has just made on the WDA pension scheme, I do not hold out much hope.

The First Minister: Your addiction to personal abuse is well beyond the powers of modern medicine to cure, Alun, and is invariably at the same hysterical tone. There is no inconsistency between what I have said today and what I said to the Scrutiny of the First Minister Committee. As Glyn Davies will be obliged to confirm when he speaks—I hope that he may catch your eye a little later, Llywydd—his questions to me did not ask whether people had the option of transferring into the civil service scheme or not; his questions were all about the general consequences and handling of the deficit. I answered that then as I have answered it now: that we are not going to find the funds because we do not think that it would be appropriate to find £38 million out of front-line services in order to put it into the Rhondda Cynon Taf pension scheme—or what would happen is that the civil service pension scheme would require us to pay the civil service pension scheme to clear the deficit so that anybody with 20 years' service coming in from the WDA would get recognition of a full 20 years' service. We cannot afford to do that and we have known that since the first staff notice went out making that clear on 20 July. We are not going to find that £38 million to clear the deficit; it would not be right and proper to do so. That was what Glyn Davies asked me on two or three occasions on Thursday and there is no inconsistency whatsoever.

mae'r cwestiwn sut y gwnaiff Llywodraeth y Cynulliad sicrhau bod cronfa bensiwn yr awdurdod yn parhau'n hylifol heb ei ateb o hyd. Dyna'r her. Os yw mwyafrif llethol y staff yn gadael cynllun pensiwn yr awdurdod ac yn trosglwyddo i gynllun y gwasanaeth sifil, bydd cwestiwn mawr ynghylch y buddion y bydd pensiynwyr yn eu derbyn o gynllun yr awdurdod datblygu.

Os mai dim ond un cwestiwn y mae'r Prif Weinidog yn ei ateb heddiw yn y Siambr, byddwn yn ddiolchgar pe bai'n ateb hynny. Fodd bynnag, o ystyried yr ymateb a roddodd i gwestiynau eraill a'r datganiad y mae newydd ei wneud ar gynllun pensiwn yr awdurdod datblygu, nid wyf yn obeithiol iawn.

Y Prif Weinidog: Mae eich ymlyniad wrth ymosod yn bersonol ar rywun y tu hwnt i allu meddygaeth gyfoes i'w iachau, Alun, ac yn ddi-ffael yn yr un dôn orffwyll. Nid oes dim anghysondeb rhwng yr hyn a ddywedais heddiw a'r hyn a ddywedais yn ystod y Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog. Fel y bydd Glyn Davies yn falch o gadarnhau pan fydd yn siarad—gobeithio y gall ddal eich sylw yn nes ymlaen, Lywydd—nid oedd ei gwestiynau imi yn gofyn a oedd gan bobl opsiwn i drosglwyddo i gynllun y gwasanaeth sifil ai peidio; yr oedd ei gwestiynau ynghylch y canlyniadau cyffredinol a sut i drin y diffyg. Rhoddais yr un ateb bryd hynny ag yn awr: na fyddwn yn dod o hyd i'r arian oherwydd nid ydym yn teimlo y byddai'n briodol tynnu £38 miliwn allan o wasanaethau rheng flaen i'w roi yng nghynllun pensiwn Rhondda Cynon Taf—neu yr hyn a fyddai'n digwydd yw y byddai cynllun pensiwn y gwasanaeth sifil yn gofyn inni dalu i gynllun pensiwn y gwasanaeth sifil er mwyn clirio'r diffyg fel y byddai unrhyw un gydag 20 mlynedd o wasanaeth wrth ddod o'r awdurdod datblygu'n cael cydnabyddiaeth o 20 mlynedd o wasanaeth llawn. Ni allwn fforddio gwneud hynny ac yr oeddem yn gwybod hynny pan roddwyd yr hysbysiad cyntaf i'r staff yn egluro hynny ar 20 Gorffennaf. Ni fyddwn yn dod o hyd i'r £38 miliwn i glirio'r diffyg; ni fyddai'n iawn nac yn briodol gwneud hynny. Dyna beth a ofynnodd Glyn Davies imi ddwy neu dair gwaith ddydd Iau ac nid oes dim anghysondeb ynglŷn â'r peth o gwbl.

I strongly rebut what you have said. It only confirms what I said in my opening sentence, namely that there are some people who have no greater ambition in life than to create uncertainty among WDA staff that they are, in some way, going to lose out. They are not going to lose out and they are not going to be transferring in or staying where they are to their detriment; they will be carrying on exactly as they would have done had we not been merging the WDA, because the deficit would have been there. There are similar deficits throughout a wide range of public and private sector schemes. We are giving people independent financial advice to enable them to make the best choice in their individual circumstances. It is very important that you lower the temperature, avoid the personal abuse and do not stir up uncertainty, otherwise people will realise what your motives are, which you have made only too clear today, Alun.

Kirsty Williams: It is obvious that whether it was in Conwy or Aberystwyth, the First Minister was not having a great day on Thursday. The issue is that the confusion, whether it is stirred up by Conservative politicians or not, arose from the statements that you made at that meeting. If you had been clear and robust then, you would not have given them the ammunition that they have used today.

3.40 p.m.

The issue has existed from the beginning when the merger was announced. Opposition members have always asked how you were going to handle this problem. It emerged early on that there was, potentially, a large deficit in the WDA pension scheme, and we have consistently asked what your approach would be to managing that to ensure that individuals did not lose out. We were consistently told that it was not a problem, it was manageable, it was not a big deal and it would be sorted out. I am sure that the statement that you have given today has not sorted it out in a way that many of the staff would have enjoyed.

Gwrthodaf yn gryf yr hyn a ddywedasoch. Yn wir, mae'n cadarnhau yr hyn a ddywedais yn fy mrawddeg agoriadol, sef mai prif uchelgais rhai pobl mewn bywyd yw creu ansicrwydd ymhlith staff yr awdurdod datblygu eu bod, mewn rhyw ffordd, yn mynd i fod ar eu colled. Ni fyddant ar eu colled ac ni fyddant yn trosglwyddo nac yn aros lle y maent os bydd hynny'n anfanteisiol iddynt; byddant yn yr un sefyllfa'n union â phe na bai'r awdurdod datblygu wedi uno â ni, oherwydd byddai'r diffyg wedi bod yno. Ceir diffygion tebyg mewn ystod eang o gynlluniau eraill yn y sectorau preifat a chyhoeddus. Yr ydym yn rhoi cyngor ariannol annibynnol fel bod pobl yn gallu gwneud y dewis gorau yn eu hamgylchiadau unigol hwy. Mae'n bwysig dros ben eich bod yn gostwng y tymheredd, yn osgoi ymosod yn bersonol ac yn ymatal rhag creu ansicrwydd, neu bydd pobl yn sylweddoli beth yw eich cymhellion, sydd mor amlwg heddiw, Alun.

Kirsty Williams: Mae'n amlwg, boed yng Nghonwy neu yn Aberystwyth, nad oedd y Prif Weinidog yn cael diwrnod da iawn ddydd Iau. Y broblem yw bod y dryswch, boed hynny wedi'i achosi gan wleidyddion Ceidwadol ai peidio, wedi codi o'r datganiadau a wnaethoch yn y cyfarfod hwnnw. Pe baech wedi bod yn glir ac yn bendant bryd hynny, ni fyddech wedi rhoi iddynt y bwledi a ddefnyddiwyd ganddynt heddiw.

Mae'r broblem wedi bodoli ers y dechrau pan gyhoeddwyd yr uno. Mae aelodau o'r gwrthbleidiau wedi gofyn drwy'r amser sut yr oeddech yn mynd i ddelio â'r broblem. Daeth yn glir yn fuan fod diffyg mawr o bosibl yng nghynllun pensiwn yr awdurdod datblygu, ac yr ydym wedi bod yn gofyn yn barhaus sut y byddech yn delio â'r mater i sicrhau nad oedd unigolion ar eu colled. Dywedwyd wrthym dro ar ôl tro nad oedd yn broblem, y gellid delio â'r mater, nad oedd yn broblem fawr ac y byddech yn dod o hyd i ateb. Yr wyf yn siŵr nad yw'r datganiad a wnaethoch heddiw wedi cynnig yr ateb y byddai llawer o'r staff wedi mwynhau ei glywed.

You presented your statement today as if you were giving staff a series of choices. However, in reality, those choices are false. Have you made an analysis of what the year to year comparison would be if a member of the WDA staff wanted to buy into the civil service pension? You must be in a position to be able to predict how many people will want to join the pension scheme in order not to create the kind of problems that Alun Cairns highlighted. You should have done that work behind the scenes. If people are going to have to trade four years of their WDA pension for one year of the civil service pension, they will not do that. However, if the benefits are more evenly balanced, people will, potentially, want to leave the WDA scheme, which then undermines the viability for those who remain within that scheme. What analysis have you done of the number of people who may want to transfer over?

It is difficult enough in this day and age to persuade people to invest in their future. We know that we are heading for a time bomb, with so many people not investing in pensions to provide for themselves in old age. Confusing issues such as this create concerns about risks and make people worry that they might not get out of a scheme what they have contributed to it. This adds to the feeling among the wider population that it is not worth their while to play the pensions game and to invest in their future. We, as Assembly Members, are incredibly fortunate in terms of the scheme that we have. We should be ensuring that all public servants are protected and given the opportunity to secure for themselves a decent old age.

The First Minister: I referred, as Glyn Davies would confirm, to the fact that the staff notice had just gone out to all members of staff, namely all civil servants that work for us and all the staff of the ASPBs. I specifically referred to that as containing all the specific details, as Glyn and, I am sure, all the other committee Chairs who were present, will confirm. That refers to the option arrangement and the availability of financial advice. It is not possible for me, in the absence of that independent financial

Yr oeddech yn cyflwyno eich datganiad heddiw fel pe baech yn rhoi cyfres o opsiynau i'r staff. Ond, mewn gwirionedd, mae'r opsiynau hynny'n ffug. A ydych wedi gwneud unrhyw ddadansoddiad o beth fyddai'r gymhariaeth o flwyddyn i flwyddyn pe bai ar aelod o staff yr awdurdod datblygu eisiau bod yn rhan o gynllun pensiwn y gwasanaeth sifil? Mae'n rhaid eich bod yn gallu rhagweld faint o bobl a fydd am ymuno â'r cynllun pensiwn er mwyn osgoi'r math o broblemau y tynnodd Alun Cairns sylw atynt. Dylech fod wedi gwneud y gwaith hwnnw yn y dirgel. Os yw pobl yn mynd i orfod ffeirio pedair blynedd o'u pensiwn gyda'r awdurdod datblygu am flwyddyn o bensiwn y gwasanaeth sifil, ni fyddant yn gwneud hynny. Fodd bynnag, os yw'r buddion yn fwy cytbwys, bydd ar bobl efallai eisiau gadael cynllun yr awdurdod, sydd wedyn yn tanseilio'i hyfywedd i'r rhai sy'n aros ynddo. Pa ddadansoddiad yr ydych wedi'i wneud o nifer y bobl sydd efallai am drosglwyddo?

Mae'n ddigon anodd y dyddiau hyn perswadio pobl i fuddsoddi yn eu dyfodol. Gwyddom fod bom yn tician o'n blaenau, gan fod cynifer o bobl yn dewis peidio â buddsoddi mewn pensiynau i'w cadw yn eu henaint. Mae materion dryslyd fel hyn yn creu pryderon ynghylch risgiau ac yn gwneud i bobl boeni na fyddant efallai'n derbyn gan gynllun yr hyn y maent wedi'i gyfrannu ato. Mae hyn yn dwysáu'r teimlad yn y boblogaeth ehangach nad yw'n werth chweil iddynt chwarae'r gêm bensiynau a buddsoddi yn eu dyfodol. Yr ydym ni, fel Aelodau o'r Cynulliad, yn hynod ffodus o ran y cynllun sydd gennym. Dylem fod yn sicrhau bod ein holl weision sifil yn cael eu gwarchod ac yn cael y cyfle i fwynhau henoed iawn.

Y Prif Weinidog: Cyfeiriais, fel y gallai Glyn Davies gadarnhau, at y ffaith bod yr hysbysiad i'r staff wedi'i roi i bob aelod o'r staff, sef yr holl weision sifil sy'n gweithio i ni a holl staff y cyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad. Cyfeiriais yn benodol at y ffaith ei fod yn cynnwys yr holl fanylion penodol, fel y byddai Glyn ac, yr wyf yn siŵr, yr holl Gadeiryddion pwyllgorau eraill a oedd yn bresennol, yn cadarnhau. Mae hynny'n cyfeirio at y trefniadau i gynnig opsiynau a chyngor ariannol. Nid yw'n bosibl i mi, heb y

advice, to be able to calculate how many people we think will choose to change over. I will give an example: we think that those with short service in the WDA would find it beneficial to change, but those with a short expected period left in the civil service may well not find it beneficial to transfer over. There will be many people in between who will require independent financial advice. They have not had that advice as yet, but we are making it available.

That has all been agreed between the management and the unions. I think that I was wrong in my answer to Glyn last week when I said that the staff notice was sent by Sir Jon Shortridge as the Permanent Secretary. I hope that he does not read this the wrong way, but it is stronger than that in that it was jointly agreed by the management and the unions. You will have heard Howard Marshall, the relevant specialist Unison officer, talking about it this morning. It was a union and management staff notice that was sent on 31 January, which refers to the options, how we are going to deal with the deficit and so on.

You said that we have said that it is not a big deal. I challenge you on that, Kirsty. I think that you are tending towards the Alun-Cairns-hysterical-approach to this. We have said that it is manageable, but we have never said that it is not a big deal. It is a big deal and it is difficult. However, you can compare it with other public sector pension deficits in local government, because, unfortunately, it is not unusual now to find that. Everyone must work and we have been putting money into local government to cover the need for it, as an employer, to make up the deficit on quite a widespread basis in pension schemes.

The days when people could move freely between the civil service, the NHS, the nationalised industries, local government, the teaching and university pension schemes as well as a variety of pension schemes available in the civil service, contributory and non-contributory, are gone. These days are much more complicated because the first

cyngor ariannol annibynnol hwnnw, gyfrifo faint o bobl a fydd, yn ein barn ni, yn dewis trosglwyddo. Rhoddaf enghraifft ichi: credwn y byddai rhai sydd heb weithio'n hir i'r awdurdod datblygu yn gweld ei bod yn fuddiol newid, ond mae'n eithaf posibl na fydd y rhai sydd heb lawer o flynyddoedd ar ôl yn y gwasanaeth sifil yn barnu y byddai'n fuddiol iddynt drosglwyddo. Bydd llawer o bobl yn y canol y bydd angen cyngor ariannol annibynnol arnynt. Nid ydynt wedi derbyn y cyngor hwnnw eto, ond yr ydym yn ei gynnis iddynt.

Mae'r ochr reoli a'r undebau'n gytûn ar hyn oll. Credaf fy mod wedi rhoi ateb anghywir i Glyn yr wythnos diwethaf pan ddywedais fod yr hysbysiad i'r staff wedi'i anfon gan Syr Jon Shortridge fel yr Ysgrifennydd Parhaol. Gobeithio na fydd yn camdeall hyn, ond mae'n gryfach na hynny gan fod yr ochr reoli a'r undebau wedi cytuno arno. Byddwch wedi clywed Howard Marshall, y swyddog arbenigol perthnasol yn Unsain, yn siarad amdano bore heddiw. Hysbysiad i'r undeb a'r staff rheoli oedd hwn a anfonwyd ar 31 Ionawr, sy'n cyfeirio at yr opsiynau, sut y byddwn yn delio â'r diffyg ac yn y blaen.

Dywedasoch ein bod wedi dweud nad yw hyn yn broblem fawr. Fe'ch heriaf ar hynny, Kirsty. Credaf eich bod yn tueddu i ddilyn agwedd orffwyll Alun Cairns ar hyn. Yr ydym wedi dweud y gallwn ddelio â'r peth, ond ni ddywedasom erioed nad yw'n broblem fawr. Mae hyn yn broblem fawr ac mae'n anodd. Fodd bynnag, gallwch gyharu hyn â'r diffyg a welir mewn pensiynau sector cyhoeddus eraill mewn llywodraeth leol, oherwydd, yn anffodus, nid yw hynny'n anarferol erbyn hyn. Rhaid i bawb weithio ac yr ydym wedi bod yn rhoi arian i lywodraeth leol ar gyfer yr angen iddi, fel cyflogwr, wneud iawn am ddiffyg pur eang mewn cynlluniau pensiwn.

Mae'r dyddiau pan allai pobl symud yn rhwydd rhwng cynlluniau pensiwn y gwasanaeth sifil, y GIG, y diwydiannau gwladol, llywodraeth leol, athrawon a phrifysgolion yn ogystal ag amrywiaeth o gynlluniau pensiwn a oedd ar gael yn y gwasanaeth sifil, yn rhai cyfrannol ac anghyfrannol, wedi mynd. Mae'r dyddiau

question that everyone asks is, 'Is there a deficit in your pension scheme?'. In the old days, no-one bothered asking that because there never seemed to be a deficit and people could move fairly freely. People are much more careful now. However, we have never said that this is not a big deal; it is a tricky one, and we have known about it since July. We have kept staff updated, but only when they have had independent financial advice will we be able to start to estimate how many people will wish to transfer, how many will wish to freeze and how many will be giving serious consideration to the delicate balance between coming into the civil service pension scheme, staying out or asking for their reckonable years to be taken over by the civil service pension scheme but with a reduction commensurate to the deficit.

Rhodri Glyn Thomas: Fel un a oedd yn gwrando amoch ddydd Iau diwethaf ym Mae Colwyn yn ateb cwestiwn Glyn Davies, gallaf eich sicrhau bod ein dealltwriaeth o'r mater hwn bryd hynny yn dra gwahanol i'r hyn ydyw yn sgîl eich datganiad yr wythnos hon. Dywedasoch yn glir yn y cyfarfod hwnnw y byddai staff y WDA yn aros o fewn eu cynllun pensiwn presennol. Dyna oedd eich union eiriau, ond yr ydych yn awr yn cydnabod y bydd ganddynt gyfle i drosglwyddo i gynllun pensiwn y gwasanaeth sifil, sydd yn well o lawer. Mae'n rhaid i chi ragdybio felly y bydd y mwyafrif helaeth ohonynt—os nad oes ganddynt reswm dros beidio â gwneud hyn—am drosglwyddo. Y cyfan yr ydych yn gallu ei ddweud wrthym yw bod hyn, erbyn hyn, yn broblem fawr.

Cytunaf â Kirsty Williams eich bod wedi rhoi'r argraff nad oedd hyn yn broblem fawr a bod modd ei rheoli. Yr ydych yn cydnabod yn awr fod canfod yr arian sy'n brin yn broblem fawr. A wnewch chi gydnabod eich bod yn dweud dau beth gwahanol, oherwydd dywedasoch yn glir brynhawn dydd Iau diwethaf y byddai'r staff yn aros yn eu cynllun pensiwn cyfredol, ond dywedwch yn awr fod modd iddynt ymuno â chynllun pensiwn y gwasanaeth sifil? Mae hwnnw'n newid, ac mae goblygiadau mawr i'r newid hwnnw. Mae'n amlwg nad oedd dydd Iau diwethaf yn un o'ch dyddiau gorau chi.

hyn yn llawer mwy cymhleth oherwydd y cwestiwn cyntaf y mae pawb yn ei ofyn yw, 'A oes diffyg yn eich cynllun pensiwn?'. Yn yr hen ddyddiau, nid oedd neb yn trafferthu gofyn a gallai pobl symud yn weddol rwydd. Mae pobl yn llawer mwy gofalus erbyn hyn. Fodd bynnag, nid ydym erioed wedi dweud nad yw hyn yn broblem fawr; mae'n fater anodd, ac yr ydym yn gwybod amdano ers mis Gorffennaf. Yr ydym wedi parhau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r staff, ond dim ond pan fyddant wedi cael cyngor ariannol annibynnol y byddwn yn gallu dechrau amcangyfrif faint o bobl sydd am drosglwyddo, faint fydd am rewi a faint fydd yn pwysu a mesur yn ofalus rhwng dod i mewn i gynllun pensiwn y gwasanaeth sifil, aros allan neu ofyn i gynllun pensiwn y gwasanaeth sifil gymryd drosodd y blynyddoedd sydd ganddynt sy'n cyfrif ond gyda gostyngiad sy'n cyfateb i'r diffyg.

Rhodri Glyn Thomas: As someone who was listening to you answering Glyn Davies's question last Thursday in Colwyn Bay, I can assure you that our understanding of this matter at that time is quite different to what it is in light of your statement this week. You said quite clearly at that meeting that the WDA staff would stay within their current pension scheme. Those were your exact words, but you now acknowledge that they will have the opportunity to transfer to the civil service pension scheme, which is a much better scheme. You must assume that the vast majority—unless they have reason for not doing so—will want to transfer. All you can tell us is that this is, by now, a big problem.

I agree with Kirsty Williams that you have given the impression that this was not a major problem and that it was possible to control it. You now admit that finding the money to make up the deficit in the pension scheme is a big problem. Will you acknowledge that you have said two different things, because you stated clearly last Thursday that the staff would remain in their current pension scheme, and you are now saying that they can join the civil service pension scheme? That is a change, and there are significant implications to that change. It is obvious that last Thursday was not one of your best days.

Y Prif Weinidog: Yr ydych yn hollti blew unwaith eto, Rhodri Glyn. Fel y dywedais yn gynt, ni chefais fy holi gan Glyn ynghylch a fyddai gan bobl sy'n rhan o gronfa bensiwn y WDA yr hawl i ymuno â phrif gynllun y gwasanaeth sifil. Yr oedd Glyn yn sôn am y diffyg, sut y byddem yn ymdrin â hynny, ac a fyddem yn dod o hyd i'r arian er mwyn dileu'r diffyg. Dywedais yn glir fod y manylion yn y llythyr a anfonwyd at y staff ac at weision sifil. Pe bai Glyn wedi gofyn mewn mwy o fanylder ynghylch unrhyw eithriadau, byddem wedi ateb, ond, fel y dywedais heddiw, yr ydym yn disgwyl i fwyafrif staff y WDA aros yn eu cynllun cyfredol. Mae hynny'n cyfleu'r hyn a ddywedwyd yn yr e-bost a anfonwyd at ein staff ni ac at staff y cwangos a fydd yn uno â Llywodraeth y Cynulliad ar 1 Ebrill.

Gellir ymuno â chynllun pensiwn y Cynulliad, ar yr amod ein bod yn rhoi cyngor ariannol annibynnol i'r staff fel y gallant wneud y dewis sydd orau iddynt hwy. Nid ydym yn chwarae gemau gyda morâl y staff fel yr ydych chi'n gwneud, Rhodri Glyn, felly mae'n bwysig bod pawb yn deall nad oes gwahaniaeth rhwng yr hyn a ddywedais yr wythnos diwethaf a'r wythnos hon. Yr ydym yn disgwyl i'r mwyafrif, mewn egwyddor, aros yn y cynlluniau cyfredol, ond, fel y dywedaisom yn y llythyr a aeth at bob aelod o'r staff, mae ganddynt yr hawl i ymuno â chynllun y gwasanaeth sifil, ond nid ydym yn disgwyl i hynny fod yn addas ar gyfer amgylchiadau ariannol mwyafrif staff y WDA.

3.50 p.m.

Glyn Davies: First Minister, you really do have what we in mid Wales used to call a brass neck, in that you are accusing others of creating uncertainty when it is you that created the uncertainty. At the Panel of Chairs meeting last week, you answered questions of mine; and it is your answers, not my questions, that created the uncertainty. In fact, your answers created so much uncertainty that your own office felt it necessary to issue a clarification later that day. Your statement totally contradicted everything that I was told by many people after the meeting that your Minister for

The First Minister: You are splitting hairs once again, Rhodri Glyn. As I said earlier, Glyn did not ask me whether people within the WDA pension scheme would be entitled to transfer to the main civil service scheme. Glyn was talking about the deficit, what we were going to do about it and whether we would find the funding to cancel it out. I said clearly that all the details were in the letter sent to staff and civil servants. Had Glyn asked me in greater detail about any exceptions, then I would have replied, but, as I have said today, we expect the majority of WDA staff to remain within their current scheme. This reflects the contents of the e-mail that was sent to our staff and to the staff of the quangos that will merge with the Assembly Government on 1 April.

Joining the Assembly pension scheme is permitted, provided that we provide staff with independent financial advice that enables them to make the best choice for them. We are not playing games with staff morale, as I believe that you are doing, Rhodri Glyn, therefore it is important that everyone understands that there is no difference between what I said last week and this week. We expect that the majority of staff will, in principle, remain within their current schemes, but, as we said in the letter that went to each staff member, joining the civil service pension scheme is an option, but we do not expect that to suit the financial position of the majority of WDA staff.

Glyn Davies: Brif Weinidog, mae gennych yn wir yr hyn yr oeddem ni yn y canolbarth yn arfer ei alw'n dalcen tas, gan eich bod yn cyhuddo eraill o greu ansicrwydd er mai chi a greodd yr ansicrwydd hwnnw. Yng nghyfarfod Panel y Cadeiryddion yr wythnos diwethaf, atebasoch gwestiynau gennyf; a'ch atebion chi, nid fy nghwestiynau i, a greodd yr ansicrwydd. Yn wir, creodd eich atebion gymaint o ansicrwydd nes i'ch swyddfa chi deimlo bod yn rhaid cyhoeddi eglurhad yn ddiweddarach y diwrnod hwnnw. Yr oedd eich datganiad yn gwbl groes i bopeth yr oedd eich Gweinidog dros Ddatblygu

Economic Development and Transport had been saying.

First Minister, why can you not be straight with the people of Wales? If you are going to make a u-turn, why can you not just say that you have looked at the matter again? We all understand the financial difficulties. Why not just be straight?

The Presiding Officer: Order. I am not happy with the use of the expression 'straight with the people of Wales'.

Glyn Davies: Why can you not be rather more open, First Minister, so that people can understand what you are saying? Thank you, Llywydd.

I have two questions. What assessment have you made of the number of WDA staff who will transfer, and, perhaps more importantly, what assessment have you made of what happens to the pension fund of Rhondda Cynon Taf if the majority of those members transfer? Are you creating your own ASW?

The First Minister: Well, Glyn, perhaps in your preamble, before you finally got around to your question, you could have confirmed or rebutted what I said about the questions that you asked me and about my answers. I would have been grateful if you could have confirmed that I referred to the staff notice that had gone out two days before, which contained all the details. I think that you could have confirmed—or, if you had felt it within you, rebutted, although I think that you would have had a struggle—that your questions were not about whether there were any exceptions. Your questions were about how to handle the deficit of £38 million.

You came across as the great expert because of your past experience as Mr Quango in mid Wales. You starred in the famous film, 'Last Quango in Powys'. You were trying to talk down to me and my civil servants, saying that you knew all about quangos, and that we did not; that you knew all about the pension schemes, and that we did not; that you would have known what to do about the deficit and

Economaidd a Thrafnidiaeth wedi bod yn ei ddweud, yn ôl llawer o bobl ar ôl y cyfarfod.

Brif Weinidog, pam na allwch fod yn onest gyda phobl Cymru? Os ydych yn mynd i wneud tro pedol, pam na allwch ddweud eich bod wedi edrych ar y mater eto? Yr ydym i gyd yn deall yr anawsterau ariannol. Pam na wnewch fod yn onest?

Y Llywydd: Trefn. Nid wyf yn fodlon ar yr ymadrodd 'yn onest gyda phobl Cymru'.

Glyn Davies: Pam na allwch fod dipyn yn fwy agored, Brif Weinidog, fel bod pobl yn deall beth yr ydych yn ei ddweud? Diolch, Lywydd.

Mae gennyf ddau gwestiwn. Pa asesiad yr ydych wedi'i wneud o nifer y staff yn y WDA a fydd yn trosglwyddo, ac, yn bwysicach efallai, pa asesiad yr ydych wedi'i wneud o'r hyn a fydd yn digwydd i gronfa bensiwn Rhondda Cynon Taf os bydd y mwyafrif o'r aelodau hynny yn trosglwyddo? A ydych yn creu eich ASW eich hun?

Y Prif Weinidog: Wel, Glyn, efallai y byddech, yn eich rhagymadrodd, cyn ichi ddod at eich cwestiwn o'r diwedd, wedi gallu cadarnhau neu wrth-ddweud yr hyn a ddywedais am y cwestiynau a ofynasoch imi ac am fy atebion. Byddwn wedi bod yn ddiolchgar pe gallech fod wedi cadarnhau imi gyfeirio at yr hysbysiad i'r staff a oedd wedi mynd allan ddeuddydd ynghynt, a oedd yn cynnwys y manylion i gyd. Credaf y gallech fod wedi cadarnhau—neu, os mai felly yr oeddech yn teimlo, gallech fod wedi gwrth-ddweud, er y tybiaf y byddech wedi cael trafferth—nad oedd eich cwestiynau'n ymwneud ag a oedd unrhyw eithriadau. Yr oedd eich cwestiynau'n ymwneud â sut i ddelio â'r diffyg o £38 miliwn.

Rhoesoch yr argraff eich bod yn arbenigwr o fri oherwydd eich profiad yn y gorffennol fel Mr Cwango'r Canolbarth. Buoch yn serenau yn y ffilm enwog, 'Last Quango in Powys'. Yr oeddech yn ceisio siarad yn nawddoglyd â mi a'm gweision sifil, gan ddweud eich bod chi'n gwybod popeth am gwangos, ac nad oeddem ni; eich bod chi'n gwybod popeth am gynlluniau pensiwn, ac nad oeddem ni; y

written a White Paper, and not gone plunging in like this. You did not ask me about exceptions, as I am sure you would confirm. I had to supply the information about the contents of the staff letter. You said that my office issued a clarification of what I said. It issued a rebuttal of what you had been claiming, because of your attempts to stir up trouble among the staff.

Let us accept that this has gone remarkably smoothly. We know about the pension deficit problem, and I have never said that it is not a big deal. I have said that it is manageable. It is manageable over a number of years, as are many other problems with public authorities. If you want an example of a politician who is more interested in stirring up fears, take your last sentence, Glyn, and have a rethink. You said:

‘Are you creating your own ASW?’

Do you really mean that, Glyn, or do you agree with me that that falls into precisely the category that I was having a go at in my opening sentence when I said that you have got to have some consideration for the morale of the staff? Stirring up concerns and worries among the staff and their families that this is not a manageable problem is something to be deprecated. When you read the Record of Proceedings tomorrow you will see that you are guilty of that offence.

Cymeradwyo Gorchymyn Awdurdodau Lleol (Indemniadau ar gyfer Aelodau a Swyddogion) (Cymru) 2006
Approval of the Local Authorities (Indemnities for Members and Officers)
(Wales) Order 2006

The Finance Minister (Sue Essex): I propose that

the National Assembly for Wales:

considers the principle of the Local Authorities (Indemnities for Members and Officers) (Wales) Order 2006 a copy of which was laid in Table Office on 25 January 2006. (NDM2822)

byddech chi wedi gwybod beth i'w wneud ac wedi ysgrifennu Papur Gwyn, ac nid wedi rhuthro i mewn fel hyn. Ni ofynasoch imi am eithriadau, fel yr wyf yn siŵr y byddech yn cadarnhau. Yr oedd yn rhaid imi roi'r wybodaeth am gynnwys y llythyr at y staff. Dywedasoch fod fy swyddfa wedi cyhoeddi eglurhad ar yr hyn a ddywedais. Cyhoeddodd ddatganiad yn gwrthod yr hyn yr oeddech chi wedi bod yn ei honni, oherwydd eich ymdrechion i godi helynt ymysg y staff.

Gadewch inni dderbyn bod hyn wedi mynd yn hynod o hwylus. Gwyddom am broblem y diffyg yn y pensiwn, ac nid wyf erioed wedi dweud nad yw'n broblem fawr. Yr wyf wedi dweud bod modd ymdopi â hyn. Mae modd ymdopi ag ef dros nifer o flynyddoedd, megis llawer o broblemau eraill gydag awdurdodau cyhoeddus. Os ydych am gael enghraifft o wleidydd y mae ganddo fwy o ddiddordeb mewn codi ofn, edrychwch ar eich brawddeg olaf, Glyn, a meddyliwch eto. Dywedasoch:

‘A ydych yn creu eich ASW eich hun?’

A ydych yn golygu hynny o ddifrif, Glyn, neu a ydych yn cytuno â mi fod hynny'n perthyn i'r union gategori yr oeddwn yn ei feirniadu yn fy mrawddeg agoriadol pan ddywedais fod rhaid rhoi rhywfaint o ystyriaeth i forâl y staff? Mae codi pryderon ac ofnau ymysg y staff a'u teuluoedd fod hon yn broblem na ellir ymdopi â hi yn rhywbeth i'w anghymeradwyo. Pan ddarllenwch Gofnod y Trafodion yfory fe welwch eich bod yn euog o'r drosedd honno.

Y Gweinidog Cyllid (Sue Essex): Cynigiaf fod

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

yn ystyried egwyddor Gorchymyn Awdurdodau Lleol (Indemniadau ar gyfer Aelodau a Swyddogion) (Cymru) 2006 y gosodwyd copi ohono yn y Swyddfa Gyflwyno ar 25 Ionawr 2006. (NDM2822)

I propose that

the National Assembly for Wales

1. *considers the report of the Legislation Committee laid in the Table Office and e-mailed to Members on 31 January 2006 in relation to the draft the Local Authorities (Indemnities for Members and Officers) (Wales) Order 2006; and*

2. *approves that the draft the Local Authorities (Indemnities for Members and Officers) (Wales) Order 2006 is made in accordance with:*

a) *the draft laid in the Table Office on 25 January 2006; and*

b) *the memorandum of corrections laid in the Table Office and e-mailed to Members on 31 January 2006; and*

c) *the regulatory appraisal laid in the Table Office and e-mailed to Members on 31 January 2006. (NDM2823)*

The purpose of the order is to clarify the circumstances in which authorities can provide indemnities and insurance cover to their members and officers should they incur personal liabilities arising from the actions or decisions that they may take in the course of their official duties. Changes in the roles of local authorities, and in particular to the community leadership role, have resulted in uncertainty as to when local authorities could provide indemnities or insurance cover to their members and officers. This includes cases where members and officers represent their authorities on external bodies, such as partnership boards and joint venture companies. It also includes guidance on whether authorities can indemnify independent members of standards committees and provides assistance to reimburse the costs that members incur defending themselves against allegations that they have breached the code of conduct or been involved in criminal activities.

There are, however, a number of restrictions

Cynigiaf fod

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

1. *yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 31 Ionawr 2006 ynghylch y Gorchymyn drafft, Gorchymyn Awdurdodau Lleol (Indemniadau ar gyfer Aelodau a Swyddogion) (Cymru) 2006; a*

2. *yn cymeradwyo bod y Gorchymyn drafft, Gorchymyn Awdurdodau Lleol (Indemniadau ar gyfer Aelodau a Swyddogion) (Cymru) 2006 yn cael ei wneud yn unol ag:*

a) *y drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 25 Ionawr 2006; a*

b) *y memorandwm cywiriadau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 31 Ionawr 2006; a*

c) *yr arfarniad rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau ar 31 Ionawr 2006. (NDM2823)*

Pwrpas y gorchymyn hwn yw egluro o dan ba amgylchiadau y gall awdurdodau roi indemniadau a sicrwydd yswiriant i'w haelodau a'u swyddogion pe baent yn wynebu atebolrwydd personol yn deillio o weithredoedd neu benderfyniadau y gallant eu gwneud yn ystod eu dyletswyddau swyddogol. Mae newidiadau yn rolau awdurdodau lleol, ac yn enwedig rôl arweiniad cymunedol, wedi arwain at ansicrwydd ynghylch pryd y gallai awdurdodau lleol roi indemniadau neu sicrwydd yswiriant i'w haelodau a'u swyddogion. Mae hyn yn cynnwys achosion lle y mae aelodau a swyddogion yn cynrychioli eu hawdurdodau ar gyrrff allanol, megis byrddau partneriaeth a chwmnïau cydfenter. Mae hefyd yn cynnwys canllawiau ynghylch a all awdurdodau indemnio aelodau annibynnol pwyllgorau safonau ac mae'n darparu cymorth i ad-dalu'r costau a wynebier gan aelodau wrth amddiffyn eu hunain rhag honiadau eu bod wedi torri'r cod ymddygiad neu wedi ymwneud â gweithgareddau troseddol.

Mae nifer o gyfyngiadau, fodd bynnag, o ran

on the use of that code, but I wish to point out that the Order will apply to all parts of local government, from county borough councils, national parks and fire authorities to community and town councils. For the purpose of this Order, these are called 'the relevant authorities'. Police authorities are covered by their separate Office of the Deputy Prime Minister Order. I am pleased that, during consultation, the Order received widespread support and backing from Welsh local government and its partners, including the insurance industry, and was finalised after extensive consultation with monitoring officers.

Finally, I would like to point out that the Order does not yet cover or include elected mayors. In due course, it is my intention to introduce regulations that will effect the adding of elected mayors to the definition of council members. However, as it stands, we have no elected mayors in Wales.

Michael German: I would like to ask a simple question. We are happy to support these regulations, which are sensible and which give discretion to local authorities to indemnify their officers and their members against the sorts of claims that are often made against them. Given that local authorities often have representatives on a raft of organisations and bodies, do these regulations cover every organisation where there is a local authority representative, or is it simply related to joint venture companies and to bodies such as the fire and police authorities?

The Finance Minister (Sue Essex): It is my understanding that it does that. The guidance says that this includes members or officers acting for the authority under its delegated powers or using their own statutory powers. Therefore, it is my understanding that it does that. However, if it is to the contrary, I will let you know.

defnyddio'r cod hwnnw, ond hoffwn dynnu sylw at y ffaith y bydd y Gorchymyn yn berthnasol i bob rhan o lywodraeth leol, o'r cynghorau bwrdeistref sirol, y parciau cenedlaethol a'r awdurdodau tân hyd at y cynghorau cymuned a'r cynghorau tref. At ddibenion y Gorchymyn hwn, gelwir y rhain yn 'awdurdodau perthnasol'. Ymdrinnir ag awdurdodau'r heddlu gan Orchymyn ar wahân iddynt drwy Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog. Yr wyf yn falch bod y Gorchymyn, yn ystod yr ymgynghoriad, wedi cael cefnogaeth eang gan lywodraeth leol Cymru a'i phartneriaid, gan gynnwys y diwydiant yswiriant, ac iddo gael ei gwblhau ar ei wedd derfynol ar ôl ymgynghori helaeth â'r swyddogion monitro.

Yn olaf, hoffwn dynnu sylw at y ffaith nad yw'r Gorchymyn eto yn ymdrin â meiri etholedig nac yn eu cynnwys. Maes o law, fy mwriad yw cyflwyno rheoliadau a fydd yn golygu bod meiri etholedig yn cael eu hychwanegu at y diffiniad o aelodau cyngor. Fodd bynnag, fel y mae pethau ar hyn o bryd, nid oes gennym feiri etholedig yng Nghymru.

Michael German: Hoffwn ofyn cwestiwn syml. Yr ydym yn falch o gefnogi'r rheoliadau hyn, sy'n synhwyrol ac yn rhoi disgresiwn i awdurdodau lleol i indemnio eu swyddogion a'u haelodau rhag y mathau o hawliadau a wneir yn eu herbyn yn aml. O ystyried bod gan awdurdodau lleol gynrychiolwyr ar lu o sefydliadau a chyrff yn aml, a yw'r rheoliadau hyn yn cynnwys pob sefydliad lle y ceir cynrychiolydd o awdurdod lleol, neu ai dim ond â chwmnïau cyd-fenter a chyrff megis yr awdurdodau tân a heddlu y mae a wnelo?

Y Gweinidog Cyllid (Sue Essex): Yn ôl yr hyn a ddeallaf, mae'n gwneud hynny. Dywed y canllawiau fod hyn yn cynnwys aelodau neu swyddogion sy'n gweithredu ar ran yr awdurdod o dan ei bwerau dirprwyedig neu gan ddefnyddio eu pwerau statudol eu hunain. Felly, yn ôl yr hyn a ddeallaf, mae'n gwneud hynny. Fodd bynnag, os mai'r gwrthwyneb sy'n wir, rhof wybod ichi.

*Cynnig (NDM2822): O blaid 50, Ymatal 0, Yn erbyn 0.
Motion (NDM2822): For 50, Abstain 0, Against 0.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Andrews, Leighton
Barrett, Lorraine
Bates, Mick
Black, Peter
Bourne, Nick
Burnham, Eleanor
Butler, Rosemary
Cairns, Alun
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davidson, Jane
Davies, Andrew
Davies, Glyn
Dunwoody, Tamsin
Essex, Sue
Francis, Lisa
German, Michael
Gibbons, Brian
Graham, William
Gregory, Janice
Griffiths, John
Gwyther, Chris
Hart, Edwina
Hutt, Jane
Idris Jones, Denise
James, Irene
Jones, Alun Ffred
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Jones, Helen Mary
Jones, Laura Anne
Lewis, Huw
Lloyd, Dai
Lloyd, Val
Marek, John
Melding, David
Mewies, Sandy
Morgan, Jonathan
Morgan, Rhodri
Neagle, Lynne
Pugh, Alun
Randerson, Jenny
Ryder, Janet
Sargeant, Carl
Sinclair, Karen
Thomas, Catherine
Thomas, Gwenda
Thomas, Rhodri Glyn
Williams, Brynle
Wood, Leanne

*Derbyniwyd y cynnig.
Motion carried.*

*Cynnig (NDM2823): O blaid 51, Ymatal 0, Yn erbyn 0.
Motion (NDM2823): For 51, Abstain 0, Against 0.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Andrews, Leighton
Barrett, Lorraine
Bates, Mick

Black, Peter
Bourne, Nick
Burnham, Eleanor
Butler, Rosemary
Cairns, Alun
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davidson, Jane
Davies, Andrew
Davies, Glyn
Dunwoody, Tamsin
Essex, Sue
Francis, Lisa
German, Michael
Gibbons, Brian
Graham, William
Gregory, Janice
Griffiths, John
Gwyther, Chris
Hart, Edwina
Hutt, Jane
Idris Jones, Denise
James, Irene
Jones, Alun Ffred
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Jones, Helen Mary
Jones, Laura Anne
Lewis, Huw
Lloyd, Dai
Lloyd, Val
Marek, John
Melding, David
Mewies, Sandy
Morgan, Jonathan
Morgan, Rhodri
Neagle, Lynne
Pugh, Alun
Randerson, Jenny
Ryder, Janet
Sargeant, Carl
Sinclair, Karen
Thomas, Catherine
Thomas, Gwenda
Thomas, Rhodri Glyn
Williams, Brynle
Williams, Kirsty
Wood, Leanne

*Derbyniwyd y cynnig.
Motion carried.*

**Dadl Plaid Leiafrifol (Y Democratiaid Rhyddfrydol)
Minority Party Debate (The Liberal Democrats)**

**Cymeradwyo Cyffuriau
Drugs Approval**

Motion (NDM2821): to propose that

Cynnig (NDM2821): cynnig bod

1. the National Assembly calls for the process for approving new drugs to be speeded up so that they become available more quickly to patients in Wales;

1. y Cynulliad Cenedlaethol yn galw am gyflymu'r broses o gymeradwyo cyffuriau newydd fel eu bod ar gael yn gynt i gleifion yng Nghymru;

2. *the National Assembly requires the Welsh Assembly Government to commission an urgent study to report into methods by which new drugs can be made available more quickly.*

3. *The study should include the full cost implications in the short, medium and longer term and an examination of the Scottish drugs approval process.*

Amendment 1 in the name of Kirsty Williams. Add a new point at the end of the motion:

welcomes the news that, after receiving advice from the south-east Wales and north Wales cancer networks, local health boards in these areas have agreed to prescribe Herceptin to treat early-stage breast cancer but regrets that this is not the case throughout the whole of Wales.

The Presiding Officer: I have selected amendment 1 in the name of Kirsty Williams.

Jenny Randerson: I propose that

1. *the National Assembly calls for the process for approving new drugs to be speeded up so that they become available more quickly to patients in Wales;*

2. *the National Assembly requires the Welsh Assembly Government to commission an urgent study to report into methods by which new drugs can be made available more quickly.*

3. *The study should include the full cost implications in the short, medium and longer term and an examination of the Scottish drugs approval process. (NDM2821)*

I propose amendment 1 in the name of Kirsty Williams. Add a new point at the end of the motion:

welcomes the news that, after receiving advice from the south-east Wales and north Wales cancer networks, local health boards in these areas have agreed to prescribe Herceptin to treat early-stage breast cancer but regrets that this is not the case

2. *y Cynulliad Cenedlaethol yn mynnu bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn comisiynu astudiaeth frys i adrodd ar ddulliau ar gyfer darparu cyffuriau newydd yn gynt.*

3. *Dylai'r astudiaeth gynnwys y goblygiadau cost yn llawn yn y tymor byr, y tymor canolig a'r hirdymor ac archwiliad o broses cymeradwyo cyffuriau'r Alban.*

Gwelliant 1 yn enw Kirsty Williams. Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

yn croesawu'r newyddion, ar ôl derbyn cyngor gan rwydweithiau canser y deddwyrain a'r gogledd, fod y byrddau iechyd lleol yn yr ardaloedd hyn wedi cytuno i roi Herceptin i drin canser y fron yn ei gamau cynnar ond yn gresynu nad dyna'r sefyllfa ledled Cymru.

Y Llywydd: Yr wyf wedi dethol gwelliant 1 yn enw Kirsty Williams.

Jenny Randerson: Cynigiau fod

1. *y Cynulliad Cenedlaethol yn galw am gyflymu'r broses o gymeradwyo cyffuriau newydd fel eu bod ar gael yn gynt i gleifion yng Nghymru;*

2. *y Cynulliad Cenedlaethol yn mynnu bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn comisiynu astudiaeth frys i adrodd ar ddulliau ar gyfer darparu cyffuriau newydd yn gynt.*

3. *Dylai'r astudiaeth gynnwys y goblygiadau cost yn llawn yn y tymor byr, y tymor canolig a'r hirdymor ac archwiliad o broses cymeradwyo cyffuriau'r Alban. (NDM2821)*

Cynigiau welliant 1 yn enw Kirsty Williams. Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

yn croesawu'r newyddion, ar ôl derbyn cyngor gan rwydweithiau canser y deddwyrain a'r gogledd, fod y byrddau iechyd lleol yn yr ardaloedd hyn wedi cytuno i roi Herceptin i drin canser y fron yn ei gamau cynnar ond yn gresynu nad dyna'r sefyllfa

throughout the whole of Wales.

ledled Cymru.

*Daeth y Dirprwy Lywydd i'r Gadair am 3.59 p.m.
The Deputy Presiding Officer took the Chair at 3.59 p.m.*

I want to make it clear from the outset that this motion is about a great deal more than whether or not Herceptin should be made available to those in the early stages of breast cancer. Indeed, Herceptin is in some ways a difficult case, as it has not yet been submitted for licensing for this specific use. This motion is about the whole process of drug licensing and approval; a process that has led to increasing frustration among many because of the lengthy delays in getting approval. Professor Tim Maughan, who specialises in the treatment of colorectal cancer, has said that what we need is for the National Institute for Health and Clinical Excellence decision to come at the same time as the licensing decision, or within a very short period of that.

This is a complex area. Briefly, the drug licensing is done by the Medicines and Healthcare Products Regulatory Agency. Once licensed, the drug can be prescribed by doctors. However, some local health boards in Wales do not allow new drugs to be prescribed until NICE issues guidance. Its recommendations are based on both clinical effectiveness and economic evidence. However, this economic evidence is narrow in its approach, effectively taking into account only the cost to the national health service.

4.00 p.m.

In Wales, we have a triple lock that we have to undo in many cases before patients can get new drugs. Theoretically, because we have the all-Wales medicine strategy group, drugs should be made available more quickly because the group provides interim recommendations prior to the publication of NICE guidelines. However, it does not do so if NICE guidelines are expected within 18 months, which is quick in the geological time usually taken by NICE.

Yr wyf am ei gwneud yn glir o'r dechrau fod a wnelo'r cynnig hwn â llawer mwy na'r cwestiwn a ddylai Herceptin fod ar gael i'r rhai sydd â chanser y fron yn ei gamau cynnar ai peidio. Yn wir, mae Herceptin yn achos anodd mewn rhai ffyrdd, gan nad yw eto wedi cael ei gyflwyno i gael trwydded ar gyfer y defnydd penodol hwn. Mae a wnelo'r cynnig hwn â holl broses trwyddedu a chymeradwyo cyffuriau; proses sydd wedi arwain at rwystredigaeth gynyddol ymysg llawer oherwydd yr oedi hir cyn cael cymeradwyaeth. Mae'r Athro Tim Maughan, sy'n arbenigo mewn trin canser y colon a'r rhefr, wedi dweud mai'r hyn sydd ei angen arnom yw bod penderfyniad y Sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd a Rhagoriaeth Glinigol yn cyrraedd yr un pryd â'r penderfyniad trwyddedu, neu ymhen ychydig iawn wedi hynny.

Mae hwn yn faes cymhleth. Yn fyr, yr Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd sy'n trwyddedu cyffuriau. Ar ôl iddo gael ei drwyddedu, gall y cyffur gael ei ragnodi gan feddygon. Fodd bynnag, nid yw rhai byrddau iechyd lleol yng Nghymru yn caniatáu rhagnodi cyffuriau newydd hyd nes i NICE gyhoeddi canllawiau. Seilir ei argymhellion ar effeithiolrwydd clinigol a thystiolaeth economaidd. Fodd bynnag, mae'r dystiolaeth economaidd hon yn gul ei therfynau, gan roi ystyriaeth mewn gwirionedd i'r gost i'r gwasanaeth iechyd gwladol a dim mwy.

Yng Nghymru, mae gennym glo triphlyg y mae'n rhaid inni ei ddad-wneud mewn sawl achos cyn y gall cleifion gael cyffuriau newydd. Yn ddamcaniaethol, oherwydd bod gennym grŵp strategaeth meddygaeth Cymru gyfan, dylai cyffuriau fod ar gael ynghynt oherwydd bod y grŵp yn gwneud argymhellion interim cyn i ganllawiau NICE gael eu cyhoeddi. Ni wna hynny, fodd bynnag, os disgwylir canllawiau NICE cyn pen 18 mis, ac mae hynny'n gyflym yn y cyfnod daearegol a gymer NICE fel arfer.

Scotland has a different system. The Scottish Medicines Consortium advises on the clinical and cost-effectiveness of all newly licensed medicines. The consortium usually makes up its mind within 14 weeks. Compare that with the 18 months of the NICE timescale. That is the reason why we believe we need to look at the Scottish system. Even with the new, swifter NICE process applying in only exceptional cases, it will still take a lot longer to get new drugs approved in Wales and England than it takes in Scotland. Here is the radical thought: maybe we could join the Scots in having a joint approval process.

We also believe that NICE takes an overly narrow view of cost-effectiveness. The true costs of ill health go well beyond the impact on the NHS budget. Take a young woman with cancer, for example, who has young children. She is likely to have to give up work. It may well be that her partner also has to give up work to look after the children. In the case of a single-parent family, her children may even have to go into care. It was put to me by a senior member of staff at Velindre Hospital that buying this woman even two or three years' extra life could mean that her children were old enough not to be taken into care on her death, or that her partner would be able to juggle work and parental duties and so avoid going onto benefit. You therefore produce significant savings to the economy and the public sector as a whole against the raw cost of the drugs.

Oncologists tell me that it may cost approximately £20,000 or £30,000 per year to administer Herceptin, but that has to be balanced against alternative and less successful interventions which can cost up to £30,000 per year.

The Minister has made much in recent days of the potential dangers of the fast approval

Mae gan yr Alban system wahanol. Mae Consortiwm Meddyginiaethau'r Alban yn cynghori ynghylch effeithiolrwydd clinigol a chosteffeithiolrwydd yr holl feddyginiaethau sy'n cael eu trwyddedu o'r newydd. Mae'r consortiwm fel arfer yn gwneud ei benderfyniad cyn pen 14 wythnos. Cymharwch hyn gydag amserlen 18 mis NICE. Dyna'r rheswm paham y credwn fod angen inni edrych ar system yr Alban. Hyd yn oed gyda phroses newydd, gyflymach NICE a weithredir mewn achosion eithriadol yn unig, bydd yn dal i gymryd mwy o amser i gymeradwyo cyffuriau newydd yng Nghymru a Lloegr nag a gymer yn yr Alban. Dyma'r syniad radical: efallai y gallem ymuno â'r Albanwyr drwy gael proses gymeradwyo ar y cyd.

Credwn hefyd fod agwedd NICE at gost-effeithiolrwydd yn rhy gul. Mae gwir gostau afiechyd yn mynd ymhell y tu hwnt i'r effaith ar gyllideb y gwasanaeth iechyd gwladol. Cymwrwch fenyw ifanc sy'n dioddef gan ganser, er enghraifft, sydd â phlant ifanc. Mae'n debygol o orfod rhoi'r gorau i'w gwaith. Mae'n ddigon posibl y bydd yn rhaid i'w gŵr hefyd roi'r gorau i'w waith i ofalu am y plant. Yn achos teulu un rhiant, mae'n bosibl y byddai'n rhaid i'w phlant fynd i gael gofal hyd yn oed. Awgrymodd uwch aelod o'r staff yn Ysbyty Felindre wrthyf y byddai prynu dwy neu dair blynedd o fywyd ychwanegol i'r fenyw hon yn gallu golygu bod ei phlant yn ddigon hen fel na fyddai'n rhaid iddynt fynd i gael gofal pan fyddai farw, neu y byddai ei phartner yn gallu cyfuno ei ddyletswyddau gwaith a'i ddyletswyddau fel rhiant ac felly'n osgoi gorfod dibynnu ar fudd-daliadau. Yr ydych felly yn sicrhau arbedion sylweddol i'r economi a'r sector cyhoeddus yn ei gyfanrwydd o'i gymharu â chost y cyffuriau'n unig.

Dywed oncolegwyr wrthyf y gallai gostio tua £20,000 neu £30,000 y flwyddyn i roi Herceptin, ond rhaid i hynny gael ei gydbwysu yn erbyn dulliau amgen a llai llwyddiannus a all gostio hyd at £30,000 y flwyddyn.

Mae'r Gweinidog wedi cyfeirio llawer yn ystod y dyddiau diwethaf at beryglon posibl

of drugs. To be clear, we are not asking for a drugs free-for-all. We want a more efficient, thorough and swift procedure that looks at the true costs of ill health in an holistic manner. The Minister will undoubtedly point out that the all-Wales medicine strategy group is already reviewing its procedures, and I will return to that matter at the end.

To be responsive, the system has to be better funded. NICE has suffered from recent cutbacks; 13 out of 15 appraisals for cancer treatments currently under investigation have been delayed and, in 10 of these cases, these delays were a direct result of funding cutbacks.

I acknowledge that the Minister has a difficult position to hold on the current Herceptin row. The manufacturers have not yet applied for the licence for use in the early stages of breast cancer. It is important to emphasise that Herceptin is effective in only one in five women who are HER2 positive, but we need to remember that it has been licensed since 2002 for use in the later stages of breast cancer. In fact, the first UK Herceptin patient was at Velindre Hospital in Cardiff in 1997. Herceptin is in use throughout North America for the early stages of breast cancer, so it is not an unknown drug in unknown circumstances. Even the Minister must acknowledge that the current situation on Herceptin is a mess. After all, NICE was supposed to overcome the postcode lottery.

Cardiff Local Health Board and several others have made a brave decision to go ahead with prescribing Herceptin ahead of the licence being granted. It makes them all the braver because they all suffer from severe financial difficulties. However, all that they have done is created a new postcode lottery. If you live in the north Wales or south-east Wales cancer network regions, you will get Herceptin for early breast cancer, but not if you live in south-west Wales.

cymeradwyo cyffuriau'n gyflym. I fod yn glir, nid ydym yn gofyn am sefyllfa lle y mae cyffuriau ar gael yn rhwydd i bawb yn gyffredinol. Mae arnom eisiau gweithdrefn fwy effeithlon, trylwyr a chyflym sy'n edrych ar wir gostau afiechyd mewn modd cyfannol. Bydd y Gweinidog, heb os, yn tynnu sylw at y ffaith fod grŵp strategaeth meddygaeth Cymru gyfan eisoes yn adolygu ei weithdrefnau a dychwelaf at y mater hwn ar y diwedd.

I fod yn ymatebol, rhaid ariannu'r system yn well. Mae NICE wedi dioddef yn sgîl toriadau yn ddiweddar; mae oedi wedi bod gyda 13 o'r 15 arfarniad ar gyfer triniaethau canser yr ymchwilir iddynt ar hyn o bryd ac, mewn 10 o'r achosion hyn, yr oedd yr oedi hwn o ganlyniad uniongyrchol i'r toriadau mewn cyllid.

Cydnabyddaf fod gan y Gweinidog sefyllfa anodd ei chynnal ynghylch y ffræ bresennol ynghylch Herceptin. Nid yw'r gweithgynhyrchwyr eto wedi ymgeisio am drwydded i'w ddefnyddio yng nghanau cynnar canser y fron. Mae'n bwysig pwysleisio nad yw Herceptin ond yn effeithiol ar gyfer un o bob pump o fenywod sy'n bositif o ran HER2, ond rhaid i ni gofio ei fod wedi ei drwyddedu ers 2002 i'w ddefnyddio yn ystod camau diweddarach canser y fron. Yn wir, yr oedd claf cyntaf Herceptin yn y DU yn Ysbyty Felindre yng Nghaerdydd yn 1997. Defnyddir Herceptin ledled Gogledd America ar gyfer camau cynnar canser y fron, felly nid cyffur na wyddys amdano mewn amgylchiadau na wyddys amdanynt ydyw. Rhaid i hyd yn oed y Gweinidog gydnabod bod y sefyllfa bresennol ynghylch Herceptin yn llanastr. Wedi'r cyfan, yr oedd NICE i fod i roi terfyn ar y loteri cod post.

Mae Bwrdd Iechyd Lleol Caerdydd a sawl un arall wedi gwneud penderfyniad dewr i fynd ati i ragnodi Herceptin cyn i'r drwydded gael ei chaniatáu. Maent yn ddewrach byth oherwydd eu bod oll yn dioddef oherwydd anawsterau ariannol. Fodd bynnag, y cyfan y maent wedi'i wneud yw creu loteri cod post newydd. Os ydych yn byw yn ardaloedd rhwydwaith canser gogledd Cymru neu ddeddwyrain Cymru, fe gewch Herceptin ar gyfer camau cynnar canser y fron, ond nid os

ydych yn byw yn ne-orllewin Cymru.

We have amended our motion as a result of the fact that events overtook our original tabling of it, when the news broke late last week that some local health boards were now following the advice of the cancer networks and prescribing Herceptin, and others were not.

Yr ydym wedi cyflwyno gwelliant i'n cynnig oherwydd yr hyn a ddigwyddodd wedi inni ei gyflwyno ar ei ffurf wreiddiol, pan ddaeth y newyddion yn hwyr yr wythnos diwethaf fod rhai byrddau iechyd lleol yn awr yn dilyn cyngor y rhwydweithiau canser ac yn rhagnodi Herceptin, a rhai eraill heb fod yn gwneud hynny.

I want to tell you about the case of Ceinwen Jackson. I met her last week when she came to the Assembly to support Jayne Sullivan. Her sister died of breast cancer last year, and, just two weeks before her sister's death, Ceinwen heard that she too had the disease. She has undergone all the conventional therapy, and has been told by her consultant at Velindre Hospital that she is HER2 positive. That means that she is at the highest risk of the cancer spreading, but that she could also benefit from Herceptin. Indeed, her consultant says that she should have started the treatment six months ago. Do you blame Ceinwen for demanding the drug, Minister? Do you blame her for being impatient? I certainly do not. Will you take a lead on this, and send out a positive message to south-west Wales, and ensure that everyone in Wales who could benefit from it will get this drug?

Mae arnaf eisiau dweud wrthy ch am achos Ceinwen Jackson. Cyfarfûm â hi yr wythnos diwethaf pan ddaeth i'r Cynulliad i gefnogi Jayne Sullivan. Bu farw ei chwaer o ganser y fron y llynedd, a, bythefnos yn unig cyn marwolaeth ei chwaer, clywodd Ceinwen fod yr afiechyd arni hithau hefyd. Mae hi wedi cael yr holl therapi confensiynol, a dywedodd ei hymgyngorydd yn Ysbyty Felindre wrthi ei bod yn bositif o ran HER2. Mae hynny'n golygu ei bod ymhlith y rhai sy'n wynebu'r risg uchaf y bydd y canser yn lledaenu, ond y gallai hefyd elwa o Herceptin. Yn wir, dywedodd ei hymgyngorydd wrthi y dylai fod wedi dechrau'r driniaeth chwe mis yn ôl. A ydych yn beio Ceinwen am fynnu cael y cyffur, Weinidog? A ydych yn ei beio am fod yn ddiamynedd? Yn bendant nid wyf fi. A wnewch roi arweiniad ar hyn, ac anfon neges gadarnhaol i dde-orllewin Cymru, a sicrhau y bydd pawb yng Nghymru a allai elwa o'r cyffur hwn yn ei gael?

Will you ensure, Minister—and this is very important—that, once Herceptin is licensed, the LHBs have the additional funding required in their drugs budget? The prescription of new drugs cannot morally be at the expense of other patients on more traditional medicines. This debate will be repeated time and again unless we get a better system. About 40 new cancer drugs will come on-stream over the next seven years, every one of which is expensive. Herceptin is just the leader of the pack. The danger is that the patient group with the loudest voice will win. Other drugs in the queue include Avastin for bowel cancer and Tarceva for lung cancer. Both are licensed, but they are in the long NICE queue—in a slightly different position from Herceptin.

A wnewch sicrhau, Weinidog—ac mae hyn yn dra phwysig—wedi i Herceptin gael ei drwyddedu, fod y byrddau iechyd lleol yn cael y cyllid ychwanegol sy'n ofynnol yn eu cyllideb cyffuriau? Ni all rhagnodi cyffuriau newydd, yn foesol, fod ar draul cleifion eraill sydd ar feddyginiaeth fwy traddodiadol. Bydd y ddadl hon yn cael ei hailadrodd dro ar ôl tro oni bai ein bod yn cael system well. Bydd tua 40 o gyffuriau canser newydd yn cael eu cyflwyno dros y saith mlynedd nesaf, ac mae pob un ohonynt yn ddrud. Yr un sydd ar flaen y gad yw Herceptin. Y perygl yw mai'r grŵp cleifion uchaf eu cloch a fydd yn ennill. Ymysg y cyffuriau eraill yn y ciw y mae Avastin ar gyfer canser y coluddyn a Tarceva ar gyfer canser yr ysgyfaint. Mae'r ddau wedi eu trwyddedu, ond maent yng nghiw hirfaith NICE—mewn sefyllfa ychydig yn wahanol i Herceptin.

However, as I said, this debate is not just about cancer drugs; it is about a decent, fair and sensible approach to all types of drugs. I refer in particular to the recent NICE decision not to approve the use of Aricept, and other similar drugs, for mild Alzheimer's disease. In some artificial way, NICE has divided Alzheimer's disease neatly into three stages. To the amazement of many, and the horror of any of us who know anything about the disease from first-hand experience, NICE ruled that Aricept was not cost-effective until the disease had progressed to the moderate stage. It did not say that it did not work; it said that it was not cost-effective.

Two members of my close family have suffered from Alzheimer's. I have watched the sad progression of the disease from close quarters. One of my relatives had Aricept; the other did not. No two patients are the same, but I watched the symptoms of the disease improve for a period after the prescription of Aricept, and I have no doubt that the sensible time to give Aricept is when the disease is still in its mild form, simply to maximise the independence of the patient and minimise the strain on their carers. Here we have another NICE decision that takes no account of the wider costs to society.

A further example is the controversy over the supply of beta interferon to multiple sclerosis sufferers. This is yet another reason why we need a wider view of the cost-effectiveness of drugs.

Minister, if you are in any doubt about the slowness of the NICE process, and the benefit of the Scottish system, I point you to pegylated interferon. The drug was licensed in Scotland last July, but it is still awaiting approval in NICE. We are expecting it at the end of February. The process needs to be reviewed so that when the next generation of drugs come online, patients will not have to suffer the anguish of those who have had to fight for Herceptin.

4.10 p.m.

Fodd bynnag, fel y dywedais, nid ymwneud â chyffuriau canser yn unig y mae'r ddadl hon; mae'n ymwneud ag ymdrin â phob math o gyffuriau mewn modd gweddus, teg a synhwyrol. Cyfeiriau yn benodol at benderfyniad NICE yn ddiweddar i beidio â chymeradwyo defnyddio Aricept, a chyffuriau tebyg eraill, ar gyfer afiechyd Alzheimer cymhedrol. Mewn rhyw ffordd artiffisial, mae NICE wedi rhannu afiechyd Alzheimer yn daclus yn dri cham. Er syndod i lawer, ac yn frawychus i unrhyw un ohonom sy'n gwybod unrhyw beth am yr afiechyd o brofiad personol, mae NICE wedi dyfarnu nad oedd Aricept yn gosteffeithiol nes bod yr afiechyd wedi datblygu i'r cam canolig. Ni ddywedodd nad oedd yn gweithio; dweud nad oedd yn gosteffeithiol a wnaeth.

Mae dau aelod o'm teulu agos wedi dioddef gan afiechyd Alzheimer. Yr wyf wedi gwyllo datblygiad trist yr afiechyd yn y fan a'r lle. Cafodd un o'm perthnasau Aricept; ni chafodd y llall. Nid oes dau glaf sydd yr un fath, ond gwyliais symptomau'r afiechyd yn gwella am gyfnod ar ôl rhoi Aricept, ac nid oes gennyf ddim amheuaeth nad yr adeg synhwyrol i roi Aricept yw pan fydd yr afiechyd yn dal ar ei ffurf gymhedrol, yn syml er mwyn gwneud y claf mor annibynnol â phosibl a rhoi cyn lleied o straen ag sy'n bosibl ar eu gofalwyr. Dyma benderfyniad arall gan NICE nad yw'n rhoi dim ystyriaeth i'r costau ehangach i'r gymdeithas.

Esiampl arall yw'r ddadl ynghylch rhoi beta interfferon i rai sy'n dioddef gan sglerosis ymledol. Mae hyn yn rheswm arall eto paham mae angen inni edrych yn ehangach ar gosteffeithlonrwydd cyffuriau.

Weinidog, os oes gennych ryw amheuaeth ynghylch arafwch proses NICE, a manteision system yr Alban, fe'ch cyfeiriau at interfferon pegyledig. Trwyddedwyd y cyffur yn yr Alban fis Gorffennaf diwethaf, ond mae'n dal i ddisgwyl cymeradwyaeth oddi wrth NICE. Yr ydym yn disgwyl hynny ddiwedd Chwefror. Rhaid adolygu'r broses fel na fydd yn rhaid i gleifion ddioddef gloes y rhai y bu'n rhaid iddynt frwydro am Herceptin, pan ddaw'r genhedlaeth nesaf o gyffuriau.

I finish by pointing to the decision of the all-Wales medicine strategy group in its meeting on 6 December; the group decided that it needed a review. I support that decision, but the intention here today, Minister, is to ensure that this review is high profile, that the public is aware of it, that everyone is involved in it, that it is an Assembly decision, that all possible alternatives are looked at in a free and open manner, and that a very wide view of the true cost of drugs is taken. I beg you to support the motion and the amendment.

The Deputy Presiding Officer: Not everyone will be able to contribute, so I impose a three-minute time limit, and I will not allow much of an extension after that.

Lorraine Barrett: I did not want to concentrate on Herceptin today, rather to talk generally about new drugs. Having said that, I speak as someone whose mother had breast cancer twice, and as someone who lost a friend at the age of 40 to the same disease. I can only imagine how young women deal with this disease. Jenny has already mentioned Ceinwen, who is my constituent and whom I have been helping, and we have had some positive results for her.

To return to the motion, while I can be quite relaxed, personally, in supporting the motion today, I am concerned about the Liberal Democrats' general call for the approval of drugs to be speeded up and made available more quickly. When the introduction of NICE, together with its duties and consultation processes with the public was being discussed in the House of Commons in 1999, the Liberal Democrats and the Tories made it clear—rightly so, I believe—that this new body would be effective only if it was independent of political interference and free to make decisions on a clinical and scientific basis. That is a bit like the call from opposition parties for the arm's-length principle for arts funding, but this is far more serious. NICE was established precisely to ensure that those decisions over the approval of drugs were taken on clinical grounds by professionals in the field.

Yr wyf yn cloi drwy gyfeirio at benderfyniad grŵp strategaeth feddyginiaethau Cymru gyfan yn ei gyfarfod ar 6 Rhagfyr; penderfynodd y grŵp fod arno angen adolygiad. Cefnogaf y penderfyniad hwn, ond y bwriad yma heddiw, Weinidog, yw sicrhau bod yr adolygiad hwn yn cael cryn sylw, fod y cyhoedd yn ymwybodol ohono, fod pawb yn ymwneud ag ef, ei fod yn benderfyniad gan y Cynulliad, yr edrychir ar bob dewis amgen posibl mewn modd rhydd ac agored, ac yr edrychir yn eang iawn ar wir gost y cyffuriau. Erfyniaf arnoch i gefnogi'r cynnig a'r gwelliant.

Y Dirprwy Lywydd: Ni fydd pawb yn gallu cyfrannu, felly pennaf dri munud, ac ni chaniatâf fawr o estyniad wedi hynny.

Lorraine Barrett: Nid oeddwn am ganolbwyntio ar Herceptin heddiw, ond yn hytrach yr oeddwn am sôn am gyffuriau newydd. Wedi dweud hynny, siaradaf fel rhywun y cafodd ei mam ganser y fron ddwywaith, ac fel rhywun a gollodd gyfaill yn 40 oed oherwydd yr un afiechyd. Ni allaf ond dychmygu sut y mae menywod ifanc yn delio â'r afiechyd hwn. Mae Jenny eisoes wedi sôn am Ceinwen, sy'n un o'm hetholwyr ac y bŵm yn ei helpu, a chawsom rai canlyniadau cadarnhaol iddi hi.

A dychwelyd at y cynnig, er y gallaf fi gefnogi'r cynnig heddiw heb fawr o benbleth, yr wyf yn bryderus ynghylch galwad gyffredinol y Democratiaid Rhyddfrydol am gyflymu'r broses o gymeradwyo cyffuriau a'u rhyddhau yn gynt. Pan drafodwyd cyflwyno NICE, ynghyd â'i ddyletswyddau a'i brosesau ymgynghori gyda'r cyhoedd, yn Nhŷ'r Cyffredin yn 1999, dywedodd y Democratiaid Rhyddfrydol a'r Torïaid yn bendant—ac yr oeddent yn llygad eu lle yn fy marn i—na fyddai'r corff newydd hwn ond yn effeithiol pe byddai'n annibynnol ar ymyrraeth wleidyddol ac yn rhydd i wneud penderfyniadau ar sail glinigol a gwyddonol. Mae hyn yn eithaf tebyg i'r alwad oddi wrth y gwrthbleidiau am yr egwyddor hyd braich ar gyfer cyllid i'r celfyddydau, ond bod hyn yn llawer mwy difrifol. Sefydlwyd NICE yn benodol er mwyn sicrhau bod y penderfyniadau hynny ynghylch cymeradwyo

cyffuriau yn cael eu gwneud ar sail glinigol gan weithwyr proffesiynol yn y maes.

Jenny Randerson: I appreciate your point, but do you accept that the reason for having a swifter system is so that you do not have the kind of political interference that has happened in England in the case of Herceptin? Having a swifter system does not mean, in any way—and I would deplore it if it did—having political interference in the process of drug approval as a regular thing.

Jenny Randerson: Yr wyf yn deall eich pwynt, ond a dderbyniwch mai'r rheswm dros gael system gyflymach yw er mwyn osgoi'r math o ymyrraeth wleidyddol a welwyd yn Lloegr yn achos Herceptin? Nid yw cael system gyflymach yn golygu—a byddwn yn gofidio pe byddai—cael ymyrraeth wleidyddol mewn modd yn y byd yn y broses o gymeradwyo cyffuriau fel peth rheolaidd.

Lorraine Barrett: I am glad to hear Jenny Randerson saying that. I am concerned about the statement in the motion about speeding up. It is not just a case of speeding up; we have to be confident that we have a robust system to ensure that those clinical processes are gone through properly. We have to have confidence in drugs that they will not cause the side effects that we have seen with some drugs in the past, and the obvious example that springs to everyone's mind is thalidomide.

Lorraine Barrett: Yr wyf yn falch o glywed Jenny Randerson yn dweud hynny. Yr wyf yn bryderus ynghylch y datganiad yn y cynnig ynghylch cyflymu. Nid mater o gyflymu yn unig ydyw; rhaid inni fod yn hyderus bod gennym system gadarn i sicrhau bod y prosesau clinigol hynny'n cael eu dilyn yn briodol. Rhaid inni gael hyder mewn cyffuriau na fyddant yn achosi'r sgîl-ffeithiau a welsom gyda rhai cyffuriau yn y gorffennol, a'r esiampl amlwg a ddaw i gof pawb yw thalidomid.

I will mention a couple of comments in that 1999 debate, which sum it up. John Bercow, speaking for the Tories at Westminster, when NICE was being established, asked:

Soniaf am ddau sylw yn y ddadl honno yn 1999, sylwadau sy'n crynhoi'r sefyllfa. Gofynnodd John Bercow, a siaradai dros y Toriaid yn San Steffan, pan oedd NICE wrthi'n cael ei sefydlu:

'Will NICE be genuinely independent...Will it be possible for the national institute...to exercise its own judgment without interference...from Health Ministers or Department officials'.

A fydd NICE yn wir annibynnol...A fydd yn bosibl i'r sefydliad cenedlaethol...wneud ei ddyfarniadau ei hun heb ymyrraeth...oddi wrth Weinidogion Iechyd na swyddogion yr Adran.

Dr Evan Harris for the Liberal Democrats said:

Dywedodd Dr Evan Harris ar ran y Democratiaid Rhyddfrydol:

'I should like to hear from him the following words: NICE will not be asked to take into account overall cost or affordability in its calculations and appraisals and will stick strictly—as the hon. Gentleman has already said...to clinical effectiveness and relative cost-effectiveness'.

Hoffwn glywed ganddo'r geiriau canlynol: Ni ofynnir i NICE roi ystyriaeth i'r gost gyffredinol nac i ba raddau y mae'n fforddiadwy wrth gyfrifo ac arfarnu, a bydd yn glynu'n gaeth—fel y dywedodd y Gŵr anrhydeddus eisoes...wrth effeithiolrwydd clinigol a chosteffeithiolrwydd cymharol.

I think that it is true to say that we would all want drugs to be available as soon as possible, because people should be entitled to the most effective treatment whatever

Credaf ei bod yn wir dweud y byddem oll am i gyffuriau fod ar gael cyn gynted â phosibl, oherwydd y dylai pobl fod â'r hawl i gael y driniaeth fwyaf effeithiol, beth bynnag fo'r

medical problem they may have. We cannot play politics with medicines, and I do not want political pressure brought to bear on drug companies or local health boards in bringing forward the use of drugs, unless and until they are confident that to do so is in the best interests of patients, and that the drugs are as safe as they can possibly be proven to be.

Kirsty Williams: I propose amendment 1 in my name. Add as a new point at the end of the motion:

welcomes the news that, after receiving advice from the south-east Wales and north Wales cancer networks, local health boards in these areas have agreed to prescribe Herceptin to treat early-stage breast cancer but regrets that this is not the case throughout the whole of Wales.

Lorraine would do well to remember—she is right to point out that we supported the principle of NICE, and I still support it very firmly—that the issue is the way in which NICE has been managed and funded by the Government; it has not lived up to its principles. It is not just politicians who are saying that, clinicians are saying that, clinicians who treat people and who have to look them in the face day after day and tell them that there is potentially a drug that could be of benefit to them and that they would like them to have, but they cannot have it. They are as frustrated with the NICE process as we are on this side of the Chamber.

As we have heard, the south-west Wales cancer network remains the only network now in Wales that is not able to support the principle of prescribing Herceptin to early-stage breast cancer sufferers. That means that people like Kay Rowlands, who is not a constituent of mine, but who lives in Swansea—where my aunt and my female cousins all live, and, potentially, are affected by the decisions made by Swansea LHB—have been refused treatment. Mrs Rowlands and her husband are instead paying £26,000 for a course of treatment out of their retirement fund.

When Mrs Rowlands asked whether she

problem feddygol sydd ganddynt. Ni allwn chwarae gwleidyddiaeth gyda meddyginiaethau, ac nid wyf am weld pwysau gwleidyddol yn cael ei roi ar gwmnïau cyffuriau na byrddau iechyd lleol i ddechrau defnyddio'r cyffuriau hyn, oni bai a hyd nes eu bod yn hyderus bod gwneud hynny er lles y cleifion, a bod y cyffuriau mor ddiogel ag y gellir profi eu bod.

Kirsty Williams: Cynigïaf welliant 1 yn fy enw i. Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

yn croesawu'r newyddion, ar ôl derbyn cyngor gan rwydweithiau canser y de-ddwyrain a'r gogledd, fod y byrddau iechyd lleol yn yr ardaloedd hyn wedi cytuno i roi Herceptin i drin canser y fron yn ei gamau cynnar ond yn gresynu at y ffaith nad dyna'r sefyllfa ledled Cymru.

Byddai'n dda o beth i Lorraine gofio—mae'n iawn wrth dynnu sylw at y ffaith inni gefnogi egwyddor NICE, a daliaf i'w gefnogi'n gryf—mai'r hyn sydd dan sylw yw'r modd y rheolwyd ac y cyllidwyd NICE gan y Llywodraeth; nid yw wedi cadw'n drwm at ei egwyddorion. Nid dim ond gwleidyddion sy'n dweud hynny, mae gweithwyr clinigol yn dweud hynny, gweithwyr clinigol sy'n trin pobl ac sy'n gorfod eu hwynebu ddydd ar ôl dydd a dweud wrthynt y gall fod cyffur ar gael a allai fod o les iddynt ac y carent hwy iddynt ei gael, ond ni allant gael y cyffur hwnnw. Maent mor rhwystredig gyda phroses NICE ag yr ydym ninnau yr ochr hon i'r Siambr.

Fel y clywsom, rhwydwaith canser de-orllewin Cymru bellach yw'r unig rwydwaith yng Nghymru na all gefnogi'r egwyddor o roi Herceptin i ddiodeffwyr canser yn y camau cynnar. Golyga hynny eu bod wedi gwrthod rhoi triniaeth i bobl megis Kay Rowlands, nad yw yn un o'm hetholwyr ond sy'n byw yn Abertawe—lle mae fy modryb a'm cyfnitherod oll yn byw, a dichon y bydd penderfyniadau BILl Abertawe yn effeithio arnynt hwythau. Yn hytrach na hynny, mae Mrs Rowlands a'i gŵr yn talu £26,000 am gwrs o driniaeth o'u cronfa ymdeol.

Pan ofynnodd Mrs Rowlands a oedd arni wir

really needed it, her oncologist said, 'Yes, you do'. She discovered that if she lived in Neath, or in Llanelli, she could have the drug on the NHS. When she knows that patients down the road from her, patients whom she no doubt sees in the same waiting room as her, can get that drug, she says that it seems very unfair.

As we have heard, it is not just with Herceptin that we have a problem; I know of a constituent literally 100 yards down the road from where I live, who is currently suffering from a form of motor neurone disease, and who, with her doctor, is waiting for the approval of a drug to treat her condition. Before Christmas, she could walk up the stairs to her bedroom. Just a few weeks later, she is confined to her bed downstairs, and still she waits for that drug to be offered to her.

It is not just new drugs that we have problems with, as we have heard from Jenny Randerson, it is old drugs too, such as beta interferon. The two treatment centres in south Wales are no longer assessing patients to see whether they are eligible for beta interferon, because the funding for the drug has run out, yet patients in north Wales still get assessed, and if their assessment proves that their condition is relevant for the drug, they will get beta interferon. That is in north Wales, but if you need to go to the centre in Cardiff or Swansea, forget it, there are no more assessments, because the money for beta interferon has run out. So it is not just with new drugs that we have problems in Wales, but old ones.

It is not about political interference in the process—although Patricia Hewitt would know all about that, as we have seen from recent media announcements. We owe it to our mothers, who never had this chance; we owe it to our partners, our daughters and our granddaughters to ensure that, in the future, they get the drugs that they need when their doctors say that they need them. [*Applause.*]

angen y cyffur, meddai ei honcolegydd, 'Oes, mae'. Sylweddolodd, petai'n byw yng Nghastell-nedd neu yn Llanelli, y gallai gael y cyffur ar y GIG. A hithau'n gwybod bod cleifion sy'n byw gerllaw, cleifion y mae, yn ddiau, yn dod ar eu traws yn yr un ystafell aros â hi, yn gallu cael y cyffur hwnnw, mae'n dweud bod hynny'n ymddangos yn annheg iawn.

Fel y clywsom, nid gyda Herceptin yn unig y mae gennym broblem; gwn am etholwraig sydd yn llythrennol 100 llath o'r fan lle'r wyf yn byw, sydd yn dioddef ar hyn o bryd gan ffurf ar glefyd motor niwron ac sydd, gyda'i meddyg, yn disgwyl am gael cymeradwyo cyffur i drin ei chyflwr. Cyn y Nadolig, gallai gerdded i fyny'r grisiau i'w hystafell wely. Rai wythnosau'n unig yn ddiweddarach, mae'n gaeth i'w gwely i lawr y grisiau, ac yn dal i ddisgwyl i'r cyffur hwnnw gael ei gynnig iddi.

Nid gyda chyffuriau newydd yn unig y cyfyd problemau, fel y clywsom gan Jenny Randerson, ond hen gyffuriau hefyd megis beta interfferon. Nid yw'r ddwy ganolfan driniaeth yn ne Cymru bellach yn asesu cleifion i weld a ydynt yn gymwys i gael beta interfferon, am fod y cyllid ar gyfer y cyffur wedi dod i ben, ac eto, mae cleifion yng ngogledd Cymru yn dal i gael eu hasesu, ac os bydd eu hasesiad yn profi bod eu cyflwr yn berthnasol ar gyfer y cyffur, yna fe gânt beta interfferon. Yng ngogledd Cymru y mae hynny, ond os bydd rhaid i chi fynd i'r ganolfan yng Nghaerdydd neu Abertawe, ni waeth i chi anghofio am y peth, nid oes dim mwy o asesiadau oherwydd nid oes arian ar ôl ar gyfer beta interfferon. Felly nid gyda chyffuriau newydd yn unig y mae gennym broblemau yng Nghymru, ond hen rai hefyd.

Nid mater o ymyrraeth wleidyddol yn y broses yw hyn—er y byddai Patricia Hewitt yn hen gyfarwydd â hynny, fel y gwelsom yn ôl cyhoeddiadau diweddar yn y cyfryngau. Mae'n ddyletswydd arnom er mwyn ein mamau, na chawsant erioed y cyfle hwn; mae'n ddyletswydd arnom er mwyn ein partneriaid, ein merched a'n hwyresau ofalu eu bod hwy, yn y dyfodol, yn cael y cyffuriau y mae arnynt eu hangen pan fydd eu meddygon yn dweud bod angen hynny arnynt. [*Cymeradwyaeth.*]

The Deputy Presiding Officer: Order.

Helen Mary Jones: On a personal note, I am glad to be the first member of Plaid Cymru to speak in a full debate in this wonderful Chamber. I am grateful to the Liberal Democrats for putting this important issue on the agenda. The system, as it stands, was set up to ensure an end to the postcode lottery and to put in place a system that was transparent, science-based and efficient. Whatever the outcome has been, I do not think that there is anyone in the Chamber who believes that the outcome has been that. The decision-making system is complex, it is far from transparent, and it takes a long time.

I endorse the points made by both Kirsty Williams and Jenny Randerson, and I do not wish to repeat them, but I want to emphasise the point about the time taken. Suggestions have been made recently in the public domain that one of the major problems with our current system is not the system itself, but the capacity within that system to process new drugs. If it is true that we simply do not have enough staff in the all-Wales medicine strategy group to do the paperwork, I suggest to the Government that it could perhaps dispose of a few of its more objectionable special advisers, and spend some money on administration for the medicine strategy group instead.

I want to turn briefly to the amendment, which we will support, but given that the Liberal Democrats were part of the Government that introduced the 22 local health boards, and thus the postcode lottery system, I find their approach today a little rich. I also remind them today, when they make reference to the Scottish system, that when Plaid Cymru—The Party of Wales suggested in the Committee for Health and Social Services six years ago that we needed a separate system for Wales and that we should consider a partnership with Scotland, the Liberal Democrats declined to support us in a vote in committee. That said, we cannot help but recognise and regret the current situation.

Y Dirprwy Lywydd: Trefn.

Helen Mary Jones: Ar nodyn personol, yr wyf yn falch mai fi yw'r aelod cyntaf o Blaid Cymru i siarad mewn dadl lawn yn y Siambr ardderchog hon. Yr wyf yn ddiolchgar i'r Democratiaid Rhyddfrydol am osod y pwnc pwysig hwn ar yr agenda. Sefydlwyd y system, fel y mae ar hyn o bryd, i roi terfyn ar loteri'r cod post ac i roi system ar waith a oedd yn dryloyw, yn seiliedig ar wyddoniaeth ac yn effeithlon. Ni waeth beth fu'r canlyniad, ni chredaf fod neb yn y Siambr sydd yn credu mai dyna fu'r canlyniad. Mae'r drefn gwneud penderfyniadau yn gymhleth, mae ymhell o fod yn dryloyw, ac mae'n cymryd amser maith.

Cefnogaf y pwyntiau a wnaethpwyd gan Kirsty Williams a Jenny Randerson, ac nid wyf am eu hailadrodd, ond fe garwn bwysleisio'r pwynt ynghylch yr amser y mae'n ei gymryd. Gwnaethpwyd awgrymiadau yn ddiweddar yn gyhoeddus mai un o brif broblemau ein system ar hyn o bryd yw nid y drefn ei hun, ond y gallu y tu mewn i'r drefn honno i brosesu cyffuriau newydd. Os yw'n wir nad oes gennym ddigon o staff yn grŵp strategaeth feddyginiaethau Cymru gyfan i wneud y gwaith papur, carwn awgrymu i'r Llywodraeth y gallai, efallai, gael gwared ag ambell un o'i hymgynghorwyr arbennig mwyaf annymunol, a gwario peth arian yn hytrach ar weinyddiaeth i'r grŵp strategaeth feddyginiaethau.

Yr wyf am droi'n fyr at y gwelliant, a gefnogir gennym, ond o gofio bod y Democratiaid Rhyddfrydol yn rhan o'r Llywodraeth a gyflwynodd y 22 bwrdd iechyd lleol, a thrwy hynny system loteri'r cod post, yr wyf yn gweld eu hagwedd heddiw braidd yn haerllug. Carwn eu hatgoffa heddiw hefyd, wrth iddynt gyfeirio at y system yn yr Alban, pan awgrymodd Plaid Cymru—The Party of Wales yn y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol chwe blynedd yn ôl fod arnom angen system ar wahân i Gymru ac y dylem ystyried partneriaeth gyda'r Alban, fod y Democratiaid Rhyddfrydol wedi gwrthod ein cefnogi mewn pleidlais yn y pwyllgor. Wedi dweud hynny, ni allwn ond cydnabod y

sefyllfa bresennol, a gresynu ati.

4.20 p.m.

I am neither a scientist nor a doctor, and I am not qualified to say whether Herceptin is safe or effective. However, the Minister has failed to explain, if he is not convinced that it is safe, why it can be prescribed—in some places on the national health, and, in others, if women will pay for it. If he believes that Herceptin is not effective, why do so many oncologists believe differently? Some of us believe that there may be a cost agenda here. [*Applause.*]

The Deputy Presiding Officer: Order.

Helen Mary Jones: Is the Minister afraid that he will have to top up local health boards' budgets once a national determination is made? This begs the wider question about why new drugs in our country are so expensive and about the size of the profits that drug companies can make from the misery and desperation—[*Applause.*]

The Deputy Presiding Officer: Order. I will have the galleries cleared unless we can get on with the debate and hear each other.

Helen Mary Jones: It cannot be right, as Kirsty Williams has said, that patients can receive treatment on the national health in Llanelli—although, of course, I am glad that they can—and in Neath, but not in Swansea. The Minister needs to answer, and to answer the public, not just us in the Chamber. We must all admire Jayne Sullivan's courage, even if we do not necessarily support her cause. I have been deeply disappointed by the Minister's unwillingness to answer the specific questions that she wishes to put to him. I realise that it is difficult, but he has shown an apparent lack of concern and compassion that reflects badly on his Government.

Perhaps we should not be surprised at that, as the Government appears to have a culture of finding it impossible to answer difficult questions, as was demonstrated by the First Minister's woeful and embarrassing

Nid wyf yn wyddonydd nac yn feddyg, ac nid wyf yn gymwys i ddweud a yw Herceptin yn ddiogel neu'n effeithiol. Fodd bynnag, methodd y Gweinidog ag esbonio, os nad yw yn argyhoeddedig ei fod yn ddiogel, pam mae modd ei ragnodi—mewn rhai mannau dan y gwasanaeth iechyd gwladol, ac, mewn mannau eraill, os bydd menywod yn talu amdano. Os yw'n credu nad yw Herceptin yn effeithiol, pam mae cynifer o oncolegwyr yn credu i'r gwrthwyneb? Mae rhai ohonom o'r farn y gall fod agenda'n ymwneud â'r gost ar waith yma. [*Cymeradwyaeth.*]

Y Dirprwy Lywydd: Trefn.

Helen Mary Jones: A yw'r Gweinidog yn ofni y bydd yn rhaid iddo roi rhagor o arian yng nghyllidebau byrddau iechyd lleol wedi i benderfyniad cenedlaethol gael ei wneud? Arweinia hyn ni at y cwestiwn ehangach ynghylch pam mae cyffuriau newydd yn ein gwlad mor gostus ac ynghylch faint o elw y gall cwmnïau cyffuriau ei wneud o'r loes a'r anobaith—[*Cymeradwyaeth.*]

Y Dirprwy Lywydd: Trefn. Fe glirïaf yr orielau oni fydd modd inni fwrw ymlaen â'r ddadl a chlywed ein gilydd.

Helen Mary Jones: Ni all fod yn iawn, fel y dywedodd Kirsty Williams, i gleifion allu derbyn triniaeth y gwasanaeth iechyd yn Llanelli—er fy mod, wrth gwrs, yn falch eu bod yn gallu gwneud hynny—ac yng Nghastell-nedd, ond nid yn Abertawe. Rhaid i'r Gweinidog ateb, ac ateb y cyhoedd, yn hytrach na'n hateb ni yn y Siambr a dyna'r cwbl. Rhaid i ni oll edmygu dewrder Jayne Sullivan, hyd yn oed os nad ydym o raid yn cefnogi ei hachos. Yr wyf yn siomedig eithriadol ag amharodrwydd y Gweinidog i ateb y cwestiynau penodol y dymuna hi eu gofyn iddo. Yr wyf yn sylweddoli bod hyn yn anodd, ond mae fel petai wedi dangos diffyg pryder a thosturi sy'n adlewyrchu'n wael ar ei Lywodraeth.

Efallai na ddylai hyn ein synnu, gan ei bod yn ymddangos bod gan y Llywodraeth ddiwylliant o'i chael yn amhosibl ateb cwestiynau anodd, fel y dangoswyd gan berfformiad truenus a chywilyddus y Prif

performance on *Question Time* and then, more seriously, by his refusal to answer the same question when it was put to him in committee in north Wales. Even the Minister cannot believe that this system for approving new drugs is working; we must accept that a review is needed and I commend this motion to the Assembly.

Eleanor Burnham: The Welsh Liberal Democrats' motion mentions that we should examine the Scottish drug-approval process, regardless of what others have said. This process appears to be more streamlined, effective and transparent than the slow process that Wales is locked into, in having to wait 18 months for the National Institute for Health and Clinical Excellence's appraisals. I have given it its title in full in case anyone does not understand what NICE is.

Professor Maugham, who was referred to earlier, is a cancer specialist, who asserts that the NICE process is good, but too slow. We must have quicker decisions about funding and, according to him, the money must be readily available. It takes about 18 months for new drugs to be appraised by NICE. The bowel cancer drug, Cetuximab—I hope that I pronounced that correctly; if I did not, I am sure that Dr Gibbons will correct me—was licensed in June 2005, but NICE guidance on it is not expected until November 2006. The special health board in Scotland, NHS Quality Improvement Scotland, provides useful guidance to health bodies in relation to particular drugs or treatments; it also provides NHS Scotland with more detailed advice on selected topics through its health technology assessments, which are completed quicker than NICE's technology appraisals. An official working for NHS Quality Improvement Scotland has informed the Members' research service that it usually completes its evidence notes within one to three months and its health technology assessments usually take 12 to 15 months to complete, whereas NICE technology appraisals take 12 to 18 months.

The Scottish Medicines Consortium, which makes decisions regarding the approval of new drugs, is part of NHS Quality

Weinidog ar *Question Time* ac yna, yn fwy difrifol, y ffaith iddo wrthod ateb yr un cwestiwn pan ofynnwyd hynny iddo yn y pwyllgor yng ngogledd Cymru. Ni all hyd yn oed y Gweinidog gredu bod y drefn hon o gymeradwyo cyffuriau newydd yn gweithio; rhaid inni dderbyn bod angen adolygiad, a chymeradwyaf y cynnig hwn i'r Cynulliad.

Eleanor Burnham: Mae cynnig Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn crybwyll y dylem archwilio proses cymeradwyo cyffuriau'r Alban, ni waeth beth y mae eraill wedi'i ddweud. Mae'r broses honno'n ymddangos yn llyfnach, yn fwy effeithiol a thryloyw na'r broses araf y mae Cymru'n gaeth iddi, o orfod aros am 18 mis am arfarniadau'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol. Rhoddais y teitl yn llawn rhag ofn bod rhai heb ddeall beth yw NICE.

Mae'r Athro Maugham, y cyfeiriwyd ato yn gynharach, yn arbenigwr ar ganser, a dywed ef fod proses NICE yn dda, ond yn rhy araf. Rhaid inni gael penderfyniadau cyflymach ynghylch cyllido, a dywed ef y dylai'r arian fod ar gael rhag blaen. Fe gymer ryw 18 mis i NICE arfarnu cyffuriau newydd. Cafodd y cyffur ar gyfer cancer y coluddion, Cetuximab—gobeithio i mi ei ynganu'n gywir; os na wneuthum, rwy'n siŵr y bydd Dr Gibbons yn fy nghywiro—ei drwyddedu ym Mehefin 2005, ond nid ydym yn disgwyl canllawiau NICE arno tan fis Tachwedd 2006. Mae'r bwrdd iechyd arbennig yn yr Alban, NHS Quality Improvement Scotland, yn darparu canllawiau defnyddiol i gyrff iechyd am gyffuriau neu driniaethau penodol; mae hefyd yn rhoi i'r GIG yn yr Alban gyngor manylach am bynciau penodol drwy ei asesiadau technoleg iechyd, sy'n cael eu cwblhau yn gynt nag arfarniadau technoleg NICE. Dywedodd swyddog sy'n gweithio i NHS Quality Improvement Scotland wrth wasanaeth ymchwil yr Aelodau eu bod yn cwblhau eu nodiadau tystiolaeth ymhen un i dri mis, a bod eu hasesiadau technoleg iechyd fel rheol yn cymryd 12 i 15 mis i'w cwblhau; mae arfarniadau technoleg NICE, o'r ochr arall, yn cymryd rhwng 12 a 18 mis.

Mae Consortiwm Meddyginiaethau'r Alban, sy'n gwneud penderfyniadau ynghylch cymeradwyo cyffuriau newydd, yn rhan o

Improvement Scotland and usually notifies pharmaceutical companies of its decision within 14 weeks of receiving a new product submission. Decisions are usually published four weeks later, to allow for discussions with the pharmaceutical company. This means that patients and health professionals in Scotland are much more informed about the situation than those in Wales.

According to Professor Peter Hayes, Professor of Hepatology at the Royal Infirmary of Edinburgh, a decision from the SMC—you will know what that is, if you have followed what I have been saying—is great news for patients in Scotland. Infection rates of hepatitis B, for example, have reached high proportions in some regions, and, if not treated effectively, it can lead to chronic liver disease. Patients whose hepatitis B is in remission, after treatment with Pegasys, are unlikely to need further treatment and the risk of developing cirrhosis, liver failure and liver cancer is reduced.

These are all compelling reasons for using Pegasys as a first choice in treating chronic hepatitis B. Welsh patients have not had that good news, as they are still waiting for NICE to pronounce on it. Minister, if we are all aware that new drugs are available for our use, is it not your responsibility to try your best to give us fair play for Jayne Sullivan, Kay Rowlands and others who might not have time to wait for NICE's decisions?

Jonathan Morgan: I welcome this serious debate, which we should engage in without the usual party-political knockabout that we are used to in Plenary. I know that there are differences of opinion about how drugs can be licensed and then approved. All Members would want to ensure that clinical safety is the first priority of any approval system for a new drug. Admittedly, value for money is also important, but clinical safety is paramount. I accept that there are problems in the way the system operates. I suppose that, if the granting of a licence occurred the same time as the approval from NICE, then the average approval time of 18 months would not necessarily be a huge problem, but there

NHS Quality Improvement Scotland ac fel arfer yn hysbysu cwmnïau fferyllol am eu penderfyniad o fewn 14 wythnos ar ôl derbyn cyflwyniad am gynnyrch newydd. Cyhoeddir penderfyniadau fel arfer bedair wythnos wedyn, er mwyn caniatáu trafod gyda'r cwmni fferyllol. Golyga hyn fod cleifion a gweithwyr iechyd proffesiynol lawer yn fwy gwybodus am y sefyllfa na'r rhai yng Nghymru.

Yn ôl yr Athro Peter Hayes, Athro Hepatoleg yn Ysbyty Brenhinol Caeredin, mae penderfyniad gan yr SMC—fe fyddwch yn gwybod beth yw hwnnw, os buoch yn dilyn yr hyn a ddywedais—yn newyddion gwych i gleifion yn yr Alban. Mae cyfraddau heintio â hepatitis B, er enghraifft, wedi codi'n uchel iawn mewn rhai rhanbarthau, ac os na chaiff ei drin yn effeithiol, gall arwain at glefyd cronig yr iau. Nid yw cleifion y mae'r hepatitis B sydd arnynt wedi cilio, ar ôl derbyn triniaeth â Pegasys, yn debygol o fod angen triniaeth bellach, ac mae llai o berygl iddynt ddatblygu sirosis, methiant yr iau a chanser yr iau.

Mae'r rhain oll yn rhesymau cryf dros ddefnyddio Pegasys fel y dewis cyntaf i drin hepatitis B cronig. Ni chafodd cleifion Cymru y newydd da hwnnw, gan eu bod yn dal i ddisgwyl am gyhoeddiad NICE am y pwnc. Weinidog, os gwyddom oll fod cyffuriau newydd ar gael i ni eu defnyddio, onid eich cyfrifoldeb chi yw gwneud eich gorau i roi chwarae teg i Jayne Sullivan, Kay Rowlands ac eraill nad oes ganddynt, efallai, yr amser i aros am benderfyniadau NICE?

Jonathan Morgan: Yr wyf yn croesawu'r ddadl ddifrifol hon, y dylem oll gymryd rhan ynddi heb y cecru pleidiol yr ydym yn gyfarwydd ag ef yn y Cyfarfod Llawn. Gwn fod gwahaniaeth barn am sut i drwyddedu cyffuriau ac yna eu cymeradwyo. Byddai pob Aelod yn dymuno sicrhau mai diogelwch clinigol yw prif flaenoriaeth unrhyw drefn gydnabyddedig o gymeradwyo cyffur newydd. Wrth gwrs, mae gwerth am arian yn bwysig, ond diogelwch clinigol sydd bwysicaf. Yr wyf yn derbyn bod problemau gyda'r ffordd y mae'r drefn yn gweithio. Mae'n debyg, petai rhoi trwydded yn digwydd ar yr un pryd â chymeradwyaeth gan NICE, na fyddai'r cyfartaledd amser

clearly is a difficulty in the differences in the timescales.

In looking at this issue, even members of Assembly Government will accept that there is a problem that needs to be addressed. My understanding is that the Government is minded to accept the amendment to the motion. If that is the case, then I am keen to hear how the Government intends to put that amendment into practice. If you regret the fact that this particular drug has not been permitted across the cancer networks, then I am keen to hear from the Minister as to what guidance he intends to issue to ensure that this does not continue along the lines of being a postcode lottery, as it has been in the past. The provision of cancer services in Wales is one of those issues about which you can truly say that the national health service is not actually national. Provision is hit and miss, depending on where you live. I am delighted, therefore, that the Health and Social Services Committee will undertake a review of cancer services, and I hope that it will look at the process and speed of diagnosis as well as the availability of treatment and drugs. Also, I sincerely hope that it will look at palliative care. Through that committee review, we have an ideal opportunity to start putting some of these wrongs right.

One problem, which relates as much to the commissioning and provision of drugs as it does to general cancer services, is the commissioning role of the various bodies. Local health boards have a commissioning role in adult services, Health Commission Wales has a role in children's services, and then these cancer networks lie somewhere in between. It is a convoluted, confused and rather bizarre process for the commissioning of cancer services. We need to look at that when we start looking at how we can alter the review of drugs. In doing so, we need to come up with some ideas as to how we can make the system simpler, and we should certainly ensure, and continue to ensure, that patient and clinical safety are paramount.

Peter Law: I particularly appreciate the

cymeradwyo o 18 mis o raid yn broblem enfawr, ond mae'n amlwg bod anhawster yn codi gyda'r gwahaniaethau yn yr amser.

O edrych ar y pwnc hwn, bydd hyd yn oed aelodau o Lywodraeth y Cynulliad yn derbyn bod yma broblem y mae angen rhoi sylw iddi. Deallaf fod y Llywodraeth yn barod i dderbyn y gwelliant i'r cynnig. Os yw hynny'n wir, yr wyf felly yn awyddus i glywed sut y bwriada'r Llywodraeth weithredu'r gwelliant hwnnw. Os yw'n resyn gennyhych na roddwyd caniatâd i'r cyffur arbennig hwn ar draws y rhwydweithiau cancer, yna yr wyf yn awyddus i glywed gan y Gweinidog pa ganllawiau y bwriada eu cyhoeddi er mwyn gofalu na pharheir ar drywydd y loteri cod post, fel yn y gorffennol. Mae darparu gwasanaethau cancer yng Nghymru yn un o'r materion hynny y gallwch ddweud o ddifrif nad yw'r gwasanaeth iechyd gwladol mewn gwirionedd yn un i'r holl wlad. Mater o siawns yw'r ddarpariaeth, a'r siawns yn dibynnu ar ble'r ydych yn byw. Yr wyf wrth fy modd, felly, y bydd y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn adolygu gwasanaethau cancer, a mawr obeithiaf y bydd yn edrych ar broses a chyflymder diagnosis yn ogystal ag ar y driniaeth a'r cyffuriau sydd ar gael. Hefyd, gobeithiaf o'r galon y bydd yn bwrw golwg ar ofal lliniarol. Drwy'r adolygiad hwnnw gan y pwyllgor, mae gennym gyfle heb ei ail i ddechrau unioni rhai o'r beiau hyn.

Un broblem, sy'n ymwneud yn gymaint â chomisiynu a darparu cyffuriau ag â gwasanaethau cancer yn gyffredinol, yw rôl gomisiynu'r gwahanol gyrff. Mae gan fyrddau iechyd lleol rôl gomisiynu mewn gwasanaethau oedolion, mae gan Gomisiwn Iechyd Cymru rôl mewn gwasanaethau plant, ac yna mae'r rhwydweithiau cancer hyn yn rhywle yn y canol rhyngddynt. Mae'n broses ddyrys, ddryslyd a braidd yn rhyfedd o gomisiynu gwasanaethau cancer. Rhaid inni edrych ar hynny pan fyddwn yn edrych ar sut y gallwn newid y broses o adolygu cyffuriau. Wrth wneud hynny, rhaid inni feddwl am syniadau i symleiddio'r drefn, ac yn sicr, dylem ofalu, a pharhau i ofalu, mai diogelwch clinigol a diogelwch y claf sydd flaenaf.

Peter Law: Yr wyf yn sylweddoli'n arbennig

difficulty that sufferers have, as I, too, am a sufferer, as far as cancer is concerned. Therefore, I was pleased to see that the Liberal Democrats have tabled this debate. Earlier today, I went down to see Mrs Sullivan to wish her well, and I do so now, publicly, as, I am sure, do the people of Wales. Nobody can fail to have been touched by her quest and her difficulties. I admire her greatly and all those who support her as well as those who need to have these basic drugs, which should be available to help them to live. We are talking about the right to life, here—believe you me. I am a patient at Velindre hospital, which I attend often, and it is a centre of excellence of which we can be proud. I am sure that there is a similar centre of excellence in the north. The people at that hospital are totally dedicated to working to make me better and to make the other regular attendees whom I meet there better.

4.30 p.m.

This is how important this debate and vote is—it is about giving people an opportunity to live out their lives. I was in Velindre Hospital recently, and the lady who showed us the investigative process said that what they did was to perhaps give someone a chance to see the grandchild that they would not otherwise have seen. She is absolutely right, and it is certainly true in my case because I have a grandchild who is about six months old.

Let us be realistic—we are the legislators and we have the money, and we should be big enough to stand up and say that, whatever the cost, we will put it right, because that is the difference and it is what the people expect. If there is not enough money, we should go to London and say that we need more because we want our share. That is what it is about when you are at the sharp end. I understand the case of Mrs Sullivan and others, which is why I support this today. Although the Assembly does not have the answer for everything under one roof, I hope that we have quite a lot of the answers, and I hope that we can show the people of Wales that there is ground for hope and dedication to be

yr anawsterau y mae dioddefwyr yn eu hwynebu, gan fy mod innau hefyd yn ddiodesfwr lle y mae canser yn y cwestiwn. Yr oeddwn yn falch felly o weld bod y Democratiaid Rhyddfrydol wedi cyflwyno'r ddadl hon. Yn gynharach heddiw, euthum i lawr i weld Mrs Sullivan i ddymuno'n dda iddi, ac yr wyf yn gwneud hynny yn awr, yn gyhoeddus, fel, yr wyf yn siŵr, y gwna pobl Cymru. Mae ei hymgyrch a'i hanawsterau wedi gwneud argraff ar bawb ohonom. Yr wyf yn ei hedmygu'n fawr a phawb sy'n ei chefnogi, yn ogystal â'r rhai y mae angen iddynt gael y cyffuriau hanfodol hyn, a ddylai fod ar gael i'w helpu i fyw. Siarad am yr hawl i fyw yr ydym yma—credwch fi. Yr wyf yn glaf yn ysbyty Felindre, lle y byddaf yn mynd yn aml, ac mae'n ganolfan rhagoriaeth y medrwn ymfalchïo ynddi. Yr wyf yn siŵr bod canolfan debyg yn y gogledd. Mae'r bobl yn yr ysbyty hwnnw wedi llwyr ymroi i weithio i'm gwella ac i wella'r mynychwyr rheolaidd eraill y byddaf yn eu cyfarfod yno.

Dyma pa mor bwysig yw'r ddadl a'r bleidlais hon—mae'n ymwneud â rhoi cyfle i bobl barhau i fyw eu bywydau. Yr oeddwn yn Ysbyty Felindre yn ddiweddar, a dywedodd y fenyw a ddangosodd y broses ymchwiliol inni mai'r hyn yr oeddent yn ei wneud oedd efallai rhoi cyfle i rywun weld ŵyr neu wyres na fyddent yn byw i'w gweld fel arall. Mae hi yn llygad ei lle, ac mae hynny'n sicr yn wir yn fy achos i oherwydd mae gennyf ŵyr sydd tua chwe mis oed.

Gadewch inni fod yn realistig—ni yw'r deddfwyr ac mae'r arian ar gael inni, a dylem fod yn ddigon gonest i sefyll ar ein traed a dweud y byddwn, beth bynnag fo'r gost, yn unioni'r sefyllfa, oherwydd dyna'r gwahaniaeth a dyna'r hyn y mae pobl yn ei ddisgwyl. Os nad oes digon o arian ar gael, dylem fynd at Lundain a dweud ein bod am gael rhagor oherwydd ein bod am gael ein cyfran deg. Dyna fel y mae pethau pan ydych yn ei chanol hi. Yr wyf yn deall achos Mrs Sullivan ac eraill, a dyna pam yr wyf yn chefnogi hyn heddiw. Er nad oes gan y Cynulliad yr ateb i bopeth o dan yr un to, gobeithiaf fod gennym gryn dipyn o'r atebion, a gobeithiaf y gallwn ddangos i bobl

able to say to them ‘Yes, we are here, and we will not fail you because we are working for you and listening to your needs—you have friends in us’. That is what it is about, which is why I hope that we will vote in favour of this motion, because it is in the interest of cancer sufferers.

Glyn Davies: Today’s debate concerns access to new drugs by people suffering from serious illness. Members who served during the first Assembly may remember that I was diagnosed with colorectal cancer in 2002, and I underwent major surgery—abdominal perineal excision of the rectum—which saved my life. This is the first occasion on which I have spoken about it in the Chamber, because I prefer not to speak about it. However, I did not want the debate to pass without commenting on how we respond to colorectal cancer, including the highly sensitive issue of access to new drugs.

I will make a brief reference to screening for bowel cancer, by way of background. Screening is so important because early diagnosis delivers a very good chance of a full recovery. Every year, 30,000 people in the UK are diagnosed with colon cancer, and some 16,000 people per year die from it. It is the second most common cause of death from cancer after lung cancer. It seems incredible that there is not more urgency in the drive for an effective screening programme. I ask the Minister to take screening for bowel cancer very seriously, because it would save thousands of lives.

I will also make a brief reference to the review of the arrangements for the provision of stoma appliances that is currently under way. For those of us who have had a lower bowel resection, and for many others who have had gut operations, a colostomy bag is permanent. This, in itself, is a traumatic experience. It was a blessing to me and for every other ostomate that the supply of stoma appliances is handled with wonderful efficiency. The system may now be completely changed, and I ask the Minister to

Cymru fod gennym reswm dros fod yn obeithiol ac yn ymroddgar i allu dweud wrthynt ‘Ydym, yr ydym yma ac ni wnawn eich siomi oherwydd yr ydym yn gweithio ar eich rhan ac yn gwrando ar eich anghenion—yr ydym yn gyfeillion ichi’. Dyna yw hanfod hyn, a dyna pan yr wyf yn gobeithio y byddwch yn pleidleisio o blaid y cynnig hwn, oherwydd y mae er lles dioddefwyr cancer.

Glyn Davies: Mae’r ddadl heddiw’n ymwneud â mynediad pobl sy’n dioddef salwch difrifol at gyffuriau newydd. Bydd Aelodau a fu’n gwasanaethu yn ystod y Cynulliad cyntaf yn cofio imi fod yn dioddef gan ganser y colon a’r rhefr yn 2002, a chefais lawdriniaeth fawr—trychiad gwerddryol abdomenol y rhefr—a achubodd fy mywyd. Dyma’r tro cyntaf imi sôn amdano yn y Siambr, oherwydd mae’n well gennyf beidio â sôn amdano. Fodd bynnag, nid oeddwn am i’r ddadl fynd heibio heb gynnig sylw ar y modd yr ydym yn ymateb i ganser y colon a’r rhefr, gan gynnwys problem sensitif dros ben mynediad at gyffuriau newydd.

Yr wyf am gyfeirio’n sydyn at sgrinio ar gyfer cancer y coluddyn, fel cefndir i’r sylwadau. Mae sgrinio mor bwysig gan fod diagnosis cynnar yn golygu siawns dda o wella’n llwyr. Bob blwyddyn, mae 30,000 o bobl yn y DU yn canfod bod cancer y coluddyn arnynt, ac mae tua 16,000 o bobl y flwyddyn yn marw o ganlyniad iddo. Ar wahân i ganser yr ysgyfaint dyma’r cancer sy’n achosi’r nifer fwyaf o farwolaethau. Mae’n rhyfeddol nad oes mwy o frys yn yr ymdrech i gael rhaglen sgrinio fwy effeithiol. Gofynnaf i’r Gweinidog ystyried sgrinio ar gyfer cancer y coluddyn o ddifrif, gan y byddai’n arbed miloedd o fywydau.

Yr wyf am gyfeirio’n sydyn hefyd at yr adolygiad o’r trefniadau ar gyfer darparu offer stoma sy’n cael ei gynnal ar hyn o bryd. I’r rhai ohonom sydd wedi cael echdoriad o’r coluddyn isaf, ac i lawer o rai eraill sydd wedi cael llawdriniaeth ar y perfedd, mae bag colostomi yn rhywbeth parhaol. Mae hyn, ynddo’i hun, yn brofiad trawmatig. Yr oedd yn fendith i mi a phob ostomat arall fod cyflenwi offer stoma yn cael ei drin yn hynod effeithlon. Mae’n bosibl y caiff y system ei newid yn llwyr yn awr, a gofynnaf i’r

be careful about this. There is a real danger that the wonderful system which is now in place, which is trusted and applauded, is threatened by an obsession with change.

My third point is about new drugs. For many years, there has been a standard drug to defeat colon cancer, and suddenly there are several new drugs of huge promise that save lives. Last summer, I was involved in a huge amount of publicity about the availability of Xeloda in Scotland, but not in England and Wales, for the same reason that Herceptin and interferon are not comprehensively available today. My message to the Minister is simple and clear: give real priority to the testing and approval of these drugs. I know that this is a difficult and sensitive issue, and I realise that the Minister cannot say 'yes' to everything, but it is a terrible thing to see someone whom you love or know well dying, but it is much worse when you know that there are drugs available which will enable them to recover.

The Minister for Health and Social Services (Brian Gibbons): We will support the motion and the amendment. While we have specific concerns about the precise wording and could have tabled line by line amendments, I feel that that would be seen as a semantic exercise of dancing on the head of a pin, when there is broad consensus on all the main issues.

Over the last half a century, we have come to appreciate the tremendous benefit that we can all derive from medicines and other pharmaceutical products but, since the thalidomide tragedy in the 1960s, which affected between 400 and 500 British children, the importance of medicine and drug licensing has been recognised as being central to maintaining basic safety and efficacy standards. We know that, in many instances, even these minimum standards have not been sufficient to protect the public. One of the most recent examples has been the drug Vioxx. This arthritis drug was licensed no later than in 1999 as being less likely to cause serious stomach bleeding compared

Gweinidog fod yn ofalus iawn wrth feddwl am hyn. Mae perygl gwirioneddol y bydd y system ragorol sydd gennym ar hyn o bryd, sy'n un y gellir ymddiried ynddi ac sy'n cael ei chanmol, yn cael ei bygwth gan obsesiwn gyda newid.

Mae fy nhrydydd pwynt yn ymwneud â chyffuriau newydd. Ers blynyddoedd lawer, mae cyffur safonol i drechu canser y colon, ac yn sydyn mae sawl cyffur newydd hynod addawol wedi ymddangos a all achub bywydau. Yn ystod yr haf diwethaf, yr oeddwn yn gysylltiedig â llawer o gyhoeddusrwydd yn ymwneud â'r ffaith bod Xeloda ar gael yn yr Alban, ond nid yn Lloegr na Chymru, ac am yr un rheswm nid yw Herceptin ac interfferon ar gael i bawb heddiw. Mae fy neges i'r Gweinidog yn un syml ac eglur: rhowch wir flaenoriaeth i brofi a chymeradwyo'r cyffuriau hyn. Gwn fod hwn yn fater anodd a sensitif, ac yr wyf yn sylweddoli na all y Gweinidog ddweud 'o'r gorau' i bopeth, ond mae'n beth ofnadwy gweld rhywun yr ydych yn ei garu neu'n ei adnabod yn dda'n marw, ond mae'n llawer gwaeth os ydych yn gwybod bod cyffuriau ar gael a fyddai'n eu galluogi i wella.

Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Brian Gibbons): Byddwn yn cefnogi'r cynnig hwn a'r gwelliant. Er bod gennym bryderon penodol ynglŷn â'r union eiriad ac y gallem fod wedi cyflwyno gwelliannau fesul llinell, teimlaf y byddai hynny wedi bod yn ymarferiad semantig o ddawnsio ar ben pin, pan fo gennym gonsensws cyffredinol ar yr holl brif faterion.

Dros yr hanner canrif diwethaf, yr ydym wedi dod i werthfawrogi'r budd enfawr a all ddod i bob un ohonom yn sgîl meddyginiaethau a chynhyrchion fferyllol eraill ond, ers trychineb y cyffur thalidomid yn y 1960au, a effeithiodd ar rhwng 400 a 500 o blant ym Mhrydain, mae pwysigrwydd trwyddedu meddyginiaethau a chyffuriau wedi cael ei gydnabod fel rhywbeth sy'n allweddol i gynnal safonau diogelwch ac effeithlonrwydd sylfaenol. Gwyddom, mewn llawer o achosion, nad yw hyd yn oed y safonau sylfaenol hyn wedi bod yn ddigon i ddiogelu'r cyhoedd. Un o'r enghreifftiau diweddaraf oedd y cyffur Vioxx. Cafodd y cyffur arthritis hwn ei drwyddedu yn 1999 fel

with mainstream arthritis drugs. However, over a period of four years post licensing, the likely benefits became less apparent and the risks more apparent. Eventually the drug was withdrawn just 18 months ago, when further clinical trials found that it virtually doubled the risk of heart disease and stroke in patients. At this stage, it is not possible to give an exact estimate of the number of people who suffered serious, and possibly fatal, complications from this drug but the estimates run from tens in the United Kingdom to tens of thousands worldwide. That demonstrates that merely because a drug is available worldwide, it does not guarantee safety.

These tragic events highlight the limitations of our existing regulatory arrangements and, even though it has agreed to withdraw the drug, the manufacturer continues to dispute the evidence, which further indicates the degree of uncertainty that surrounds the issues of drug safety and benefit.

We could add to this story the concerns that there have been during my career in medicine about practolol, Froben, Celebrex and even hormone replacement therapy to highlight the most well-known examples, not to mention the ongoing debate over anti-depressant treatment. It would, therefore, have been better if the Liberal Democratic motion had included references to the importance of safety and clinical effectiveness as well as to the speed of the approval process. I am pleased that Jonathan Morgan made that point. In speaking of the approval process, Jenny outlined that it is not just speedy approval but effectiveness and safety that are prime considerations.

When we see patients suffering and there appears to be a new treatment available, as an Assembly Government, we immediately want him or her to get that treatment. However, not all new treatments are as good as they appear at first glance and processes must be in place to ensure effectiveness and safety.

un a oedd yn llai tebygol o achosi gwaedu difrifol yn y stumog o'i gymharu â'r cyffuriau arthritis prif ffrwd. Fodd bynnag, dros gyfnod o bedair blynedd ar ôl ei drwyddedu, daeth y manteision tebygol yn llai amlwg a daeth y peryglon yn fwy amlwg. Yn y diwedd, tynnwyd y cyffur yn ôl mor ddiweddar â 18 mis yn ôl, ar ôl i dreialon clinigol pellach ddangos ei fod fwy neu lai'n dyblu'r perygl o afiechyd y galon a strôc i gleifion. Ar hyn o bryd, nid oes modd amcangyfrif union nifer y bobl sydd wedi dioddef cymhlethdodau difrifol, ac o bosibl angheuol, o ganlyniad i'r cyffur ond mae'r amcangyfrifon yn amrywio o ddegau yn y Deyrnas Unedig i ddegau o filoedd yn fyd-eang. Mae hyn yn dangos nad yw'r ffaith bod cyffur ar gael yn fyd-eang yn golygu y gellir gwarantu ei ddiogelwch.

Mae'r digwyddiadau trasig hyn yn dangos cyfyngiadau ein trefniadau rheoleiddio presennol ac, er bod y gwneuthurwr wedi cytuno i dynnu'r cyffur yn ôl, mae'n parhau i wrthod y dystiolaeth, sy'n arwydd pellach o'r ansicrwydd sydd ynghlwm â mater diogelwch a buddion cyffuriau.

Gallem ychwanegu at yr hanes hwn y pryderon sydd wedi codi yn ystod fy ngyrfa i mewn meddygaeth ynglŷn â practolol, Froben, Celebrex a hyd yn oed therapi adfer hormonau, a thynnu sylw at yr enghreifftiau mwyaf amlwg, heb sôn am y ddadl sy'n mynd ymlaen ynghylch triniaeth gwrthiselyddion. Byddai, felly, wedi bod yn well, pe bai cynnig y Democratiaid Rhyddfrydol wedi cynnwys cyfeiriadau at bwysigrwydd diogelwch ac effeithiolrwydd clinigol yn ogystal â chyflymu'r broses o gymeradwyo cyffuriau. Yr wyf yn falch bod Jonathan Morgan wedi gwneud y pwynt hwnnw. Wrth sôn am y broses gymeradwyo, amlinellodd Jenny nad cymeradwyaeth gyflym yn unig yw'r brif ystyriaeth ond hefyd effeithiolrwydd a diogelwch.

Pan fyddwn yn gweld cleifion yn dioddef a phan fo'n ymddangos bod triniaeth newydd ar gael, yr ydym ni, fel Llywodraeth y Cynulliad, am iddo ef neu hi dderbyn y driniaeth honno ar unwaith. Fodd bynnag, nid yw pob triniaeth newydd cystal ag y mae'n ymddangos ar yr olwg gyntaf a rhaid cael prosesau ar waith i sicrhau effeithiolrwydd a

diogelwch y cyffuriau.

Licensing is not a devolved matter and we need to bear that in mind. However, it is generally recognised that the United Kingdom licensing process is among the fastest in Europe. Licensing is not some bureaucratic hurdle but a vital part of the process to prevent further unnecessary tragedies from drugs. At a time when there are new and competing drugs on the market, we also need to have some mechanism to establish where these drugs fit into the overall treatment regime.

Once a drug has been licensed, the National Institute for Health and Clinical Excellence has the role of assessing where the drug slots into an overall clinical and cost-effectiveness programme. The National Institute for Health and Clinical Excellence has recently launched a new rapid assessment process for single technologies, which will produce guidance on high-priority treatments, including trastuzumab, within a much shorter timescale than the existing mechanisms and, hopefully, within periods as short as six months.

While NICE guidance is regarded as representing gold-standard performance throughout the world, there have been concerns in the past that the process is slow and cumbersome. That was one of the reasons why the Assembly Government established the all-Wales medicine strategy group in 2002; providing interim guidance pending final decisions on NICE assessments was part of its remit. To date, the all-Wales medicine strategy group has appraised 11 medicines, covering 13 preparations, and eight of those have been approved for use in Wales. Of the drugs that were assessed before a NICE recommendation, the all-Wales medicine strategy group has regularly reported over 12 months in advance of NICE and, in some instances, two to three years in advance of it.

4.40 p.m.

Therefore, it is not correct to imply that the Welsh Assembly Government is not taking

Nid yw trwyddedu'n fater sydd wedi ei ddatganoli a rhaid inni gadw hynny mewn cof. Fodd bynnag, cydnabyddir yn gyffredinol fod proses drwyddedu'r Deyrnas Unedig ymhlith y cyflymaf yn Ewrop. Nid rhyw rwystr biwrocraataidd yw trwyddedu ond elfen hanfodol o'r broses i atal rhagor o drychinebau diangen o ganlyniad i gyffuriau. Ar adeg pan fo cyffuriau newydd sy'n cystadlu â'i gilydd yn dod ar y farchnad, rhaid inni hefyd gael rhyw fath o fecanwaith i bennu lle'r cyffuriau hyn o fewn y gyffundrefn driniaethau yn gyffredinol.

Ar ôl i gyffur gael ei drwyddedu, rôl y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol wedyn yw asesu beth yw lle'r cyffur o fewn rhaglen glinigol a chost-effeithiolrwydd gyffredinol. Yn ddiweddar lansiodd y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol broses asesu newydd a chyflym ar gyfer technolegau sengl, a fydd yn cyhoeddi canllawiau ar driniaethau blaenoriaeth uchel, gan gynnwys trastuzumab, o fewn cyfnodau llawer byrrach na'r mecanweithiau presennol a, gobeithio, o fewn cyfnodau cyn fyrred â chwe mis.

Er bod safon canllawiau NICE yn cael eu cydnabod fel y safon i ymglyraedd ati ledled y byd, mynegwyd pryderon yn y gorffennol fod y broses yn un araf ac anhylaw. Dyna un o'r rhesymau pam y sefydlodd Llywodraeth y Cynulliad grŵp strategaeth feddyginiaethau Cymru gyfan yn 2002; mae darparu canllawiau interim wrth aros am y penderfyniadau terfynol ar asesiadau NICE yn rhan o'i gylch gwaith. Hyd yma, mae grŵp strategaeth feddyginiaethau Cymru gyfan wedi arfarnu 11 o feddyginiaethau, sy'n ymwneud â 13 o baratodau, ac mae wyth o'r rhain wedi eu cymeradwyo i'w defnyddio yng Nghymru. O'r cyffuriau a aseswyd cyn argymhellid NICE, mae grŵp strategaeth feddyginiaethau Cymru gyfan wedi adrodd dros 12 mis o flaen NICE yn rheolaidd ac, mewn rhai achosion, ddwy neu dair blynedd o'i flaen.

Felly, nid yw'n gywir awgrymu nad yw Llywodraeth Cynulliad Cymru'n cymryd

action to ensure that patients get access to drugs as quickly as possible when a NICE assessment may seem to be taking too long.

I am sure that people will argue that all this is right and well in principle, but that, in the present debate over trastuzumab, the Welsh Assembly Government is being unduly bureaucratic and dogmatic and failing to see the wood for the trees. There is no doubt that initial results from the trials have been very positive in terms of reducing the recurrence rate for early breast cancer—possibly in the order of 50 per cent. I think that we would all agree that this is welcome and dramatic news. However, against that, we need to remember that one of the key studies, namely the Herceptin Adjuvant trial, showed at the end of one year that there was no overall survival benefit despite the reduction in the number of recurrences.

The second landmark study—the combined NSABP B-31 and the NCCTG N9831—has run for four years, and it has also found a 50 per cent improvement in the number of cancer relapses. The trial demonstrated that, over a period of four years, 91.4 per cent of the treatment group survived compared to 86.6 per cent of the non-treatment group—an improvement in the survival rate of just under 5 per cent. This is an important improvement, but it needs to be taken in the context of the news headline messages that have stated that there has been an overall improvement of 50 per cent in the relapse rate.

In trying to make sense of all this, the authors of the HERA study, which was one of the key studies published in October, said that while they were delighted with the remission rates that their studies achieved, they acknowledge that they have only an incomplete picture of the risks associated with this drug and make particular reference to the risks that exist in terms of cardiac and central nervous system complications.

Equally, *The Lancet* editorial that commented

camau i sicrhau bod cleifion yn cael mynediad at gyffuriau cyn gynted â phosibl pan fo'n ymddangos bod asesiad NICE yn cymryd gormod o amser.

Yr wyf yn siŵr y bydd pobl yn dadlau bod hyn yn iawn ac yn briodol mewn egwyddor, ond, yn y ddadl bresennol ynghylch trastuzumab, fod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn rhy fiwrocraidaidd a dogmatig ac yn colli golwg ar y blaenoriaethau. Nid oes amheuaeth nad yw canlyniadau cyntaf y treialon wedi bod yn bositif iawn o ran lleihau'r gyfradd ailddigwydd yn achos cancer cynnar y fron—o bosibl tua 50 y cant. Yr wyf yn siŵr y byddai pob un ohonom yn cytuno bod hyn yn newyddion dramatig sydd i'w groesawu. Fodd bynnag, o'r ochr arall, rhaid cofio bod un o'r prif astudiaethau, sef treial Herceptin fel Cymorth, wedi dangos ar ddiwedd un flwyddyn nad oedd budd cyffredinol o ran goroesi er gwaethaf y gostyngiad yn nifer yr achosion pan oedd yr afiechyd yn ailddigwydd.

Mae'r ail astudiaeth bwysig—y cyfuniad o'r NSABP B-31 a'r NCCTG N9831—ar y gweill ers pedair blynedd, ac mae wedi dangos gwelliant o 50 y cant yn nifer yr achosion o atglafychu o ganser. Dangosodd y treial, dros gyfnod o bedair blynedd, bod 91.4 y cant o'r grŵp a dderbyniodd y driniaeth wedi goroesi o'i gymharu ag 86.6 y cant o'r grŵp na dderbyniodd y driniaeth—gwelliant yn y gyfradd oroesi o ychydig o dan 5 y cant. Mae hwn yn welliant pwysig, ond mae angen edrych arno yng nghyd-destun y negeseuon sy'n cael eu cyfleu gan y penawdau yn y newyddion sydd wedi cyhoeddi gwelliant cyffredinol o 50 y cant yn y gyfradd atglafychu.

Wrth geisio deall hyn i gyd, mae awduron yr astudiaeth HERA, sef un o'r astudiaethau allweddol a gyhoeddwyd ym mis Hydref, wedi datgan er eu bod wrth eu bodd gyda'r cyfraddau cilio a gyflawnwyd yn eu hastudiaethau, eu bod yn cydnabod mai darlun anghyflawn yn unig sydd ganddynt o'r peryglon sy'n gysylltiedig â'r cyffur hwn ac maent yn cyfeirio'n arbennig at y peryglon sy'n bodoli ynglŷn â chymhlethdodau o ran y galon a'r system nerfol ganolog.

Yn yr un modd, dywedodd erthygl olygyddol

on these trials stated that:

‘Whatever the urgency, it is crucial that NICE resists pressures to make expedient decisions’.

Therefore, while the news on trastuzumab to date looks good, clearly, even in terms of the main researchers, there are unanswered questions, and minimum regulatory procedures must be adhered to to ensure that patients receive the full benefit of this drug. Even in advance of licensing, there are a number of patients whom clinicians feel can legitimately be prescribed this drug. There is nothing to stop individual clinicians or LHBs agreeing to supply the drug. However, in doing so, they must be aware that these decisions are based on the specific individual needs of patients and must bear in mind the limited information that is available. Patients must also give informed consent.

To date, a number of clinicians have exercised their rights to prescribe this drug, and the cancer networks in south-east and north Wales have been working with these clinicians to ensure that there is a consistent approach. A similar exercise is going on in mid and west Wales, and I expect that it will come to similar conclusions in the near future.

It is on this basis that we will accept the Liberal Democrat’s amendment, although it would be of great concern if it were suggesting that there should be a general policy of prescribing drugs in advance of approval and NICE assessment.

We are already engaging with the all-Wales medicine strategy group to see if, when the licensing information becomes available, it will be able to support the use of trastuzumab in Wales in advance of a NICE assessment. We have already commenced an overall strategy to consider the wider approach that needs to be taken in Wales in terms of the introduction of new and expensive drugs. That includes considering the option of working with Scotland, if it wants to go down the same road.

The Lancet a fu’n edrych ar y treialon hyn:

Beth bynnag fo’r brys, mae’n hanfodol bod NICE yn gwrthsefyll unrhyw bwysau i wneud penderfyniadau cyfleus.

Felly, er bod y newyddion ynglŷn â trastuzumab yn edrych yn addawol hyd yma, hyd yn oed o ran y prif ymchwilyr, mae cwestiynau’n parhau heb eu hateb, a rhaid glynu wrth y gweithdrefnau rheoleiddio gofynnol i sicrhau bod cleifion yn cael y budd llawn oddi wrth y cyffur hwn. Hyd yn oed cyn trwyddedu’r cyffur, mae nifer o gleifion y mae clinigwyr yn teimlo y gellid rhoi’r cyffur hwn iddynt yn gyfreithlon. Nid oes dim sy’n rhwystro clinigwyr unigol neu fyrddau iechyd lleol rhag cytuno i gyflenwi’r cyffur. Fodd bynnag, wrth wneud hynny, rhaid iddynt sylweddoli bod y penderfyniadau hyn yn seiliedig ar anghenion penodol cleifion unigol a rhaid cofio mai gwybodaeth gyfyngedig yn unig sydd ar gael ar hyn o bryd. Rhaid i gleifion hefyd roi cydsyniad sy’n seiliedig ar wybodaeth.

Hyd yma, mae nifer o glinigwyr wedi arfer eu hawliau i roi’r cyffur hwn, ac mae’r rhwydweithiau canser yn y de-ddwyrain a’r gogledd wedi bod yn gweithio gyda’r clinigwyr hyn i sicrhau bod dull cyson o ymdrin â hyn. Mae ymarferiad tebyg ar waith yn y canolbarth a’r gorllewin, a disgwyliaf y bydd yn dod i gasgliadau tebyg yn y dyfodol agos.

Byddwn yn derbyn gwelliant y Democratiaid Rhyddfrydol ar sail hyn, er y byddai’n peri pryder mawr pe bai’n awgrymu y dylai fod polisi cyffredinol o ragnodi cyffuriau cyn iddynt gael eu cymeradwyo a chyn i NICE eu hasesu.

Yr ydym eisoes yn ymgysylltu â grŵp strategaeth feddyginiaethau Cymru gyfan i weld a fydd, pan fydd y wybodaeth ar drwyddedu ar gael, yn gallu cefnogi defnyddio trastuzumab yng Nghymru cyn bod asesiad NICE yn hysbys. Yr ydym eisoes wedi dechrau ar strategaeth gyffredinol i ystyried y dull y dylid mynd ati yn ehangach yng Nghymru o ran cyflwyno cyffuriau newydd a chostus. Mae hynny’n cynnwys ystyried yr opsiwn o weithio gyda’r Alban, os yw am ddilyn yr un trywydd.

Michael German: I thank the Minister. It is quite clear, from his remarks, particularly those at the end of his speech, that he is prepared to move forward on the current political issue of Herceptin—he uses the technical name for the drug. I am grateful for that, as, I think, is the whole Assembly, because this issue has struck a chord in Welsh and British life in recent weeks. It has been of great concern.

The two personal testimonies that we heard during this debate, from Glyn Davies and Peter Law, made it clear that there are issues that affect the hearts, minds and souls of people very close to us in the Chamber as well as in our families and in the communities that we serve. So, I am grateful that the Minister has taken the action that he has this afternoon because he seeks to take the lead in an area where the Assembly is required to take the lead. In that sense, we should all be grateful.

I turn to the remarks made during the course of the debate. First, the Minister referred to clinical effectiveness and safety. Nowhere in our motion—and it should not be inferred from what we have suggested—do we suggest not having clinical effectiveness and safety at the heart of what we are trying to do here. However, when people are faced with decision-making processes that are faster in Scotland than they are in Wales and when we have a decision-making process that permits the use of Herceptin in many parts of Wales, I am of the view that people do not necessarily understand why the process is slower and why Herceptin should be available in 75 per cent of Wales and not in the other 25 per cent. I am grateful to the Minister for indicating that it will soon be available throughout the country. In that context, it must be, therefore, difficult for people to understand the processes that we are going through and the processes of dealing with what are essentially very personal and emotional matters for those who are affected and for their families and communities. We need to change our thinking to look at how progress on new drugs is made.

Michael German: Diolchaf i'r Gweinidog. Mae'n ddigon amlwg, yn ôl ei sylwadau, yn enwedig y rhai ar ddiwedd ei araith, ei fod yn barod i symud ymlaen o ran mater gwleidyddol presennol y cyffur Herceptin—mae'n defnyddio enw technegol y cyffur. Yr wyf yn ddiolchgar am hynny, a chredaf fod y Cynulliad cyfan hefyd, oherwydd bod y mater hwn wedi taro tant ym mywyd Cymru a Phrydain yn ystod yr wythnosau diwethaf. Mae wedi bod yn peri pryder mawr.

Yn y ddwy dystiolaeth bersonol a glywsom yn ystod y ddadl hon, gan Glyn Davies a Peter Law, fe'i gwnaed yn glir bod materion sy'n effeithio ar galonau, meddyliau ac eneidiau pobl sy'n agos iawn atom yn y Siambr ynghyd â'n teuluoedd a'r cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu. Felly yr wyf yn ddiolchgar bod y Gweinidog wedi cymryd y camau a wnaeth y prynhawn yma am ei fod am roi arweiniad mewn maes y mae gofyn i'r Cynulliad roi arweiniad ynddo. O'r safbwynt hwnnw, dylem oll fod yn ddiolchgar.

Trof at y sylwadau a wnaethpwyd yn ystod y ddadl. Yn gyntaf, cyfeiriodd y Gweinidog at effeithiolrwydd a diogelwch clinigol. Nid ydym yn unman yn ein cynnig—ac ni ddylid ei gasglu o'r hyn yr ydym wedi ei awgrymu—yn awgrymu na ddylid rhoi effeithiolrwydd a diogelwch clinigol wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ceisio ei wneud yn y cyswllt hwn. Fodd bynnag, pan fo pobl yn gweld prosesau o wneud penderfyniadau sy'n gyflymach yn yr Alban nag ydynt yng Nghymru a phan fo gennym broses o wneud penderfyniadau sy'n caniatáu defnyddio Herceptin mewn sawl rhan o Gymru, credaf nad yw pobl o angenrheidrwydd yn deall pam y mae'r broses yn arafach a pham y mae Herceptin ar gael mewn 75 y cant o Gymru ond nad yw ar gael yn y 25 y cant arall. Yr wyf yn ddiolchgar i'r Gweinidog am ddweud y bydd ar gael cyn hir ar draws y wlad. Yn hynny o beth, mae'n rhaid, felly, ei bod yn anodd i bobl ddeall y prosesau yr ydym yn eu dilyn a'r prosesau o ddelio â materion sydd yn eu hanfod yn faterion personol ac emosiynol iawn i'r rhai yr effeithir arnynt a'u teuluoedd a'u cymunedau. Mae angen inni newid ein ffordd o feddwl gan edrych ar sut y mae sicrhau cynnydd o ran cyffuriau newydd.

The problem for NICE is that it has wave upon wave of new drugs thrust on it, and yet, it is not being financed, resourced or even supported sufficiently well to be able to handle that. If it does not have the number of staff and the research required, then no matter how much you implore it, it will not be able to move faster than before. So, I ask the Minister how he views that as compared with the Scottish system and whether or not we need to play a partnership role with Scotland in this matter and in some of these cases. We have believed, therefore, that the approval process is cumbersome. It must be reflected upon and we must have this review. I am grateful to the Minister for taking the attitude that he has this afternoon in this splendid new Chamber. Perhaps we can take that as being the spirit of the times, and I hope that this sense of us working together, across all parties on these crucial issues, can prevail.

Y broblem i NICE yw ei fod wedi gorfod mynd i'r afael â thon ar ôl ton o gyffuriau newydd, er nad yw'n cael cyllid nac adnoddau na chefnogaeth ddigonol i fedru ymdopi â hwy. Heb ddigon o staff, a heb yr ymchwil angenrheidiol, ni waeth faint o erfyn a wnewch arno, ni fydd yn gallu gweithio'n gyflymach nag o'r blaen. Felly, gofynnaf i'r Gweinidog beth yw ei farn ynglŷn â hynny o'i gymharu â system yr Alban ac a ddylem chwarae rôl bartneriaeth gyda'r Alban yn hyn o beth ai peidio ac yn rhai o'r achosion hyn. Yr ydym wedi bod o'r farn, felly, fod y drefn gymeradwyo'n anhylaw. Mae'n rhaid dwys ystyried y mater ac mae'n rhaid inni gael yr adolygiad hwn. Yr wyf yn ddiolchgar i'r Gweinidog am yr agwedd y mae wedi ei chymryd y prynhawn yma yn y Siambr newydd ysbennnydd hon. Efallai y gallwn gymryd mai dyna ysbryd yr oes, a gobeithiaf y bydd yr ymdeimlad hwn sydd rhyngom o gydweithio, ar draws pob plaid ar y materion allweddol hyn, yn parhau.

*Gwelliant 1: O blaid 53, Ymatal 0, Yn erbyn 0.
Amendment 1: For 53, Abstain 0, Against 0.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Andrews, Leighton
Barrett, Lorraine
Bates, Mick
Black, Peter
Bourne, Nick
Burnham, Eleanor
Butler, Rosemary
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davidson, Jane
Davies, Andrew
Davies, Glyn
Davies, Janet
Davies, Jocelyn
Dunwoody, Tamsin
Essex, Sue
Francis, Lisa
German, Michael
Gibbons, Brian
Graham, William
Gregory, Janice
Griffiths, John
Gwyther, Chris
Hart, Edwina
Hutt, Jane
Idris Jones, Denise
James, Irene
Jones, Alun Ffred
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Jones, Elin

Jones, Helen Mary
 Jones, Ieuan Wyn
 Jones, Laura Anne
 Lewis, Huw
 Lloyd, Dai
 Lloyd, Val
 Melding, David
 Mewies, Sandy
 Morgan, Jonathan
 Morgan, Rhodri
 Neagle, Lynne
 Pugh, Alun
 Randerson, Jenny
 Ryder, Janet
 Sargeant, Carl
 Sinclair, Karen
 Thomas, Catherine
 Thomas, Gwenda
 Thomas, Owen John
 Thomas, Rhodri Glyn
 Williams, Kirsty
 Wood, Leanne

Derbyniwyd y gwelliant.

Amendment carried.

Cynnig NDM2821 fel y'i diwygiwyd:

Motion NDM2821 as amended:

- | | |
|---|--|
| <p><i>1. the National Assembly calls for the process for approving new drugs to be speeded up so that they become available more quickly to patients in Wales;</i></p> | <p><i>1. y Cynulliad Cenedlaethol yn galw am gyflymu'r broses o gymeradwyo cyffuriau newydd fel eu bod ar gael yn gynt i gleifion yng Nghymru;</i></p> |
| <p><i>2. the National Assembly requires the Welsh Assembly Government to commission an urgent study to report into methods by which new drugs can be made available more quickly.</i></p> | <p><i>2. y Cynulliad Cenedlaethol yn mynnu bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn comisiynu astudiaeth frys i adrodd ar ddulliau ar gyfer darparu cyffuriau newydd yn gynt.</i></p> |
| <p><i>3. the study should include the full cost implications in the short, medium and longer term and an examination of the Scottish drugs approval process.</i></p> | <p><i>3. dylai'r astudiaeth gynnwys y goblygiadau cost yn llawn yn y tymor byr, y tymor canolig a'r hirdymor ac archwiliad o broses cymeradwyo cyffuriau'r Alban.</i></p> |
| <p><i>4. welcomes the news that after receiving advice from the south-east Wales and north Wales cancer networks, local health boards in these areas have agreed to prescribe Herceptin to treat early-stage breast cancer but regrets that this is not the case throughout the whole of Wales.</i></p> | <p><i>4. yn croesawu'r newyddion, ar ôl derbyn cyngor gan rwydweithiau canser y de-ddwyrain a'r gogledd, fod y byrddau iechyd lleol yn yr ardaloedd hyn wedi cytuno i roi Herceptin i drin canser y fron yn ei gamau cynnar ond yn gresynu nad dyna'r sefyllfa ledled Cymru.</i></p> |

Cynnig fel y'i diwygiwyd: O blaid 54, Ymatal 0, Yn erbyn 0.

Amended motion: For 54, Abstain 0, Against 0.

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:

The following Members voted for:

Andrews, Leighton

Barrett, Lorraine
Bates, Mick
Black, Peter
Bourne, Nick
Burnham, Eleanor
Butler, Rosemary
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davidson, Jane
Davies, Andrew
Davies, Glyn
Davies, Janet
Davies, Jocelyn
Dunwoody, Tamsin
Essex, Sue
Francis, Lisa
German, Michael
Gibbons, Brian
Graham, William
Gregory, Janice
Griffiths, John
Gwyther, Chris
Hart, Edwina
Hutt, Jane
Idris Jones, Denise
James, Irene
Jones, Alun Ffred
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Jones, Elin
Jones, Helen Mary
Jones, Ieuan Wyn
Jones, Laura Anne
Lewis, Huw
Lloyd, Dai
Lloyd, Val
Melding, David
Mewies, Sandy
Morgan, Jonathan
Morgan, Rhodri
Neagle, Lynne
Pugh, Alun
Randerson, Jenny
Ryder, Janet
Sargeant, Carl
Sinclair, Karen
Thomas, Catherine
Thomas, Gwenda
Thomas, Owen John
Thomas, Rhodri Glyn
Williams, Brynle
Williams, Kirsty
Wood, Leanne

*Derbyniwyd y cynnig fel y'i diwygiwyd.
Amended motion carried.*

The Deputy Presiding Officer: That brings today's business to a close. **Y Ddirwy Lywydd:** Daw hynny â chyfarfod heddiw i ben.

*Daeth y cyfarfod i ben am 4.48 p.m.
The meeting ended at 4.48 p.m.*

**Aelodau a'u Pleidiau
Members and their Parties**

Andrews, Leighton (Llafur – Labour)
 Barrett, Lorraine (Llafur – Labour)
 Bates, Mick (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
 Black, Peter (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
 Bourne, Nick (Ceidwadwyr Cymru – Welsh Conservatives)
 Burnham, Eleanor (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
 Butler, Rosemary (Llafur – Labour)
 Cairns, Alun (Ceidwadwyr Cymru – Welsh Conservatives)
 Chapman, Christine (Llafur – Labour)
 Cuthbert, Jeff (Llafur – Labour)
 Davidson, Jane (Llafur – Labour)
 Davies, Andrew (Llafur – Labour)
 Davies, David (Ceidwadwyr Cymru – Welsh Conservatives)
 Davies, Glyn (Ceidwadwyr Cymru – Welsh Conservatives)
 Davies, Janet (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Davies, Jocelyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Dunwoody, Tamsin (Llafur - Labour)
 Elis-Thomas, Dafydd (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Essex, Sue (Llafur – Labour)
 Francis, Lisa (Ceidwadwyr Cymru – Welsh Conservatives)
 German, Michael (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
 Graham, William (Ceidwadwyr Cymru – Welsh Conservatives)
 Gregory, Janice (Llafur – Labour)
 Griffiths, John (Llafur – Labour)
 Gibbons, Brian (Llafur – Labour)
 Gwyther, Christine (Llafur – Labour)
 Hart, Edwina (Llafur – Labour)
 Hutt, Jane (Llafur – Labour)
 Idris Jones, Denise (Llafur – Labour)
 Isherwood, Mark (Ceidwadwyr Cymru – Welsh Conservatives)
 James, Irene (Llafur – Labour)
 Jones, Alun Ffred (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Jones, Ann (Llafur – Labour)
 Jones, Carwyn (Llafur – Labour)
 Jones, Elin (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Jones, Helen Mary (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Jones, Ieuan Wyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Jones, Laura Anne (Ceidwadwyr Cymru – Welsh Conservatives)
 Law, Peter (Annibynnol – Independent)
 Lewis, Huw (Llafur – Labour)
 Lloyd, David (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Lloyd, Val (Llafur – Labour)
 Marek, John (Cymru Ymlaen – Forward Wales)
 Melding, David (Ceidwadwyr Cymru – Welsh Conservatives)
 Mewies, Sandy (Llafur – Labour)
 Morgan, Jonathan (Ceidwadwyr Cymru – Welsh Conservatives)
 Morgan, Rhodri (Llafur – Labour)
 Neagle, Lynne (Llafur – Labour)
 Pugh, Alun (Llafur – Labour)
 Randerson, Jenny (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
 Ryder, Janet (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Sargeant, Carl (Llafur – Labour)
 Sinclair, Karen (Llafur – Labour)
 Thomas, Catherine (Llafur – Labour)
 Thomas, Gwenda (Llafur – Labour)
 Thomas, Owen John (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Thomas, Rhodri Glyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Williams, Brynle (Ceidwadwyr Cymru – Welsh Conservatives)
 Williams, Kirsty (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
 Wood, Leanne (Plaid Cymru – The Party of Wales)